Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DEDDF DATBLYGU TWRISTIAETH A RHEOLEIDDIO LLETY YMWELWYR (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

yn cynnwys

Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol

**Ebrill 2026**

# Tudalen gynnwys

**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

1. Disgrifiad…………………………………………….... ......tudalen 2
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol………………………....... tudalen 3
3. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth……........... tudalen 4
4. Ymgynghori…………………………………………......... tudalen 16
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth……………………...... tudalen 25

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol……………..... tudalen 40
7. Opsiynau……………………………………….............. tudalen 45
8. Costau a manteision……………………………………... tudalen 54
9. Asesiad Fforddiadwyedd……………………………….... tudalen 77
10. Asesiadau o'r Effaith……………………………………..... tudalen 79
11. Adolygiad ôl gweithredu……………………………….... tudalen 89

**ATODIAD 1 - Nodiadau Esboniadol**....................................tudalen 91

**ATODIAD 2 - Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog**......... tudalen 118

**ATODIAD 3 - Tabl Tarddiadau**.............................................. tudalen 123

**ATODIAD 4 - Atodlen o ddiwygiadau**.................................. tudalen 125

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

Mae Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ("y Ddeddf") yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i gynllun trwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru, gan ddechrau gyda llety hunanddarpar. Bydd y cynllun hwn yn cefnogi twristiaeth yng Nghymru, drwy sicrhau ymwelwyr bod llety yn bodloni'r safonau y byddent yn eu disgwyl a darparu trefn glir i ddarparwyr.

Bydd y cynllun trwyddedu yn adeiladu ar y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr, fel y nodir yn ei deddfwriaeth ategol, Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025. O dan y Ddeddf honno, bydd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn sefydlu, cynnal a chyhoeddi'r gofrestr o ddarparwyr, a fydd hefyd yn manylu ar y math o safleoedd y maent yn eu gweithredu ledled Cymru a'u lleoliad. Gall yr wybodaeth hon fod o ddiddordeb i awdurdodau lleol, ymwelwyr, busnesau ac ymchwilwyr, a bydd yn llywio'r cynllun trwyddedu yn y dyfodol.

Bydd y Ddeddf yn ategu mesurau eraill a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau sy'n deillio o nifer uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr mewn ardaloedd penodol yng Nghymru. Canlyniad eilaidd y Ddeddf hon fydd sicrhau mwy o gysondeb rhwng cyfundrefn reoleiddio llety ymwelwyr hunanddarpar â chyfundrefn reoleiddio'r sector preifat, gan gyflwyno safonau cyson ar gyfer y llety hwnnw, a monitro cydymffurfedd â'r safonau hynny.

Mae'r Ddeddf hefyd yn creu Cod Cyfraith Cymru ar dwristiaeth a fydd yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddatblygu twristiaeth yng Nghymru, gyda'r bwriad o wella hygyrchedd deddfwriaeth ym maes twristiaeth.

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Mae gan Senedd Cymru (“y Senedd”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn Neddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) (“y Ddeddf”) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

## 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

3.1. Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn cynnwys ymrwymiad i wneud y canlynol, sef "Bwrw ymlaen â chamau i osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau", ac roedd yr ymrwymiad hwn yn rhan o Gytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru gyda Phlaid Cymru rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mai 2024. Nod Llywodraeth Cymru yw cefnogi twristiaeth gynaliadwy a chymunedau lleol, gan helpu i ddiogelu amgylchedd naturiol Cymru er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau a mynd i'r afael â'r effaith y gall ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ei chael ar gymunedau.

3.2. Mae Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ("y Ddeddf") yn darparu'r sail ddeddfwriaethol i gynllun trwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr. Mae hyn yn adeiladu ar y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr, fel y nodir yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).

3.3. Pwrpas y Ddeddf yw hyrwyddo datblygiad twristiaeth yng Nghymru. Gwna hynny drwy:

- ailddatgan a moderneiddio swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru, gan ofyn iddynt roi sylw i effaith gymdeithasol bosibl twristiaeth a'i heffaith bosibl ar yr amgylchedd a'r Gymraeg;

- rheoleiddio'r llety a ddarperir i ymwelwyr yng Nghymru trwy:

    - gyflwyno system drwyddedu i dawelu meddyliau ymwelwyr bod llety'n bodloni'r safonau y byddent yn eu disgwyl ac alinio'r safonau hynny, yn achos llety hunanddarpar, yn agosach â'r safonau cyfatebol sydd eisoes mewn grym yn y sector rhentu preifat yng Nghymru,

    - gwneud safon o ran ffitrwydd llety ymwelwyr yn ofyn contractiol, ac

    - adeiladu ar y gofrestr a grëwyd gan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 i sefydlu cyfeiriadur llety ymwelwyr at ddiben darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lety ymwelwyr yng Nghymru.

3.4. Er mwyn gwneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, mae'r Ddeddf yn creu Cod Cyfraith ar dwristiaeth, gan ymgorffori darpariaethau'r Ddeddf ei hun a darpariaethau Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025. Bydd is-ddeddfwriaeth a gaiff ei gwneud maes o law o dan y naill Ddeddf neu'r llall hefyd yn ffurfio rhan o'r Cod.

3.5. Mae'r Ddeddf yn pennu'r gofyniad bod llety a reoleiddir yn 'ffit i fod yn llety ymwelwyr', bod darparwyr yn cael trwydded sy'n dangos hyn i ymwelwyr, a bod llety'n cael ei hysbysebu mewn ffordd sy'n helpu ymwelwyr i ddeall beth sy'n cael ei drwyddedu.

3.6. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi'r amodau y mae'n rhaid i ddarparwyr llety ymwelwyr eu bodloni. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno dogfennau sy'n dangos eu bod yn bodloni gofynion perthnasol a, lle y bo'n briodol, yn cwblhau hyfforddiant sy'n sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel busnesau llety twristiaeth yng Nghymru.

3.7. Bwriad y Ddeddf hon yw cefnogi'r sector llety ymwelwyr ledled Cymru, gan ddiweddaru ein cyfundrefn reoleiddio mewn ffordd sy'n rhoi sicrwydd i ymwelwyr bod llety yn cyrraedd y safonau y byddent yn eu disgwyl ac i ddarparwyr llety bod yr un safonau hynny yn cael eu cyrraedd gan ddarparwyr eraill.

3.8. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r berthynas newidiol rhwng y sector twristiaeth a'r Llywodraeth, yr ydym wedi'i gweld ledled y byd yn ystod y blynyddoedd diwethaf: ceisio hyrwyddo manteision economi ymwelwyr ffyniannus o hyd; cefnogi swyddi ledled Cymru a rhannu a dathlu ein diwylliant, ein hiaith a'n tirweddau; ond gwneud hynny fel rhan o bartneriaeth gynaliadwy gyda chymunedau lleol.

3.9. O ystyried yr amrywiaeth eang o ffyrdd y mae llety ymwelwyr yn cael ei ddarparu ledled Cymru, rydym yn canolbwyntio i ddechrau yn y Ddeddf hon ar y sector hunanddarpar. Mae'r sector hwn wedi ehangu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n cyfrif am y mwyafrif o fusnesau llety yng Nghymru, yn arbennig o ganlyniad i dwf platfformau ar-lein megis Airbnb a Booking.com. Mae'r platfformau hyn wedi galluogi pobl i gynnig eu llety mewn ffyrdd newydd, gan symleiddio'r llwybr at y farchnad a'i hagor i amrywiaeth o ddarparwyr llety newydd, gan gynnwys rhai sy'n gosod eu cartrefi eu hunain o bryd i'w gilydd. Nod y Ddeddf yw sicrhau, sut bynnag y mae unigolyn yn darparu'r math hwn o lety, ei fod yn cyrraedd y safonau y byddem ni ac ymwelwyr yn eu disgwyl, yn yr un ffordd â busnes llety ymwelwyr mwy traddodiadol.

3.10. Mae'r rhan hon o'r sector hefyd yn cynnwys llety a allai fod wedi cael ei ddefnyddio fel cartref rywbryd yn y gorffennol neu a allai gael ei ddefnyddio fel cartref yn y dyfodol. Nod y Ddeddf yw sicrhau bod y trefniadau ar gyfer rheoleiddio'r math hwn o lety ymwelwyr yn cyd-fynd yn agosach â'r trefniadau ar gyfer rheoleiddio'r sector rhentu preifat, gan gynnal a hyrwyddo safon y llety. Bydd hyn hefyd yn helpu i fynd i'r afael â phryderon y gallai ymddangos yn haws i rai perchenogion eiddo weithredu fel llety gosod tymor byr yn hytrach na thenantiaeth hirdymor, a allai erydu'r stoc tai preswyl hirdymor mewn rhai cymunedau.

3.11. Ein bwriad yw y bydd trwyddedu yn gymwys i fathau eraill o lety ymwelwyr yn y dyfodol ac mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i alluogi hyn. Gwneir rhagor o waith i ymgynghori ac asesu'r effaith ar rannau penodol o'r sector llety ymwelwyr yn ddiweddarach os bydd angen wrth i'r cynllun gael ei ehangu.

3.12. Drwy ddatblygu'r Ddeddf hon a Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) a'i rhagflaenodd, bydd y mwyafrif o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Nghymru bellach wedi'i hymgorffori yn Neddfau'r Senedd. Felly, rydym yn manteisio ar y cyfle i lunio Cod Cyfraith Cymru sy'n ymwneud â thwristiaeth. Bydd y Cod, drwy'r Ddeddf hon, yn ymgorffori darpariaethau perthnasol (ar ffurf wedi'i moderneiddio) o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969. O ganlyniad, mae

hefyd yn bosibl diddymu Deddf Twristiaeth (Hybu Tramor) (Cymru) 1992 sydd bellach yn ddiangen.

3.13. Bydd y Ddeddf hon a Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), ynghyd â'r is-ddeddfwriaeth a wnaed oddi tanynt, yn rhan o'r Cod hwnnw. Mae'r statws hwnnw'n arwyddocaol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi pob deddfiad sy'n rhan o'r Cod gyda'i gilydd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall defnyddwyr y ddeddfwriaeth ddod o hyd i'r holl ddeddfwriaeth berthnasol mewn un lle. Yr ail yw bod y Llywodraeth hefyd yn rhagweld, yn amodol wrth gwrs ar gytundeb y Senedd, newid i Reolau Sefydlog y Senedd er mwyn ceisio sicrhau bod newidiadau yn y dyfodol i'r gyfraith sy'n ffurfio rhan o God yn cael eu gwneud drwy ddiwygio neu ddisodli'r deddfiadau yn hytrach na gwneud darpariaethau gwahanol ac "annibynnol" a fyddai'n arwain at doreth gymhleth o gyfreithiau

**Cyd-destun**

3.14. Mae twristiaeth yn chwarae rôl hollbwysig yn economi Cymru. Roedd diwydiannau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn cyfrif am 11.8% o gyflogaeth (159,000 o swyddi) a 5.1% o GVA (£3.8 biliwn) Cymru yn 2022[1].

3.15. Cafwyd mwy na 69 miliwn o ymweliadau â Chymru yn 2023, gan gynrychioli gwariant cyfunol o fwy na £4.95 biliwn yn economi Cymru. Roedd 8.65 miliwn o'r ymweliadau hyn yn arosiadau dros nos, gan gynrychioli gwariant o fwy na £2 biliwn[2].

3.16. Ein huchelgais yw cynyddu twristiaeth er budd Cymru mewn ffordd sy'n cefnogi cymunedau lleol ffyniannus ac sy'n gynaliadwy i'r amgylchedd a phobl Cymru.

3.17. Mae ymweliadau â Chymru, a'u heffeithiau economaidd a chymdeithasol cysylltiedig, wedi'u rhannu rhwng rhanbarthau Cymru. Fodd bynnag, gall maint diwydiannau sy'n ymwneud â thwristiaeth amrywio'n fawr rhwng ardaloedd lleol, gan gyfrif am hyd at 20% o gyflogaeth yn Sir Benfro ac ar Ynys Môn, ond dim ond 7.5% yn Wrecsam yn 2022[3].

3.18. Hyd yn oed ar lefel awdurdod lleol, nid yw'r effeithiau hyn wedi'u dosbarthu'n gyfartal. Mae eiddo sydd wedi'u rhestru ar Airbnb, er enghraifft, wedi'u crynhoi mewn ardaloedd mynyddig ac arfordirol ac mewn rhai awdurdodau lleol mae eiddo rhestredig wedi'u crynhoi mewn nifer bach o ardaloedd[4]. Gall y crynhoad hwn o lety gwyliau mewn cymunedau penodol ddod â manteision, megis y potensial i

[1] Proffil economi ymwelwyr Cymru:2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

[2] Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (teithiau undydd): 2022 i 2023 (diwygiedig) | LLYW.CYMRU; Ystadegau twristiaeth ddomestig Prydain Fawr (tripiau dros nos): 2022 i 2023 (diwygiedig) | LLYW.CYMRU; Ymweliadau a gwariant rhyngwladol gan ymwelwyr â Chymru [HTML] | LLYW.CYMRU

[3] Proffil economi ymwelwyr Cymru: 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

[4] Sefydliad Bevan: Llety gwyliau ar rent a'r sector rhentu preifat

gynhyrchu incwm a chyflogaeth ychwanegol mewn diwydiannau cysylltiedig, yn ogystal ag achosi pryderon megis lleihau nifer y tai sydd ar gael, achosion o darfu sy'n ymwneud â pharcio, a chyfrannu at ysbwriel a llygredd, fel y nodwyd gan astudiaeth o agweddau at drwyddedu llety ymwelwyr yn 2023[5].

3.19. Mae darpariaeth llety ymwelwyr wedi newid yn sylweddol ers i Airbnb ehangu i'r DU yn 2009 ac ers i wefannau eraill megis Booking.com, VRBO ac Expedia ymuno â'r un farchnad. Erbyn mis Mai 2022 roedd 21,718 o eiddo yng Nghymru wedi'u rhestru ar Airbnb yn unig[6] ac yn rhifyn mis Mai o'n Baromedr Twristiaeth[7], roedd 75% o'r darparwyr llety a gyfwelwyd yn hyrwyddo eu llety gan ddefnyddio o leiaf un platfform ar-lein. Nododd 49% o'r darparwyr llety hunanddarpar a gyfwelwyd eu bod yn defnyddio Airbnb. Mae'r rhesymau pam mae pobl yn dewis gosod eiddo gan ddefnyddio'r platfformau hyn yn amrywio'n fawr[8]. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu'r graddau y mae platfformau archebu ar-lein wedi agor y farchnad llety ymwelwyr i amrywiaeth o ddarparwyr newydd, rhai sy'n gweithredu'n fasnachol a rhai sy'n gweithredu'n anffurfiol iawn neu'n achlysurol.

3.20. Nodir y problemau a oedd yn gysylltiedig ag amcangyfrif nifer yr eiddo sydd wedi'u gosod yng Nghymru, tra'n aros i'r gofrestr o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) gael ei chyflwyno, yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod, ond yn arolwg Stoc Welyau Cymru 2022, roedd busnesau llety hunanddarpar (a ddiffinnir ar gyfer yr arolwg fel llety o fath heb wasanaeth gan gynnwys bythynnod, tai, byngalos, fflatiau a chabanau gwyliau) yn cyfrif am 73% o gyfanswm y busnesau llety yng Nghymru[9]. Maent yn cynrychioli nifer llai o gyfanswm y gwelyau, gan fod safleoedd carafanau, safleoedd gwersylla a gwestai, er enghraifft, yn darparu llawer mwy o lety mewn un lleoliad a'u bod yn haws i'w cofnodi mewn arolwg o'r fath.

3.21. Rydym wedi clywed adroddiadau anecdotaidd[10,11,12] bod cydymffurfedd anghyson â safonau rheoleiddio ar draws y sector hunanddarpar yn arbennig. Ymddengys fod hyn yn cael ei ategu gan adborth a gafwyd ar ôl cyflwyno'r cynllun trwyddedu yn yr Alban, a nododd nad oedd cryn nifer o ddarparwyr llety yn gallu darparu tystiolaeth

---

[5] Cynllun trwyddedu statudol ar gyfer darparwyr llety i ymwelwyr: barn defnyddwyr a phreswylwyr | LLYW. CYMRU

[6] Sefydliad Bevan: Llety gwyliau ar rent a'r sector rhentu preifat

[7] Baromedr Twristiaeth: cam Mai 2023 | LLYW.CYMRU

[8] What motivates people to become Airbnb hosts – do we know enough? — an exploration of the literature | Research in Hospitality Management

[9] Crynodeb o Ddata ynghylch Stoc Welyau Cymru: y sefyllfa ym mis Mehefin 2022 | LLYW.CYMRU

[10] Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru | LLYW.CYMRU

[11] Cyngor Gwynedd Rheoli'r defnydd o anheddau fel cartrefi gwyliau

[12] PASC UK guidance notes on responding to Welsh Government statutory licensing consultation

eu bod yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol yn eu cais cychwynnol am drwydded[13].

3.22. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi, os bydd landlord am osod ei eiddo fel eiddo rhent hirdymor, fod yn rhaid iddo gofrestru â Rhentu Doeth Cymru a naill ai cael trwydded neu benodi asiant trwyddedig i reoli'r eiddo ar ei ran. Diben y drwydded hon yw sicrhau bod y landlord neu'r asiant yn "addas a phriodol" (gan gynnwys cydymffurfio â gofynion cyfraith tai) a'i fod wedi cwblhau hyfforddiant ynglŷn â'i rolau a'i gyfrifoldebau. Fel un o amodau ei drwydded, rhaid iddo sicrhau bod y llety yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol a nodir yn y cod ymarfer cyfatebol[14].

3.23. Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) yn cyflwyno gofyniad i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru gael eu cofrestru gydag Awdurdod Cyllid Cymru, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynllun trwyddedu i godi ymwybyddiaeth o safonau sylfaenol a gofynion statudol a helpu darparwyr i gydymffurfio â nhw.

3.24. Gwnaethom gomisiynu adroddiad yn 2023[15] a nododd fod 89% o'r bobl a arolygwyd a oedd yn bwriadu mynd ar deithiau yn y DU o'r farn bod 'gweithredu'n ddiogel' yn bwysig. Roedd 76% o'r un grŵp hefyd o'r farn bod y gallu i godi pryderon neu gwynion am safonau gyda chorff annibynnol yn bwysig.

3.25. Yn nodedig, o'r gwahanol amodau a fesurwyd, 'llety nad yw'n gweithredu'n ddiogel' oedd y prif ffactor a fyddai'n atal pobl rhag archebu llety (59%). Nododd 44% y byddai '[peidio â] darparu'r gallu i godi pryderon gyda chorff annibynnol' yn golygu ei bod yn debygol na fyddent yn archebu llety neu na fyddent yn archebu llety yn bendant.

3.26. Nid oedd 62% o'r bobl a arolygwyd a oedd yn bwriadu mynd ar deithiau yn y DU yn ymwybodol o'r ffaith nad oes unrhyw gynllun ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety gadarnhau eu bod yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch i weithredu a nododd 83% y byddent yn fwy tebygol o archebu llety pe bai cynllun o'r fath ar waith.

3.27. Yn 2020, daeth adroddiad ar ran Cyngor Gwynedd a Chyngor Caerdydd i'r casgliad, o ystyried y gallu cyfyngedig i awdurdodau lleol reoleiddio llety gwyliau tymor byr a diffyg canfyddedig unrhyw gyfundrefn reoleiddio, y dylid cyflwyno cynllun trwyddedu[16]. Adleisiwyd yr argymhelliad hwn gan yr academydd Dr Simon Brooks yn

---

[13] Short-Term Let Licensing Implementation Update Report 2024 - gov.scot

[14] Rhentu Doeth Cymru: cod ymarfer | LLYW.CYMRU

[15] Cynllun trwyddedu statudol ar gyfer darparwyr llety i ymwelwyr: barn defnyddwyr a phreswylwyr | LLYW.CYMRU

[16] Cyngor Gwynedd: Rheoli'r defnydd o anheddau fel cartrefi gwyliau

ei adroddiad[17], a gyhoeddwyd yn 2021, a ystyriodd amrywiaeth o faterion ac a wnaeth argymhellion ynglŷn â llety gwyliau tymor byr.

3.28. Mae pryderon tebyg wedi cael eu codi gyda ni[18]. Nododd adroddiad Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ar lety gosod tymor byr yn Lloegr[19] fod y farchnad wedi'i hystumio ar hyn o bryd gan y graddau y mae darparwyr llety yn deall eu rhwymedigaethau rheoleiddiol ac yn cydymffurfio â nhw.

3.29. Nodwyd yn helaeth[20,21,22] fod newidiadau yn y ffyrdd y mae llety ymwelwyr yn cael ei gynnig hefyd yn arwain at newidiadau mewn rhai cymunedau gyda chrynoadau uchel o lety gwyliau ac ail gartrefi.

3.30. Nid oes unrhyw dystiolaeth bendant ar ba mor gyflym y mae eiddo yn newid o fod yn llety byw hirdymor i'r sector rhentu tymor byr nac i ba raddau y mae hynny'n digwydd, ond nododd dadansoddiad gan Capital Economics yn 2020, ledled Prydain Fawr, fod bron i chwarter y landlordiaid a arolygwyd yn gosod eiddo ar osod tymor byr, tra bod deuddeg y cant o'r rhain wedi gwneud hyn drwy newid defnydd eiddo a oedd cynt ar rent tymor hir; mae bron i 50,000 o eiddo eisoes heb fod ar gael mwyach i denantiaid tymor hir am fod landlordiaid am osod eiddo tymor byr[23]. Er nad yw hyn ond yn cyfateb i tua 1% o'r stoc dai ledled Prydain Fawr, mae'r ffordd y mae llety gosod tymor byr wedi'i grynhoi'n ddaearyddol[24] yn awgrymu y gallai'r effaith fod yn llawer mwy difrifol mewn cymunedau lle y ceir lefelau uchel o lety gosod tymor byr.

3.31. Nododd Capital Economics hefyd fod 10 y cant i o’r landlordiaid a holwyd wedi dweud y byddent yn debygol iawn neu’n eithaf tebygol o gynnig llety gosod tymor byr yn y dyfodol mewn eiddo sy’n cael ei ddefnyddio ar gyfer tenantiaethau hirdymor ar hyn o bryd[25].

3.32. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, roeddent yn argymell y dylai llywodraethau fynd ati i sicrhau bod yr un trefniadau rheoleiddio ar waith ar gyfer llety gosod tymor byr a llety gosod hirdymor.

---

[17] Ail-Gartrefi: Datblygu polisiau newydd yng Nghymru

[18] Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru | LLYW.CYMRU

[19] The growth in short-term lettings in England

[20] Ail gartrefi: beth sy'n digwydd yng Nghymru?

[21] Sefydliad Bevan: Llety gwyliau ar rent a'r sector rhentu preifat

[22] How Airbnb is ruining local communities in north Wales | Airbnb | The Guardian

[23] Capital Economics: The impact of short-term lets

[24] Sefydliad Bevan: Llety gwyliau ar rent a'r sector rhentu preifat

[25] Capital Economics: The impact of short-term lets

3.33. Fel y nodir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol isod, nid oes data manwl gywir ar lety gosod tymor byr yng Nghymru ar gael er mwyn datblygu darlun mwy penodol, ond nododd Sefydliad Bevan, wrth adolygu data gan Inside Airbnb, fod eiddo a oedd wedi'i restru ar Airbnb yr ymddangosai ei fod yn addas i bobl fyw ynddo'n hirdymor yn cyfrif am tua 1% o'r stoc anheddau yng Nghymru. Wrth edrych ar rai ardaloedd arfordirol yng Nghymru, mae'r gyfran yn uwch fyth, sef 3.1% yng Ngheredigion, 3.7% yn Sir Benfro a 4.6% yng Ngwynedd[26]. Fel y trafodwyd uchod, bydd y crynhoad yn uwch fyth mewn cymunedau penodol.

3.34. Daw Sefydliad Bevan i'r casgliad canlynol yn ei adroddiad: *Mewn mannau amlwg ar gyfer 'Airbnb', mae'n ymddangos bod y sector yn cael effaith uniongyrchol ar argaeledd eiddo i'w rhentu ar gyfer tenantiaid isel eu hincwm.* Ac er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl y gall llety gosod tymor byr eu cynnig i gymunedau, mae angen taro cydbwysedd rhwng argaeledd llety i ymwelwyr a llety i bobl sydd am fyw yn eu cymunedau.

**Pam mae angen Deddf?**

3.35. Gan nad oes cyfundrefn drwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr, mae risg sylweddol y bydd y sector llety gosod tymor byr yn parhau i ehangu mewn ffordd sy'n gwaethygu ystumiau'r farchnad a nodwyd eisoes, gyda rhai darparwyr llety – un ai'n ddiarwybod neu'n fwriadol - yn methu â chyrraedd safonau rheoleiddio, sy'n golygu y gallant weithredu ar gost is na darparwyr sy'n deall y gyfundrefn reoleiddio bresennol ac yn buddsoddi mewn cydymffurfio â hi.

3.36. Mae'r diffyg cydymffurfio anecdotaidd hwn a nodwyd hefyd yn peri risg ynddo'i hun. Os bydd yn parhau i gynyddu, un ai'n rhagdybiaethol neu'n wirioneddol, gallai ddechrau tanseilio hyder ymwelwyr mewn llety yng Nghymru, gan niweidio ein diwydiant twristiaeth a'n heconomi. Gallai hyn fod yn arbennig o niweidiol os bydd canfyddiad yn datblygu ei bod yn bosibl nad yw llety yng Nghymru yn cyrraedd safonau allweddol (diogelwch tân er enghraifft) neu nad yw, fel arall, yn addas i'w ddefnyddio fel llety ymwelwyr.

3.37. Felly, mae ymyrryd yn bwysig er mwyn cefnogi'r economi ymwelwyr yng Nghymru a gweithrediad effeithiol ein marchnad llety ymwelwyr.

3.38. Nod y Ddeddf yw sefydlu cynllun rheoleiddio a fydd yn adeiladu ar y gofrestr a gyflwynwyd yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, gan drwyddedu llety hunanddarpar yn y lle cyntaf, er mwyn rhoi hyder i ymwelwyr ynghylch llety yng Nghymru; a chreu sefyllfa decach o fewn y sector llety i ymwelwyr.

[26] Sefydliad BevanSefydliad Bevan: Llety gwyliau ar rent a'r sector rhentu preifat

3.39. Mae risg hefyd y bydd yr effeithiau ar ein cymunedau yn dod yn fwy amlwg. Os caiff y pryderon a godwyd yn adroddiad Capital Economics[27] eu gwireddu, a bod mwy o landlordiaid yn ystyried bod llety gosod tymor byr yn ddarostyngedig i lai o faich rheoleiddiol o gymharu â llety rhent hirdymor, gallai'r pryderon ynglŷn â thai a godwyd gan Sefydliad Bevan[28], Cyngor Gwynedd[29] ac eraill[30] gynyddu, gan greu problemau mwy sylweddol fyth, yn enwedig mewn cymunedau lle ceir llawer o lety gosod tymor byr, a thanseilio cynaliadwyedd twristiaeth yn yr ardaloedd hynny. Dylai hybu safonau yn y math hwn o lety ymwelwyr drwy gynllun trwyddedu helpu i liniaru’r risg hon hefyd.

3.40. Mae’r Ddeddf hon yn adeiladu ar y rhaglen o ddeddfwriaeth y mae'r Llywodraeth hon wedi'i chyflwyno yn ystod tymor y Senedd hon, gan gynnwys o dan y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, er mwyn ailgydbwyso'r berthynas rhwng ail gartrefi a llety gwyliau a'r cymunedau lle maent wedi'u lleoli.

3.41. Rydym wedi cyflwyno dosbarthiadau defnydd cynllunio newydd a hawliau datblygu a ganiateir cyfatebol, sy'n golygu y gall y system gynllunio gydnabod y gwahaniaeth rhwng prif gartrefi, ail gartrefi a llety gwyliau ac y gall awdurdodau cynllunio lleol nodi ardaloedd yr effeithir yn sylweddol arnynt ac ystyried a oes cyfiawnhad dros osod cyfyngiadau.

3.42. Rydym wedi cyflwyno trothwy gosod uwch er mwyn i eiddo preswyl gael ei ystyried yn eiddo annomestig at ddibenion trethi lleol. Mae hyn yn golygu y gall busnesau hunanddarpar proffesiynol sy'n cyrraedd y trothwy barhau i dalu trethi annomestig, ond mae'n sicrhau bod busnesau sy'n gwneud llai o gyfraniad at eu heconomi leol yn gwneud cyfraniad teg drwy system y dreth gyngor. Yn dilyn ymgynghori, rydym wedi cadarnhau rhai newidiadau i’r modd y cymhwysir y meini prawf gosod[31].

3.43. Rydym hefyd wedi cyflwyno pwerau trethu newydd i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu cyflwyno ardoll ymwelwyr i'w hailfuddsoddi mewn datblygu twristiaeth a chefnogi economi ymwelwyr gref a chynaliadwy yn eu hardal. Gallant hefyd ddewis gosod premiymau treth gyngor uwch ar ail gartrefi a chartrefi gwag er mwyn helpu i fynd i'r afael â’r effeithiau negyddol y gall y mathau hyn o eiddo eu cael.

[27] Capital Economics: The impact of short-term lets

[28] Sefydliad Bevan: Llety gwyliau ar rent a'r sector rhentu preifat

[29] Cyngor Gwynedd: Rheoli'r defnydd o anheddau fel cartrefi gwyliau

[30] Huge growth and ethical concerns make Airbnb users think again | Money | The Guardian

[31] Datganiad Ysgrifenedig: Ymgynghoriad ar gynigion i fireinio dosbarthiad eiddo hunanddarpar at ddibenion trethi lleol – crynodeb o'r ymatebion (21 Ionawr 2026) | LLYW.CYMRU

### Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael

3.44. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r effeithiau allweddol y bwriedir i'r Ddeddf eu cael. I gael esboniad manylach o'r darpariaethau a geir yn y Ddeddf, gweler y Nodyn Esboniadol yn Atodiad 1.

3.45. Fel y nodwyd uchod, rydym yn dechrau drwy reoleiddio llety hunanddarpar, sydd wedi ehangu'n sylweddol drwy blatfformau archebu ar-lein yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a hynny i'r graddau ei fod bellach yn cynnwys y rhan fwyaf o fusnesau llety ymwelwyr yng Nghymru. Nod y Ddeddf yw cynnwys llety mewn tai a fflatiau cyfan, ac mewn unrhyw lety hunangynhwysol arall megis cabanau gwyliau â'r mathau o gyfleusterau ar gyfer ymolchi, coginio a chysgu sy'n adlewyrchu dosbarthiad Croeso Cymru o lety hunanddarpar a llety tebyg arall. Cyfeirir at hyn yn y Ddeddf fel llety ymwelwyr rheoleiddiedig.

3.46. Mae rhai eithriadau rhag y diffiniad hwn, sy'n adlewyrchu ffyrdd gwahanol y darperir llety. Mae'r rhain yn cynnwys ystafelloedd sbar a osodir yn eiddo rhywun, ystafelloedd â chyfleusterau hunanddarpar mewn gwesty, hosteli a thai bynciau a charafannau ar safleoedd a gwmpesir gan y cynllun trwyddedu safleoedd presennol. Ym mhob un o'r achosion hyn, cyn iddo gael ei gyflwyno i mewn i'r cynllun rheoleiddio, byddai angen rhoi ystyriaeth benodol i'r llety a'r ffordd y'i darperir er mwyn gwneud yn siŵr bod yr amodau cywir yn cael eu cymhwyso, sy'n gymesur i'r darparwyr llety ac yn ddigonol i roi'r lefel o sicrwydd y mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio ei darparu ar gyfer llety ymwelwyr rheoleiddiedig.

3.47. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys y pŵer i ymestyn y diffiniad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig. Bwriedir i hyn ei gwneud yn bosibl i fathau eraill o lety gael eu cyflwyno i mewn i'r cynllun rheoleiddio hwn yn y dyfodol, unwaith y bydd ystyriaeth wedi'i rhoi i set briodol o amodau trwydded.

3.48. Yna, mae'r Ddeddf yn creu'r cysyniad o 'ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr'. Bwriedir i hyn gwmpasu set sylfaenol o safonau y dylai llety fod yn eu cyrraedd, yn ogystal ag adlewyrchu'r cysyniad o 'ffitrwydd i bobl fyw ynddo' o gyfraith tai. Bydd ffitrwydd, wrth reswm, yn golygu rhywbeth gwahanol, er enghraifft, yn achos 'bothy' oddi ar y grid o gymharu â bwthyn hunanddarpar.

3.49. Gan adleisio cyfnod safonol cyfatebol contractau meddiannaeth a gyflwynwyd yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae'r Ddeddf yn nodi bod gan bob ymwelydd â llety ymwelwyr rheoleiddiedig yng Nghymru hawl gontractiol i ddisgwyl i'w lety ymwelwyr fod yn ffit i'w ddefnyddio fel llety o'r fath.

3.50. Mae hon yn safon rydym yn disgwyl i lety ymwelwyr yng Nghymru fod yn ei chyrraedd eisoes ac, os bydd darparwr wedi camliwio ei lety, mae gan ymwelwyr eisoes rai amddiffyniadau nad ydym am eu newid nac effeithio arnynt[32]. Fodd

---

[32] False Advertising Laws & Legislation UK | VisitBritain.org

bynnag, mae hyn yn nodi egwyddor bwysig at ddibenion twristiaeth, sef y dylai ymwelwyr â Chymru ddisgwyl i'r llety ymwelwyr fod yn ffit iddynt aros ynddo.

3.51. Mae'r cynllun trwyddedu a gynigir yn y Ddeddf yn ymhelaethu ar y cysyniad hwn. Mae'n nodi gofyniad y bydd angen i ddarparwyr llety rheoleiddiedig wneud cais am drwydded gan ddangos, ar adeg cyflwyno'r cais, eu bod yn bodloni set o amodau y gellir eu dogfennu sy'n ymwneud â'i ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: bod tystysgrifau nwy, adroddiadau ar gyflwr trydanol, yswiriant a larymau carbon monocsid ar waith a bod asesiad risg diogelwch tân wedi'i gynnal a bod rhagofalon tân cyffredinol wedi'u nodi a'u cofnodi. Y sefyllfa ddiofyn yw bod trwyddedau angen cael eu hadnewyddu bob blwyddyn.

3.52. I ddarparwyr llety sydd eisoes yn cydymffurfio â'r gofynion o ran nwy, trydan a diogelwch tân, dylai'r rhain fod yn syml – bwriedir i'r broses fod yn gymharol ysgafn ei chyffyrddiad i ddarparwyr sy'n gwneud y pethau iawn, ond yn ddigon cadarn fel bod angen, er enghraifft, i ddarparwr nad oedd wedi sylweddoli y dylai fod wedi bodloni'r gofynion hyn, ddangos ei fod bellach wedi gwneud hynny.

3.53. Er mwyn cefnogi hyn, ac yn unol â'r pryderon a godwyd ynghylch y graddau y mae darparwyr yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt o ran rheoleiddio pan fyddant yn cynnig llety ymwelwyr, mae'r Ddeddf hefyd yn darparu hyfforddiant, i ddangos bod darparwyr llety yng Nghymru yn deall yr hyn sy'n ofynnol. Nodir y gofyniad hwn mewn rheoliadau, hynny er mwyn iddo allu datblygu dros amser ac er mwyn i ninnau allu gweithio gyda'r diwydiant a sicrhau bod yr hyfforddiant yn ychwanegu gwerth i ddarparwyr.

3.54. Lle ceir pryderon am gais, ac nad oes modd i Weinidogion Cymru ddweud a fydd y llety'n debygol o fod yn ffit, yna gallent hysbysu'r ymgeisydd bod angen cynnal asesiad arall, gan gynnwys trefnu archwiliad os oes angen.

3.55. Yna, mae'n un o amodau trwydded bod yn rhaid i lety rheoleiddiedig fod yn ffit i fod yn llety ymwelwyr unrhyw bryd y bydd rhywun yn aros ynddo dros nos (gan gynnwys unrhyw gyfnod pan fydd gan un neu fwy o ymwelwyr yr hawl i aros ond nad ydynt yn mynd i mewn i'r eiddo)

3.56. Mae amodau trwydded hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu i ymwelwyr, fel eu bod yn deall beth yw ystyr trwyddedu, sut i ddefnyddio'r gofrestr a'r hyn y gallant ei wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch y llety y maent yn aros ynddo.

3.57. Nid yw amodau trwydded yn ymdrin â holl rwymedigaethau cyfreithiol darparwr llety ymwelwyr rheoleiddiedig. Er enghraifft, mae Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012[33] yn dweud bod y gwastraff a gynhyrchir lle defnyddir eiddo domestig fel rhan o fasnach neu fusnes ar gyfer darparu llety hunanddarpar yn cael ei drin fel gwastraff masnachol, felly mae'r rhwymedigaethau cyfatebol a chyfundrefnau gorfodi

---

[33] The Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012

yn gymwys mewn perthynas â thrin, casglu a gwaredu gwastraff masnachol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys pŵer i nodi rhagor o amodau i'r drwydded fel y gellid estyn y cynllun yn y dyfodol i gwmpasu rhwymedigaethau eraill darparwyr llety ymwelwyr rheoleiddiedig, gyda chytundeb y Senedd.

3.58. Mae'r Ddeddf yn rhoi swyddogaethau trwyddedu i Weinidogion Cymru ond mae pwerau ehangach eisoes yn bodoli i wneud trefniadau asiantaeth fel y gall pobl eraill gyflawni swyddogaethau ar eu rhan. Bwriedir i'r system gyd-fynd â chofrestru. Mae cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu o hyd, ac mae'r Ddeddf yn caniatáu ar gyfer hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweithio gydag ACC i gefnogi'r gwaith o brosesu ceisiadau drwy'r un platfform ar-lein â chofrestru er mwyn creu un pwynt mynediad i ddarparwyr llety. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r fath gamau gorfodi ag a fyddai eisoes yn cael eu cymryd gan eu timau gorfodi iechyd yr amgylchedd a thai ar sail debyg i Rhentu Doeth Cymru.

3.59. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ac ACC gyda'i gilydd gyhoeddi un cyfeiriadur o wybodaeth am lety ymwelwyr yng Nghymru.

3.60. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i holl ddarparwyr llety ymwelwyr, waeth pa fath o lety a ddarperir, neu unrhyw un sy'n ei hysbysebu ar eu rhan, i gymryd pob cam rhesymol i gynnwys rhif cofrestru safle dilys yn eu holl ddeunydd hysbysebu. Mae hwn yn fecanwaith allweddol i'r cynllun hyrwyddo llety ymwelwyr yng Nghymru.

3.61. Dylai nodi'n glir mewn deunydd hysbysebu fod llety yn rhan o'r system gofrestru a thrwyddedu a darparu rhif cofrestru y gellir ei ddefnyddio i wirio gwybodaeth trwydded ar gyfer y llety ar y cyfeiriadur cyhoeddedig, roi sicrwydd i ymwelwyr fod llety yn cyrraedd y safonau a ddisgwylir ganddynt a'i fod yn gweithredu'n gyfreithlon. Bydd hyn hefyd yn cefnogi'r gwaith o orfodi gofynion cofrestru a thrwyddedu, gan nodi'n glir lle nad yw darparwyr llety wedi cyflawni eu rhwymedigaethau i gofrestru a, lle y bo'n berthnasol, gael trwydded.

3.62. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth weithdrefnol ynghylch penderfyniadau mewn perthynas â thrwyddedau a gorfodi. Bwriedir i hyn helpu i sicrhau tryloywder a thegwch mewn prosesau gwneud penderfyniadau, gan sicrhau, ar yr un pryd, fod y gyfundrefn yn ddigon cadarn i hyrwyddo llety yng Nghymru yn effeithiol a bod darparwyr llety yn cyrraedd y safonau angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys, os bydd yr awdurdod trwyddedu o'r farn bod amodau trwydded wedi'u torri, sicrhau bod cyfle i ddarparwyr llety wneud sylwadau neu gymryd camau unioni er mwyn iddynt allu cadw eu trwydded, a hawliau i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol. Mae'n cynnwys hefyd bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth fel bod gweithdrefnau'n gallu addasu yn y dyfodol i roi ystyriaeth i fathau newydd o lety rheoleiddiedig a sicrhau bod prosesau'n parhau'n effeithiol ac yn effeithlon.

3.63. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer archwiliadau fel y gellir dod i ddatrysiad teg o dan amgylchiadau lle mae pryderon difrifol ynghylch ffitrwydd llety ymwelwyr na ellir eu datrys heb i berson awdurdodedig archwilio'r safle yn uniongyrchol. Bydd hyn yn

bosibl ar adeg cyflwyno cais am drwydded, os oes rheswm dros gredu nad yw'r llety yn ffit, neu os bydd problemau yn codi tra bod trwydded mewn grym.

3.64. Os caiff troseddau eu cyflawni, mae'r Ddeddf yn creu pwerau i hysbysiadau cosb gael eu cyflwyno yn lle erlyn. Ein bwriad yw y byddai camau gorfodi yn cael eu cymryd ar y sail y byddai gweithredwyr yn cael eu haddysgu a'u hannog i gydymffurfio yn y lle cyntaf. Bwriedir i'r system fod yn un hawdd i ddarparwyr ymgysylltu â hi ac, yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn disgwyl i ddarparwyr gael eu cymell i wneud hynny yn hytrach na wynebu camau gorfodi. Bydd hysbysiadau cosb yn helpu i ategu hyn. Os na fydd hyn yn ddigonol, bydd y posibilrwydd o erlyn ar gael er mwyn sicrhau na chaiff y cynllun rheoleiddio ei danseilio, ond dim ond mewn nifer bach iawn o achosion rydym yn disgwyl y bydd angen gwneud hynny.

3.65. Er mwyn y gyfraith sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Nghymru yn fwy hygyrch, mae'r Ddeddf yn creu Cod Cyfraith Cymru. Felly, mae'r Ddeddf yn ailddatgan, mewn ffordd gliriach, y pwerau a geir yn Neddf Datblygu Twristiaeth 1969 ac yn diwygio'r Ddeddf honno er mwyn adlewyrchu'r ffaith eu bod wedi'u dileu. Mae'r pwerau hyn yn nodi rôl Gweinidogion Cymru o ran hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried pwysigrwydd lliniaru effaith gymdeithasol ac amgylcheddol ymwelwyr, a chynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg wrth arfer y swyddogaethau hynny. Mae'r rhain eisoes yn ffactorau y byddai disgwyl inni eu hystyried o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fodd bynnag, mae eu nodi'n benodol yma yn adleisio'r swyddogaethau rheoli cyrchfannau tebyg y cyfeirir atynt yn y Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), gan gefnogi'r disgwyliad y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a, lle y bo'n berthnasol, fforymau partneriaethau ardoll gydweithio i hyrwyddo twristiaeth ledled Cymru.

# 4. Ymgynghori

**Rhesymau dros beidio ag ymgynghori ar Fil drafft**

4.1. Ni chafwyd ymgynghoriad ffurfiol ar Fil drafft. Yn lle hynny, ymgynghorwyd ar y polisi sydd wrth wraidd y Ddeddf, fel y disgrifir isod. Lle y bu newidiadau ers cynigion yr ymgynghoriad gwreiddiol, mae'r rhain yn adlewyrchu datblygiad mewn syniadaeth ac ymateb i farn rhanddeiliaid, yn hytrach na gwyriad oddi wrth fwriad gwreiddiol y polisi.

4.2. O ystyried y gwaith ymgysylltu a wnaed, nifer yr ymatebion a gafwyd a'r gweithgarwch ymgysylltu dilynol, nid ystyriwyd bod angen ymgynghori ar Fil drafft.

**Ymgynghoriad cychwynnol**

4.3. Ymgymerwyd â gwaith archwilio ar gyfer y cynllun gan Strategic Research and Insight Ltd yn 2021. Daeth yr ymgynghoriad hwn i'r casgliad bod angen cynllun a bod rhanddeiliaid yn gryf o blaid sefydlu cynllun statudol am y prif resymau canlynol:

- Ystyriwyd bod risg i ddiogelwch twristiaid sy'n aros dros nos. Ystyriwyd y gall unrhyw un osod safle heb gydymffurfio â safonau diogelwch;
- Mae gweithredwyr sy'n dewis peidio â gwario'n briodol ar fesurau diogelwch yn cystadlu'n annheg â'r rhai sy'n gwneud hynny;
- Byddai'r cynllun yn creu llwyfan cynhwysfawr ar gyfer polisïau a chyfathrebu am fod rhyngweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn fwy anodd pan nad ydych yn gwybod pwy sydd yn y sector.

4.4. Er na ddaeth gwaith yr ymgynghorwyr i gasgliadau terfynol ynglŷn â ffurf cynllun a'r hyn y dylai ei gynnwys, nododd y gwaith ymchwil a wnaed gan Strategic Research and Insight sawl opsiwn, barn rhanddeiliaid ac asesiad o'r opsiynau hynny. Cyfeiriodd hyn oll at argymhelliad ar gyfer ffordd ymlaen a ddatblygwyd ymhellach gan y tîm polisi ac a brofwyd mewn gwaith ymgynghori pellach:

- **Cofrestru 'a mwy'** – Cynllun cofrestru sy'n ddigon cadarn i sicrhau chwarae teg o ran safonau diogelwch ond sy'n ddigon syml a fforddiadwy i sicrhau bod cyn lleied o weithredwyr â phosibl yn cael eu colli o'r sector.
- **Gweithrediad cenedlaethol** – Y gofrestr i'w gweithredu'n genedlaethol drwy wefan gofrestru genedlaethol gyda data yn cael eu mewnbynnu ar-lein.
- **Pob darparwr llety** – Bydd yn ofynnol i bob gweithredwr sy'n darparu llety gwyliau ar sail fasnachol, waeth beth fo maint ac amlder y gweithrediad, gofrestru.

- **Yr wybodaeth a gesglir-** Byddai'r gofrestr yn casglu gwybodaeth am y canlynol: enw'r perchennog, enw, cyfeiriad a chod post y lleoliad, yr ardal awdurdod lleol, y math o lety gwyliau (gwesty, llety gwely a brecwast, hunanddarpar ac ati), maint/unedau, y radd neu'r achrediad presennol.
- **Tryloywder** – Byddai'r wybodaeth a fyddai'n cael ei chasglu ar y gofrestr ar gael i awdurdodau allweddol (e.e. awdurdodau lleol, yr heddlu, gwasanaeth tân ac ati) ond ni fyddai'n cael ei chyhoeddi.
- **Hunanardystio** – Byddai'n ofynnol i ddarparwyr llety hunanardystio eu bod yn cyrraedd safonau gofynnol (ynglŷn â diogelwch tân, diogelwch nwy, yswiriant dilys ac ati).
- **Archwilio neu ddilysu** – Ni chynigiwyd y byddai archwiliadau rhagweithiol yn cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol, er y byddai'n bosibl gwneud gwaith dilynol ymatebol ar unrhyw bryderon neu gwynion.
- **Cosbau** – Dylai fod cosbau (y math a'r lefel i'w pennu) ar gyfer gweithredwyr y ceir nad ydynt wedi cofrestru neu y profir eu bod wedi cofrestru gwybodaeth anwir, neu sydd wedi methu â chynnal gofynion cofrestru
- **Ffi** - Byddai angen talu ffi flynyddol a byddai'n ofynnol i drwyddedeion gadarnhau bod yr wybodaeth a ddelir ar y gofrestr wedi'i diweddaru a'i bod yn gywir bob blwyddyn.

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:**

4.5. Cynhaliwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru: crynodeb atodol o'r ymatebion) rhwng 16 Rhagfyr 2022 ac 17 Mawrth 2023. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 64 o gwestiynau. Cafwyd cyfanswm o 1,595 o ymatebion i'r ymgynghoriad, yr oedd 1,133 ohonynt yn ymatebion cyflawn ac 462 yn ymatebion rhannol. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys awdurdodau lleol, darparwyr llety ymwelwyr, cyrff cynrychioliadol o'r sector twristiaeth a thrigolion Cymru.

4.6. Roedd cwestiynau'r ymgynghoriad yn ymwneud â'r meysydd pwnc canlynol:

- Nodau a manteision arfaethedig cynllun trwyddedu statudol;
- Gweithredu cenedlaethol neu leol;
- Mathau o lety sydd o fewn y cwmpas;
- Cyfnod gweithredu;
- Trwydded gyfyngedig ar gyfer digwyddiadau untro neu flynyddol;
- Gofynion y cynllun;

- Cydymffurfio a gorfodi;
- Prawf Person Cymwys a Phriodol;
- Ffioedd trwydded;
- Amlder ceisiadau;
- Tryloywder a mynediad at wybodaeth;
- Arddangos rhifau trwyddedau.

4.7. Y themâu cyffredinol mwyaf cyffredin a gododd o'r ymatebion yn yr ymgynghoriad hwn oedd:

- Y farn y byddai'r Cynllun trwyddedu statudol arfaethedig yn creu baich gweinyddol ac ariannol sylweddol;
- Yr awgrym bod y farchnad llety ymwelwyr yn gystadleuol iawn ac, felly, ei bod eisoes yn gweithredu'n effeithlon;
- Anghytundeb cyffredinol ag unrhyw fath o drwyddedu statudol, heb gynnig unrhyw esboniadau pellach ar y farn hon.

4.8. Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n gyson rhwng grwpiau demograffig. Roedd sefydliadau twristiaeth ac awdurdodau lleol mawr yn fwy tebygol o gytuno â'r cynigion tra mai darparwyr llety a thrigolion oedd yn anghytuno â nhw amlaf.

4.9. Cyhoeddwyd y crynodeb llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2023[34].

**Ymgynghoriad atodol Llywodraeth Cymru**

4.10. Yn dilyn yr ymgynghoriad 13 wythnos cychwynnol, gwnaethom nodi bod angen ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid allweddol o'r diwydiant twristiaeth ar feysydd datblygu polisi penodol.

4.11. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd tri digwyddiad ymgynghori wyneb yn wyneb yng ngogledd, canolbarth a de Cymru rhwng 22 a 26 Mai 2023. Anfonwyd gwahoddiad at 300 o randdeiliaid twristiaeth allweddol, a oedd yn cynrychioli cymdeithasau a fforymau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn ogystal â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol, asiantaethau teithio ar-lein ac asiantaethau hunanddarpar.

4.12. Derbyniodd 58 o randdeiliaid allweddol y gwahoddiad a mynd i'r digwyddiadau. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau yn cynrychioli nifer sylweddol o fusnesau twristiaeth yng Nghymru, gyda chynrychiolaeth drawstoriadol o sectorau yn y diwydiant twristiaeth ledled Cymru.

[34] Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru | LLYW.CYMRU

4.13. Ym mhob un o'r tri digwyddiad roedd cysondeb o ran croesawu'r cynllun yn ogystal â gwrthwynebiad llafar cryf i'r cysyniad o drwyddedu ac roedd yn amlwg bod y rhanddeiliaid yn ffafrio system gofrestru. Y rheswm dros hyn oedd bod trwyddedu yn cael ei ystyried yn ffordd o roi caniatâd i weithredu yn hytrach na llunio cofrestr wirfoddol o weithredwyr. Fodd bynnag, roedd y syniad o gael trwydded neu rif cofrestru i ddangos cydymffurfedd wedi cael ei groesawu, yn ogystal â'i ystyried yn ffordd o sicrhau cyfranogiad.

### Arolwg Llywodraeth Cymru

4.14. Gwnaethom gynnal arolwg a oedd yn canolbwyntio ar farn ymwelwyr a thrigolion. Cynhaliwyd yr astudiaeth rhwng 1 Medi a 7 Medi 2023. Cwblhaodd 2,557 o ymatebwyr yr arolwg ac roedd 1,022 ohonynt yn byw yng Nghymru[35].

4.15. Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch yn amlwg yn bwysig i bobl oedd yn mynd ar dripiau domestig neu'n bwriadu gwneud hynny (yn bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn ystod y 12 mis nesaf) wrth archebu llety. Ystyriwyd mai 'llety nad yw'n gweithredu'n ddiogel' oedd y prif ffactor a fyddai'n atal bwriadwyr rhag archebu llety, gyda 59% yn dweud y byddent yn ôl pob tebyg/yn bendant ddim yn archebu, o flaen 'ddim yn cynnig gwerth da am arian' (56%). Dywedodd mwyafrif (83%) o fwriadwyr teithiau domestig y byddent yn 'fwy tebygol' o archebu llety pe bai gofyniad cyfreithiol i gadarnhau cydymffurfedd ag iechyd a diogelwch; dywedodd mwyafrif ychydig yn fwy (85%) y byddent yn 'fwy hyderus' yn eu diogelwch personol pe bai'r gofyniad cyfreithiol hwn yn bodoli.

4.16. Nid oedd y rhan fwyaf o drigolion Cymru a arolygwyd (71%) yn ymwybodol o'r ffaith nad oes unrhyw gynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch i weithredu ar hyn o bryd. Pan ofynnwyd pa effaith fyddai cynllun o'r fath yn ei chael ar eu hardal leol, roedd yr ymateb yn gadarnhaol ar y cyfan; roedd bron i 7 o bob 10 (68%) yn credu y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar 'iechyd a diogelwch', gan gredu y byddai cynllun o'r fath yn codi safonau ac yn sicrhau cydymffurfedd. Credai tua 2 o bob 3 (65%) y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar 'yr economi leol', sy'n seiliedig, o bosibl, ar ymdeimlad y byddai safonau gwell hefyd yn annog mwy o dwristiaeth.

### Ymgynghoriad y Senedd ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru)

4.17. Yn ogystal ag ymgynghori ar bolisi ynglŷn â thrwyddedu llety ymwelwyr, rhoesom sylw manwl i ymatebion i ymgynghoriad Senedd Cymru ar y Bil Llety Ymwelwyr

---

[35] Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr: barn defnyddwyr a phreswylwyr | LLYW.CYMRU

(Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru)[36]. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 29 Tachwedd 2024 a 10 Ionawr 2025.

4.18. Cafwyd 150 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid amrywiol, gan gynnwys unigolion, darparwyr llety ymwelwyr, grwpiau cynrychioliadol o'r diwydiant, sefydliadau nid er elw ac awdurdodau lleol.

4.19. Er i'r ymgynghoriad ganolbwyntio ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestru ac Ardoll) Etc. (Cymru), roedd rhai sylwadau a gafwyd gan randdeiliaid yn berthnasol i ddatblygu cynllun trwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr. Roedd safbwyntiau allweddol o'r ymgynghoriad a oedd yn berthnasol i ddatblygu'r cynllun trwyddedu yn cynnwys y canlynol:

- Un farn a leisiwyd gan gryn nifer o ymatebwyr oedd y byddai croeso i gynllun ar gyfer cadarnhau cydymffurfedd â safonau gofynnol. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ddryswch rhwng cofrestru a thrwyddedu, gyda PASC UK, er enghraifft, yn gresynu at y ffaith nad oes unrhyw gyfle yn y cynllun cofrestru i ddarparwyr llety ymwelwyr ddangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch;
- Nid oedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn ystyried bod cynllun trwyddedu yn angenrheidiol nac yn ddymunol pe gallai cynllun cofrestru gasglu gwybodaeth am ddiogelwch;
- Nodwyd bod angen eglurder mewn diffiniadau a ddefnyddir yn y Bil, yn enwedig y termau ‘busnes’, ‘meddiannydd’, ac ‘yn cynnig darparu’ ac, yn yr un modd, eglurder ynglŷn â'r hyn sydd angen ei drwyddedu;
- Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Airbnb, y dylid rhoi'r gofrestr ar waith cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud o ran cyflwyno cynllun trwyddedu.
- Rhaid i unrhyw gynllun fod mor syml â phosibl i ddarparwyr llety er mwyn cyfyngu ar y baich gweinyddol. Lleisiwyd y farn hon yn benodol gan sefydliadau nid er elw sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr;
- Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai costau ychwanegol i'r diwydiant gael effaith andwyol ar dwf y diwydiant;
- Roedd cost ffioedd trwydded hefyd yn destun pryder;

[36] [Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)]

- Yr angen am drefniadau gorfodi effeithiol er mwyn atal busnesau rhag cystadlu'n annheg â busnesau dilys drwy weithredu yn y dirgel;
- Yr angen am ganllawiau clir a hyfforddiant ar ofynion newydd.

4.20. Gofynnodd sawl ymatebydd am i sylw gael ei roi i effaith gronnol polisi Llywodraeth a digwyddiadau byd-eang wrth ystyried ymyriadau pellach. Rhestrodd Cynghrair Twristiaeth Cymru y canlynol fel rhai sydd wedi cael effaith ar y diwydiant twristiaeth dros y pum mlynedd diwethaf:

a) *2020: Pandemig byd-eang y coronafeirws sydd wedi dylanwadu'n sylweddol ar batrymau o ran teithio domestig a rhyngwladol ac sy'n parhau i ddylanwadu arnynt. O'r herwydd, y tueddiadau a welir yng Nghymru yw gwyliau munud olaf am gyfnodau byrrach ac am brisiau is, sy'n fwy costus o ran hyrwyddo ac amserlenni glanhau/golchi (llety). Mae Cymru'n wynebu ymgyrchoedd marchnata llawer mwy pwerus sy'n hyrwyddo gwyliau tramor. Yn ogystal mae gan Croeso Cymru gyllideb gryn dipyn yn llai ar gyfer buddsoddi o'i gymharu â chyrff cyfatebol o fewn y DU o ran cystadlu am deithwyr domestig o fewn yr amgylchedd newydd hwn.*

b) *2022: Y rhyfel yn Wcráin sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn costau ynni ac felly gost cynnig llety gwyliau yng Nghymru.*

c) *2023: Cyflwyno'r "rheol 182 diwrnod" lle y mae'n rhaid i "lety gwyliau" sicrhau ei fod wedi'i feddiannu am o leiaf 182 o ddyddiau y flwyddyn neu bydd gofyn iddo dalu'r dreth gyngor yn lle ardrethi i fusnesau bach.*

d) *2023: Cyflwyno premiwm y dreth gyngor o hyd at 300% ar "ail gartrefi" sy'n berthnasol i'r busnesau hynny na allant osod eiddo am o leiaf 182 o ddyddiau.*

e) *2024: Yr argyfwng costau byw sydd wedi effeithio ar batrymau gwario pobl.*

f) *2020-2025: Y cynnydd o 40% yn y cyflog byw cenedlaethol, sydd wedi cynyddu o £8.82 ym mis Ebrill 2020 i £12.21 ym mis Ebrill 2025. Mae hyn yn effeithio ar bobl sy'n ennill cyflogau isel a hefyd fusnesau gan eu bod yn cael eu gorfodi i gyflwyno cynnydd graddol ar gyfer pob band cyflog arall.*

g) *Bydd y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol o fis Ebrill 2025 yn cael effaith bellach ar y farchnad, a hynny yn dilyn cyfnod heriol o gyfraddau llog uchel. Mae tystiolaeth glir eisoes ar gael sy'n dangos bod y newidiadau hyn wedi cael effaith negyddol ar y farchnad ac ar*

*gyflogaeth, ac nad yw'r newidiadau o ran deddfwriaeth yn cyflawni'r effeithiau polisi bwriedig (ee cynyddu tai fforddiadwy lle y bo angen) ond mae'r dystiolaeth hon yn cael ei hanwybyddu.*

*h) Nid yw Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar y cyfle i adolygu effaith y polisïau presennol sy'n effeithio ar dwristiaeth, ac yn enwedig y rheol 182 diwrnod a newidiadau i ardrethi busnes/y dreth gyngor, er gwaethaf y ffaith ei bod wedi derbyn tystiolaeth ynghylch niwed i ddarparwyr twristiaeth a busnesau eilaidd heb unrhyw fanteision cysylltiedig.*

**Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid**

4.21. Mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr y sector, lle mae barn aelodau wedi bod yn ddefnyddiol i ffurfio'r polisi sydd wrth wraidd y Ddeddf. Er enghraifft, mae diweddariadau wedi'u rhoi yn y Fforwm Economi Ymwelwyr a'r Fforymau Twristiaeth Rhanbarthol lle y daw rhanddeiliaid allweddol o'r diwydiant twristiaeth ynghyd. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda grwpiau sy'n cynrychioli rhanddeiliaid (ee PASC) a sefydliadau eraill fel Airbnb ac Expedia.

4.22. Rydym hefyd wedi ymgysylltu ymhellach â thrigolion a chymunedau er mwyn deall eu safbwyntiau.

4.23. Rydym yn sicrhau bod unrhyw ddiweddariadau ar gael i'r sector drwy e-gylchlythyrau Croeso Cymru a'r cyfryngau cymdeithasol.

**Ymgysylltu a gwersi gan Lywodraethau eraill**

4.24. Gwnaed ymchwil ddesg er mwyn nodi pa rannau o'r DU ac Ewrop sydd â systemau cofrestru a thrwyddedu tebyg ar waith. Mae gan wledydd gwahanol resymau gwahanol dros roi systemau o'r fath ar waith, sy'n golygu eu bod yn anodd eu cymharu.

4.25. Rydym yn cysylltu'n rheolaidd â chymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth ein gilydd ac yn rhannu arferion da. Er enghraifft, rydym wedi bod yn dilyn y broses o gyflwyno'r cynllun trwyddedu llety gosod tymor byr yn yr Alban a'r broses o ddatblygu cynllun cofrestru statudol yn Lloegr yn ofalus.

**Pa benderfyniadau polisi sydd wedi'u gwneud, yn seiliedig ar ymatebion i'r ymgynghoriad a'r arolwg?**

4.26. Mae ein gweithgarwch ymgysylltu â phartneriaid wedi tynnu sylw at amrywiaeth o safbwyntiau ar drwyddedu llety ymwelwyr. Er bod rhai yn gwrthwynebu cyflwyno

cynllun yn llwyr, pwysleisiodd y rhai a oedd yn deall bod angen cynllun i gadarnhau cydymffurfedd â safonau rheoleiddiol o hyd bwysigrwydd sicrhau bod y cynllun hwnnw mor syml â phosibl i ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n gwneud y pethau cywir.

4.27. Rydym wedi cadw hyn mewn cof drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynllun trwyddedu a gynigir yn y Ddeddf, er mwyn sicrhau ei fod mor syml â phosibl i ddarparwyr ac, ar yr un pryd, yn ddigon cadarn i gyflawni ei amcanion a rhoi sicrwydd i'r darparwyr llety sy'n gwneud y pethau cywir fod eraill yn cyrraedd y safonau gofynnol.

4.28. Rydym hefyd wedi ystyried adborth o'r ymgynghoriad ynghylch a ddylai'r cynllun fod yn un cenedlaethol neu leol. Roedd llawer o ymatebwyr o blaid cynllun cenedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru ac mae hyn wedi'i adleisio mewn sgyrsiau dilynol â rhanddeiliaid yn y diwydiant.

4.29. Rydym yn deall y byddai'n well gan lawer o ddarparwyr llety ymwelwyr beidio â chael cynllun trwyddedu. Yn arbennig yng nghyd-destun trafodaethau ynghylch y cynllun trwyddedu a gyflwynwyd yn yr Alban a oedd yn cael eu cynnal ar yr un pryd â'n hymgynghoriad ni, rydym yn cydnabod bod y syniad o drwyddedu yn dwyn cyfundrefn fiwrocrataidd iawn i gof llawer o ddarparwyr llety.

4.30. Credwn fod y cynllun fel y'i cynigir yn y Ddeddf yn cydbwyso'r pryderon hyn â'r materion a nodwyd uchod ym Mhennod 3, er mwyn darparu cynllun a fydd yn cefnogi twristiaeth, gan gynnwys cynllun trwyddedu a darpariaethau contract cysylltiedig na fyddant yn rhy feichus, ond a fydd yn cefnogi marchnad llety ymwelwyr iach a chystadleuol, yn hyrwyddo llety yng Nghymru i ymwelwyr ac yn helpu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y safonau rheoleiddio is tybiedig ar gyfer llety gosod tymor byr na llety gosod hirdymor.

### Gwella hygyrchedd cyfraith Cymru

4.31. Nid ymgynghorwyd ar y cynnig penodol i greu Cod Cyfraith Cymru sy'n ymwneud â thwristiaeth, nac ychwaith y cynnig i ymgorffori a moderneiddio deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â thwristiaeth. Nid ystyriwyd bod angen gwneud hyn o ystyried rhaglen barhaus y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru[37]. Mae'r rhaglen hon yn ceisio mynd i'r afael â phroblemau o ran cymhlethdod y gyfraith a chyflwr anhrefnus ein llyfr statud anferth a gwasgarog. Mae problemau cyfraith anhygyrch yn cael eu hachosi nid yn unig gan y swm enfawr o ddeddfwriaeth, ond hefyd am fod y ddeddfwriaeth honno wedi cael ei diwygio, ei hailddiwygio a'i hail-

[37] Mae'r rhaglen bresennol ar gael yn: Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU

wneud mewn ffyrdd anghyson dros amser. Weithiau gall y newidiadau hynny arwain at ddarpariaethau deddfwriaethol nad oes eu hangen mwyach.

## 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (codau a chanllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

i. y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;

ii. ym mha ffurf y dylid arfer y pŵer;

iii. priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

iv. y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cymeradwyo gan y Senedd", "annilysu gan y Senedd", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â'r rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth pan fydd y Ddeddf yn gwneud hynny'n ofynnol ac mewn achosion eraill os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Bydd union natur yr ymgynghoriad yn cael ei benderfynu pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| 5(1)(b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu mathau ychwanegol o lety ymwelwyr rheoleiddiedig. Mae hyn yn caniatáu i'r cynllun gael ei ymestyn, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i'r cynllun gael ei gymhwyso'n gyson ac yn deg i fathau eraill o lety ymwelwyr yn y dyfodol, os yw'r Senedd o'r farn ei fod yn briodol. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Dylai'r Senedd gael y cyfle i graffu a phleidleisio ar gynigion ar gyfer rhwymedigaethau i'w gosod ar ddarparwyr llety ymwelwyr na fyddent fel arall yn cael eu cynnwys yn y gyfundrefn reoleiddio. |
| 5(7)(d) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach neu wahanol ynghylch ystyr cyfeiriadau at fangreoedd drwy gydol y Ddeddf. Mae angen hyn i sicrhau bod y cyfeiriadau hyn yn gweithio yn ôl y bwriad ac i ganiatáu iddynt gael | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Er eu bod yn dechnegol, mae cyfeiriadau at fangreoedd yn cael cryn effaith drwy gydol y Ddeddf. Felly, dylai'r Senedd gael y cyfle i graffu ar unrhyw |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | eu dehongli yn wahanol, os bydd angen, os bydd mathau eraill o lety yn cael eu rheoleiddio yn y dyfodol, fel ystafelloedd sbâr, er enghraifft. | | newidiadau i'w hystyr a phleidleisio yn eu chylch. |
| 6(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidog Cymru ddiwygio'r safon ffitrwydd cyffredinol, neu ddiwygio, ychwanegu at neu hepgor unrhyw rai o'r safonau ffitrwydd penodol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn ystyried aliniad ag unrhyw newidiadau i ffitrwydd i bobl fyw ynddynt yn y sector rhentu preifat mewn rheoliadau o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ac i wneud unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol i sicrhau bod y gofynion yn briodol ar gyfer mathau newydd o lety a reoleiddir yn y dyfodol. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Dylai'r Senedd gael y cyfle i graffu a phleidleisio ar newidiadau sylweddol i ystyr ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr, ac unrhyw safonau newydd y bwriedir eu defnyddio. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 13(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, a lefel yr yswiriant sydd ei angen. Mae hyn yn angenrheidiol i adlewyrchu newidiadau yn y ffordd y darperir yswiriant, a newidiadau mewn costau y gallai fod angen eu cynnwys, fel ffioedd cyfreithiol, fel y gall lefel yr yswiriant sydd ei angen gynyddu yn y dyfodol. | Gweithdrefn annilysu'r Senedd | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i fanylion gweinyddol a thechnegol gael eu pennu i sicrhau bod lefel yr yswiriant yn berthnasol ar unrhyw adeg benodol. |
| 16(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu'r gofyniad hyfforddi y dylid ei fodloni i gael trwydded. Bydd hyfforddiant yn sicrhau bod darparwyr yn deall eu rhwymedigaethau o dan y cynllun. Mae'r pŵer yn caniatáu inni weithio gyda'r sector i ddatblygu hyfforddiant sy'n ychwanegu gwerth i ddarparwyr ac yn cefnogi effeithiolrwydd y | Gweithdrefn annilysu'r Senedd | Mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i ddyletswydd ymgynghori, felly bydd y Senedd yn gallu cymryd barn wybodus ar y weithdrefn annilysu. Mae'r pŵer yn cynnwys manylion technegol ynghylch pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant, ac efallai |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cynllun, yn sicrhau y gall yr hyfforddiant esblygu dros amser i barhau i fod yn berthnasol ac yn cyfrif am unrhyw lety rheoleiddiedig ychwanegol neu amodau trwydded newydd, ac yn rhoi cyfle inni ystyried a yw achrediad yn briodol ar gyfer rhai darparwyr. | | na fydd angen y weithdrefn gymeradwyo. |
| 17(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu amodau ychwanegol a ddylai fod yn gymwys i drwyddedau a ddyfarnwyd o dan y Rhan hon. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau tryloywder a thegwch lle mae'n amlwg bod amodau newydd yn angenrheidiol naill ai ar gyfer pob darparwr llety neu mewn amgylchiadau penodol, ac i sicrhau y gellir ychwanegu amodau priodol at drwyddedau os bydd mathau ychwanegol o lety yn cael eu rheoleiddio. | Gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd | Dylai'r Senedd gael y cyfle i graffu a phleidleisio ar newidiadau i amodau llety ymwelwyr rheoleiddiedig. |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| 19(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi gofynion cymeradwyo ychwanegol y mae'n rhaid eu bodloni cyn dyfarnu trwydded. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i'r broses ymgeisio adlewyrchu amodau newydd a ychwanegwyd ac ystyried amodau cymeradwyo priodol os yw mathau ychwanegol o lety yn cael eu rheoleiddio. | Gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd | Dylai'r Senedd gael cyfle i graffu a phleidleisio ar newidiadau i'r gofynion i gael trwydded. |
| 23(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer amgylchiadau lle gallant rybuddio darparwyr llety ymwelwyr y byddent yn dirymu eu trwydded os yw amod yn cael ei dorri eto, ac amgylchiadau lle gall torri amod fod mor ddifrifol fel bod angen dirymu ar unwaith. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan y broses ddirymu ddigon o hyblygrwydd i | Gweithdrefn annilysu’r Senedd | Mae'r darpariaethau hyn yn weithdrefnol ac nid ydynt yn newid yr amgylchiadau y bydd trwyddedau'n cael eu dyfarnu neu eu dirymu. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ddarparu ar gyfer amgylchiadau anarferol, heb ei adael yn gyfan gwbl i ddisgresiwn gweithredol. | | |
| 24(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch hysbysiadau adfer ar gyfer trwyddedau. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i'r broses honno fod yn ddigon hyblyg i weithio ar gyfer mathau ychwanegol o lety a ddygir neu amodau trwydded ychwanegol a gyflwynir i'r cynllun yn y dyfodol, tra'n sicrhau bod proses statudol lle mae deiliaid trwydded yn cael y cyfle i unioni toriadau a/neu wneud sylwadau cyn i'w trwydded gael ei dirymu. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Cytunodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y dylai'r rheoliadau fod yn destun y weithdrefn gymeradwyo o gofio arwyddocâd yr egwyddor y dylai darparwyr llety ymwelwyr gael cyfle i unioni toramodau. |
| 25(1)(b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cyfnodau trwyddedu gwahanol i'r cyfnod diofyn o 1 flwyddyn a nodir yn y Ddeddf. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Mae'r pŵer hwn yn cymryd lle disgresiwn yn y Ddeddf, ac mae'r weithdrefn annilysu yn caniatáu i'r Senedd ystyried a oes angen |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | pleidlais ar set benodedig o reoliadau. |
| 25(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch adnewyddu trwyddedau. Mae hyn yn caniatáu i'r broses esblygu ac anelu at fod mor ysgafn ag sy'n angenrheidiol i sicrhau uniondeb y cynllun trwyddedu heb fod yn rhy feichus. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Mae'r pŵer hwn yn cynnwys y gallu i bennu proses benderfynu ac apelio ar gyfer ceisiadau i adnewyddu, ac yn caniatáu i'r Ddeddf gael ei diwygio. Dylai hyn fod yn destun dadl a chraffu gan y Senedd. |
| 26(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu gweithdrefn ychwanegol mewn perthynas â phryd y caniateir diwygio trwyddedau. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod y cynllun yn gallu gweithredu yn unol â'r bwriad. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Dylai'r Senedd gael y cyfle i graffu a phleidleisio ar newidiadau i weithdrefn y drwydded fel y mae'n ymwneud ag amodau trwyddedau a'r llety y mae'r drwydded yn ymwneud ag ef, a sicrhau ei fod yn |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gweithredu fel y bwriadwyd. |
| 28(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch trwyddedau dros dro. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i’r broses ar gyfer trwyddedau dros dro gael ei diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau a wneir gan reoliadau eraill o dan y Ddeddf. | Gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd | Cytunwyd ar y weithdrefn yn ystod gwaith craffu’r Senedd. |
| 35(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu ffioedd trwydded. Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol i sicrhau bod ffioedd yn deg ac yn gymesur, tra'n ddigonol i dalu costau gweinyddu'r cynllun trwyddedu. | Gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd, y tro cyntaf y caiff y rheoliadau eu gwneud, gweithdrefn annilysu’r Senedd fel arall. | Bwriedir i swm ffi'r drwydded fod o ganlyniad i gost weinyddol y cynllun a nifer y darparwyr sydd angen trwydded. Bydd y weithdrefn annilysu yn caniatáu iddo gael ei newid yn haws i adlewyrchu cost wirioneddol y cynllun. Fodd bynnag, cytunodd y Senedd |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | pan fu'n craffu y byddai cymeradwyaeth yn briodol i gynnig goruchwyliaeth ychwanegol o'r set gyntaf o reoliadau. |
| 36(3)(g) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi cyrff eraill y gallant rannu gwybodaeth â hwy at ddibenion eu swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau, os bydd llety ychwanegol yn cael ei gynnwys yn y cynllun yn y dyfodol, neu os bydd amodau ychwanegol yn cael eu hychwanegu, y gellir rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr perthnasol neu bartneriaid eraill i gefnogi gweithrediad effeithiol y gyfundrefn o dan y Ddeddf. | Gweithdrefn annilysu'r Senedd | Mae'r darpariaethau hyn yn cefnogi'r cydweithrediad technegol rhwng cyrff cyhoeddus ar reoleiddio llety ymwelwyr perthnasol, ond nid ydynt yn newid yr egwyddorion y mae'r Ddeddf wedi'i seilio arnynt. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 37(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu Pennod drwyddedu'r Ddeddf at ddibenion sicrhau bod amodau o'r math sy'n gymwys ar hyn o bryd o dan gyfundrefnau trwyddedu ar gyfer gwersylloedd a safleoedd carafanau yn gweithredu fel y bwriadwyd os yw'r mathau hynny o lety yn cael eu cynnwys yn y gyfundrefn drwyddedu yn y dyfodol. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Bwriad y pŵer hwn yw sicrhau gweithrediad technegol cywir y Ddeddf, nid newid y polisi sy'n sail i'r drefn drwyddedu. Fodd bynnag, gan eu bod yn gallu diwygio deddfwriaeth sylfaenol, mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gymeradwyo. |
| 46 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch partneriaethau a chyrff anghorfforedig. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau triniaeth briodol o'r endidau hyn ar gyfer trwyddedu, ac yng ngoleuni'r pŵer cyfatebol yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Dylai'r Senedd gael y cyfle i graffu a phleidleisio ar newidiadau i'r gweithdrefnau a nodir ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol hon. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 49(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn perthynas â marwolaeth, analluedd neu ansolfedd darparwr llety ymwelwyr. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau triniaeth briodol o ddarparwyr yn yr achosion hyn, ac yng ngoleuni'r pŵer cyfatebol yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Dylai'r Senedd gael y cyfle i graffu a phleidleisio ar newidiadau i'r gweithdrefnau a nodir ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol hon. |
| 50(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth i gefnogi parhad triniaeth ar gyfer busnes sy'n cael ei drosglwyddo fel busnes parhaus. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau triniaeth briodol o ddarparwyr yn yr achosion hyn, ac yng ngoleuni'r pŵer cyfatebol yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Dylai'r Senedd gael y cyfle i graffu a phleidleisio ar newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 51(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi esemptiadau o'r gofynion a roddir ar ddarparwyr llety rheoleiddiedig o dan y rhan hon o'r Ddeddf. Mae angen hyn i ddarparu ar gyfer amgylchiadau megis pan fydd angen i ddarparwr llety trwyddedig atgyweirio neu ailwampio ei lety, neu i sicrhau nad yw capasiti trwyddedu'n rhwystr rhag cynnal digwyddiadau mawr. | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Dylai'r Senedd gael y cyfle i graffu a phleidleisio ar reoliadau a fyddai'n esemptio pobl o ofynion o dan y Ddeddf. |
| 55(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu lefelau'r hysbysiad cosb y gellir eu codi fel dewis arall yn hytrach nag erlyn am droseddau o dan y Ddeddf. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i gosbau priodol gael eu codi a'r gyfundrefn reoleiddio i gael ei gorfodi yn effeithiol. Efallai y bydd angen newid lefelau'r gosb, yn enwedig os bydd gwahanol | Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd | Dylai'r Senedd gael cyfle i graffu a phleidleisio ar newidiadau i gosbau sy'n daladwy am droseddau. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | fathau o lety yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y cynllun, neu os yw tystiolaeth yn awgrymu nad ydynt yn ddigonol i gefnogi uniondeb y gyfundrefn drwyddedu. | | |
| 57(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n ddeilliadol, yn atodol neu ganlyniadol i'r Ddeddf, neu wneud darpariaeth drosiannol neu arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf. Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau y gellir gweithredu'r Ddeddf yn effeithiol. | Gweithdrefn gymeradwyo’r Senedd os yw'n diwygio, yn addasu neu’n diddymu unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol. Fel arall, gweithdrefn annilysu’r Senedd | Dylid rhoi'r cyfle i'r Senedd graffu a phleidleisio ar unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. |

**Tabl 5.2: Crynodeb o'r pwerau i gyhoeddi codau a chanllawiau yn narpariaethau Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 3(1) | Gweinidogion Cymru | Cod Ymarfer | Mae'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer mewn perthynas ag arfer gorau ar dwristiaeth. Bwriad hyn yw cefnogi hyrwyddo a datblygu twristiaeth yng Nghymru. | Dim gweithdrefn | Mae'r cod ymarfer yn cynnig canllawiau ar arfer gorau ond nid yw'n gosod gofynion ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaethau twristiaeth. |
| 56(1) | Gweinidogion Cymru | Canllawiau | Mae'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar weithrediad y cynllun rheoleiddio a grëir gan y Ddeddf. Bwriad hyn yw darparu eglurder ar weithrediad y cynllun, a chefnogi darparwyr llety ymwelwyr a'r cyhoedd i ddeall sut mae'n gweithio. | Dim gweithdrefn | Bwriad y canllawiau yw cynnig manylion technegol i gefnogi pobl i ddeall sut mae'r cynllun yn gweithio yn ymarferol. |

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## 6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei gwblhau ar gyfer y Ddeddf ac mae'n dilyn isod.

Nid oes darpariaethau penodol yn y Ddeddf sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

### Tabl A

Mae'r tabl a ganlyn yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Ddeddf gyfan. Cynlluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

<table>
<tr><td colspan="3">Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Yr opsiwn a ffefrir:<br><br>Opsiwn 2 – Cyflwyno cynllun trwyddedu llety ymwelwyr ledled y wlad wedi ei ategu gan ofynion hyfforddi, tystiolaeth ddogfennol o gydymffurfedd a dull gorfodi sy'n cael ei arwain gan wybodaeth ac sy'n seiliedig ar risg mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rheoleiddwyr eraill.</td></tr>
<tr><td>Cyfnod: Cyflwyno</td><td>Cyfnod arfarnu:<br>2026-27 – 2035-36</td><td>Blwyddyn sail brisiau:<br>2025</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm Costau (amcangyfrif gorau)<br>Cyfanswm: £41.84m<br>Gwerth presennol: £34.45m</td><td>Cyfanswm y Manteision: Anfesuradwy (gweler tudalen 38)<br>Gwerth presennol: Anfesuradwy</td><td>Gwerth Presennol Net (NPV):<br>£-34.45m</td></tr>
</table>

## Cost weinyddol

**Costau:**
Mae amcangyfrifon uchel, isel a gorau wedi eu cynnwys drwy gydol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn i adlewyrchu ansicrwydd ynghylch maint a chyfansoddiad y sector llety hunanddarpar i ymwelwyr yng Nghymru, er ym mhob achos ein rhagdybiaeth ymarferol yw bod yr amcangyfrif gorau yn darparu brasamcan rhesymol o beth allai'r costau tebygol fod yn ymarferol. Mae'r cyfansymiau yn y tablau hyn yn adlewyrchu'r amcangyfrifon gorau

Bydd cyfanswm costau trosiannol sefydlu'r cynllun trwyddedu llety ymwelwyr yn cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru a bydd y costau'n cael eu hysgwyddo yn ystod blynyddoedd ariannol 2026-27 i 2028-29. Mae cyfanswm y costau trosiannol amcangyfrifedig yn amrywio o £7.5 miliwn i £9.7 miliwn, gydag amcangyfrif gorau o £9.16 miliwn. Mae cyfanswm y gost drosiannol hon yn cynnwys costau datblygu ar gyfer system ddigidol gydag ystod costau amcangyfrifedig o £2.92m i £4.25m, gyda'r amcangyfrif gorau yn £3.93m. Byddwn yn archwilio'r cwmpas i leihau'r costau hyn trwy ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial a synergeddau gyda chofrestru llety ymwelwyr.

O 2029-30 ymlaen, disgwylir y bydd y cynllun trwyddedu yn hunangyllidol, gyda chostau rhedeg yn cael eu talu o ffioedd trwyddedu. Unwaith eto, amcangyfrifwyd amrediad o gostau uniongyrchol posibl o £1.2 miliwn i £2.1 miliwn y flwyddyn, gyda'r amcangyfrif gorau o £1.88 miliwn yn cael ei ystyried yn fwyaf tebygol. Mae'r costau hyn wedi eu cynnwys yn yr adran costau cydymffurfio isod.

Bydd angen cyllid ar gyfer gweithgarwch gorfodi ar y cychwyn. Byddwn yn ceisio adennill costau gorfodi gan ddarparwyr nad ydynt yn cydymffurfio, gan gynnwys drwy hysbysiadau cosb benodedig (nid yw'r rhain wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn gan y byddai costau o'r fath yn cael eu hysgwyddo o ganlyniad i weithgarwch anghyfreithlon). Lle bo angen, gall Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid ychwanegol, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar – mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn tybio y bydd cyfanswm o £0.3 miliwn yn ddigonol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £9.16m** | **Rheolaidd: £0.3m** | **Cyfanswm: £9.46m** | **Gwerth presennol: £8.84m** |

**Arbedion costau:**
Ni nodwyd arbedion cost gweinyddol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £0** | **Rheolaidd: £0** | **Cyfanswm: £0** | **Gwerth presennol: £0** |

**Cost weinyddol net: £9.46m**

## Costau cydymffurfio ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr

Bydd costau ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr o dan y cynllun hwn, gan gynnwys ffioedd trwydded blynyddol. Bydd yn rhaid iddynt hefyd fodloni gofyniad hyfforddi bob pum mlynedd, gyda ffi yn daladwy am gyrsiau.

Ein hamcangyfrif gorau yw y bydd cyfanswm y costau trosiannol i'r sector llety ymwelwyr yng Nghymru yn £5.66m yn 2029-30 (gan gynnwys costau cyfleoedd tybiedig o £1.16m), ac yna £4.45m o gostau blynyddol yn dechrau yn 2030-31. Caiff y costau hyn eu gyrru i raddau helaeth gan faint y sector, gyda'r amcangyfrif gorau yn seiliedig ar 30,000 o safleoedd.

Ein hamcangyfrif isel, sy'n seiliedig ar 12,000 o safleoedd, yw cyfanswm cost drosiannol i'r sector o £2.27m, ac yna costau blynyddol o £1.78m. Ein hamcangyfrif uchel, sy'n seiliedig ar 37,000 eiddo, yw cyfanswm cost drosiannol i'r sector o £6.98 miliwn, ac yna costau blynyddol o £5.49m.

Tybir y gall rhai darparwyr llety ymwelwyr ddewis trosglwyddo rhai neu'r cyfan o'r costau hyn i ymwelwyr drwy ffioedd uwch; efallai y byddai'n well gan eraill eu hamsugno a derbyn elw llai, er nad yw'n bosibl amcangyfrif y gyfran yn y naill achos neu'r llall.

Bydd cosbau ariannol hefyd i weithredwyr sy'n methu cydymffurfio â gofynion y cynllun – nid yw'r rhain wedi'u cynnwys gan eu bod yn ganlyniad gweithgarwch anghyfreithlon.

| Trosiannol: | Rheolaidd: | Cyfanswm: | Gwerth presennol: |
|---|---|---|---|
| **£5.66m** | **£26.71m** | **£32.37m** | **£25.60m** |

## Anfanteision a chostau heb eu meintoli

Mae'r safonau ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr y bydd yn ofynnol i ddarparwyr eu bodloni, ac eithrio'r safon yswiriant, yn seiliedig ar rwymedigaethau cyfreithiol presennol, felly dylai darparwyr llety hunanddarpar i ymwelwyr fod yn bodloni'r rhain yn barod (a bydd nifer eisoes yn bodloni'r safon yswiriant). Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai rhai darparwyr llety ymwelwyr nad ydynt yn cydymffurfio adael y sector. Os mai felly y bydd pethau, gallai cyfanswm y llety hunanddarpar sydd ar gael i ymwelwyr leihau, a allai arwain at lai o arosiadau dros nos gan ymwelwyr â Chymru - neu, i'r gwrthwyneb, at well cyfraddau meddiannaeth i'r darparwyr sy'n weddill.

Nid yw'n bosibl rhagweld pa gyfran o ddarparwyr a allai ffafrio gadael y farchnad yn hytrach na chydymffurfio â gofynion statudol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth sylweddol bod y sector yn crebachu o ganlyniad i gyflwyno cynlluniau trwyddedu tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt. Nid yw cyflwyno trwyddedu landlordiaid yn y sector rhentu preifat yng Nghymru - gan gynnwys gofynion ynghylch larymau mwg/carbon monocsid ac ardystio diogelwch trydanol - wedi arwain at unrhyw ostyngiad amlwg ym maint cyffredinol y sector hwnnw o ran nifer yr eiddo yn y degawd diwethaf.

## Manteision

| | |
|---|---|
| Bydd y cynllun yn cael effeithiau cadarnhaol ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac ar gymunedau lle mae'r diwydiant yn bresenoldeb amlwg, gan gynnwys:<br><br>- Mwy o ymwybyddiaeth o ofynion statudol, a hyder ynddynt, ymhlith ymwelwyr â Chymru, gan gynorthwyo'r sector llety ymwelwyr.<br><br>- Mwy o degwch ar draws y sector llety hunanddarpar, gyda hyder bod darparwyr trwyddedig yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol, sy'n sicrhau chwarae teg i bob darparwr, gan annog marchnad fwy cystadleuol.<br><br>Bydd y safonau a osodir gan y cynllun trwyddedu at y dibenion hyn hefyd yn cydbwyso cymhellion rheoleiddio, yn enwedig ar gyfer y rhai sy’n ymuno â’r farchnad, wrth ddewis a ddylid gweithredu yn y marchnadoedd llety gwyliau neu breswyl preifat, felly mae penderfyniadau eiddo yn cael eu gyrru gan ffactorau heblaw canfyddiadau o faich rheoleiddio is ar osodiadau tymor byr. Bydd hyn yn cefnogi perthynas gynaliadwy rhwng twristiaeth a chymunedau. Bydd amodau’r drwydded mewn cysylltiad â niwsans yn cryfhau’r berthynas hon ymhellach, gan ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety trwyddedig gymryd camau rhesymol i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol sy’n effeithio ar eu cymuned.<br><br>Nid yw'n bosibl rhoi gwerth ariannol ystyrlon ar fanteision ynghylch ansawdd, gwella hyder a chanfyddiadau, a siapio marchnadoedd llety lleol. | |
| **Cyfanswm: Anfesuradwy** | **Gwerth presennol: Anfesuradwy** |

## Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

Mae'r amcangyfrifon cost a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi eu llywio gan amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys ymchwil annibynnol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Bevan, a hefyd Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, ynghyd â dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynllun trwyddedu statudol a gynhaliwyd gan Sglein.

Yn ogystal, mae adolygiadau a gynhaliwyd mewn perthynas â chynlluniau trwyddedu llety ymwelwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi llywio'r rhagdybiaethau a wnaed yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, yn ogystal â chynigion sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer llety ymwelwyr a ddarperir yn Lloegr.

Y prif ansicrwydd wrth ddatblygu'r amcangyfrifon cost yw prinder data dibynadwy ar nifer y llety hunanddarpar sydd ar gael yng Nghymru. Fel yr eglurwyd yn y Memorandwm Esboniadol i Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), y diffyg gwybodaeth gywir am faint a chyfansoddiad y sector oedd un o'r prif resymau dros gyflwyno'r darpariaethau cofrestru yn y Ddeddf honno.

Er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, ystyriwyd amrywiaeth o ffynonellau a chyfeirir atynt yn yr adran *Amcangyfrif maint y sector llety ymwelwyr hunanddarpar yng Nghymru* ym mhennod 8.

# 7. Opsiynau

7.1 Mae'r darpariaethau trwyddedu a gyflwynir gan y Ddeddf hon yn rhan o amrywiaeth o fesurau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i ategu'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu y bydd yn "*bwrw ymlaen â chamau i osod terfyn ar nifer yr ail gartrefi, dod â rhagor o gartrefi o dan berchnogaeth gyffredin a thrwyddedu llety gwyliau*", a'r ymrwymiad cysylltiedig yn y Cytundeb Cydweithio i gyflwyno "*cynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety gwyliau*". Mae Gweinidogion Cymru wedi cynghori'r Senedd yn flaenorol y byddant yn cyflawni'r ymrwymiadau hyn yn ystod tymor y Senedd bresennol drwy ddeddfwriaeth sylfaenol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i lety ymwelwyr gael ei drwyddedu yng Nghymru.

7.2 Wrth ddatblygu'r Ddeddf hon, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y gwahanol ddulliau deddfwriaethol a gymerwyd i reoleiddio llety ymwelwyr yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, yn ogystal â chynigion ar gyfer cynllun cofrestru ar gyfer llety gosod tymor byr yn Lloegr sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd wedi defnyddio profiad Rhentu Doeth Cymru a sefydlwyd fel yr awdurdod trwyddedu ar gyfer y sector rhentu preifat yng Nghymru o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

7.3 Ar y cyfan, ar ôl ystyried manteision, cyfyngiadau, costau ac effeithiolrwydd cymharol y gwahanol ddulliau a archwiliwyd, rydym wedi dod i'r casgliad mai dull Cymru gyfan o dan Weinidogion Cymru (sy'n cael eu disgrifio yma fel awdurdod trwyddedu canolog i wahaniaethu'r rôl hon oddi wrth y nifer o'u swyddogaethau eraill)) yw'r dull cyflawni mwyaf cadarn a chost-effeithiol ar gyfer cynllun trwyddedu llety ymwelwyr yng Nghymru. Ymhlith y dewisiadau cyflawni posibl eraill a ystyriwyd, ond a ddiystyrwyd am resymau cost, cymhlethdod, cyfreithlondeb neu effeithiolrwydd, roedd trefniant lle byddai pob awdurdod lleol unigol yng Nghymru yn gweinyddu'r cynllun o fewn ei ardal ei hun (model yr Alban), neu greu corff cyhoeddus newydd.

7.4 Mae gweddill yr adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi tri opsiwn a ystyriwyd yn fanwl. Mae'r rhain yn cynnwys opsiwn 'cadw'r drefn bresennol', sy'n disgrifio'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd ac yn ceisio darparu llinell sylfaen niwtral o ran cost y gellir mesur y ddau opsiwn arall yn ei herbyn. Yr ail opsiwn yw'r un a ffefrir: dull cymesur o reoleiddio sy'n cyfuno proses sicrwydd yn seiliedig ar dystiolaeth ddogfennol o gydymffurfedd a dull gorfodi sy'n seiliedig ar risg ac sy'n cael ei arwain gan wybodaeth mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chyrff rheoleiddio. Mae'r trydydd opsiwn yn disgrifio dull mwy trylwyr, ond beichus a drud, tuag at sicrwydd a chydymffurfedd, gydag archwiliadau ffisegol o bob llety i gadarnhau bod safonau'n cael eu bodloni, a'r awdurdod trwyddedu yn ymgymryd â'i weithgareddau cydymffurfio a gorfodi ei hun yn uniongyrchol, yn hytrach nag mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac eraill.

### *Yr awdurdod trwyddedu*

7.5 Ar hyn o bryd, nid ydym wedi penderfynu a ddylai swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu gael eu cyflawni'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r archwiliad o'r rolau cyflawni priodol, rydym yn gweithio gydag ACC i ddatblygu'r rhyngweithio â chofrestru llety ymwelwyr a'r gofrestr i'w chynnal ganddynt o dan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru).

7.6 Ein rhagdybiaeth ar hyn o bryd yw y gwnaiff ACC helpu i weinyddu'r cynllun trwyddedu i wneud yn siŵr ei fod yn alinio â'r gofrestr. Rydym yn gweithio gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol ar gynnal archwiliadau. Gallai Llywodraeth Cymru, neu er enghraifft, awdurdod lleol arweiniol, gynnal swyddogaethau eraill yr awdurdod trwyddedu.

7.7 Gan hynny, mae'r modelau cost a nodir ym mhennod 8 wedi eu datblygu'n annibynnol ar benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y corff mwyaf addas i ymgymryd â'r amrywiol swyddogaethau sy'n ofynnol i gyflawni'r cynllun trwyddedu. Bydd y dewisiadau a wneir yn ystyried synergeddau ac arbedion effeithlonrwydd posibl a ddylai leihau'r costau i ddarparwyr llety ymwelwyr, yr awdurdod trwyddedu ac eraill - er enghraifft, wrth fanteisio ar y cysylltiadau rhwng trwyddedu a chofrestru llety gwyliau.

## **Opsiwn 1 – Parhau â'r drefn bresennol**

7.8 Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r sefyllfa bresennol lle mae darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru yn parhau i weithredu yn absenoldeb cynllun trwyddedu statudol.

7.9 Gan fod hwn yn opsiwn 'dim newid', nid oes costau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol na darparwyr llety ymwelwyr.

7.10 Fodd bynnag, byddai peidio â gwneud dim yn golygu y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau, lle gallai nifer cynyddol o ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru fod yn darparu llety nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion statudol presennol, gyda pherygl o danseilio enw da'r sector a niweidio economi ymwelwyr Cymru.

7.11 Mae tystiolaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU yn awgrymu bod diffyg ymwybyddiaeth o'r gofynion hyn, yn enwedig ymysg y rhai sydd wedi ymuno â'r farchnad gosod llety hunanddarpar yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy blatfformau gosod ar-lein a gwasanaethau rhestru llety rhwng cymheiriaid fel Airbnb ac Booking.com. Mae gwaith ymchwil a wnaed yng Nghymru hefyd yn cadarnhau nad yw'r rhan fwyaf o ymwelwyr sy'n aros yn y math hwn o lety yn ymwybodol nad oes cynllun ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd i gefnogi cydymffurfedd â'r gofynion hyn, ond y byddent yn fwy hyderus wrth archebu llety o'r fath pe bai

gofyniad cyfreithiol yn cael ei roi ar ddarparwyr i gydymffurfio.

7.12 O ystyried y diffyg ymwybyddiaeth o'r rhwymedigaethau statudol presennol ymysg darparwyr llety ymwelwyr ac ymwelwyr eu hunain, mae'n rhesymol tybio nad yw cyfran o lety hunanddarpar i ymwelwyr yng Nghymru yn cydymffurfio â'r gofynion statudol perthnasol, ond nad yw'r llety hwn yn dod i sylw awdurdodau lleol na chyrff rheoleiddio eraill drwy adroddiadau neu gwynion gan ymwelwyr. Mae'r dybiaeth hon yn cael ei hategu gan yr adolygiad yn 2025 o'r cynllun trwyddedu rhentu tymor byr yn yr Alban, a nododd nifer uchel o geisiadau anghyflawn am drwydded, lle darparwyd tystiolaeth a oedd wedi dyddio yn ymwneud â diogelwch nwy, trydan neu dân, neu le roedd wedi cymryd cryn dipyn o amser i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r fath, sy'n dangos nad oedd rhai yn bodloni'r safonau diogelwch hyn yn rheolaidd o'r blaen.

7.13 Ar ben hynny, nid oes gan unrhyw awdurdod lleol neu reoleiddiwr arall sy'n dymuno mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau cydymffurfedd â'r gofynion presennol a'u gorfodi ffordd barod o nodi eiddo sy'n cael ei ddefnyddio fel llety hunanddarpar i ymwelwyr, ar wahân i chwilio drwy blatfformau ar-lein i ganfod eiddo yn eu hardal ddaearyddol gydag adolygiadau negyddol sy'n awgrymu o bosibl nad yw gofynion statudol yn cael eu bodloni. Er y bydd y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n cael ei sefydlu o dan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), mewn amser, yn nodi darparwyr a llety cofrestredig, ni fydd ynddi'i hun yn gwella cydymffurfedd â safonau a gofynion statudol.

7.14 Yn gryno felly, er nad yw'r opsiwn 'busnes fel arfer' yn creu costau ychwanegol i ddarparwyr llety ymwelwyr, awdurdodau lleol nac ymwelwyr eu hunain, byddai gwneud dim byd yn caniatáu i'r sefyllfa bresennol barhau, lle mae diffyg ymwybyddiaeth o rwymedigaethau statudol presennol, a dim ffordd hawdd o nodi a mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio. Mae hyn nid yn unig yn golygu y gallai rhai gweithredwyr sydd â bwriad da fod yn darparu llety a allai fod yn beryglus yn ddiarwybod; mae hefyd yn galluogi unigolion diegwyddor, sy'n cynnig llety is na'r safon yn fwriadol, i gynnig eiddo am bris rhatach na darparwyr sydd *wedi* cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod eu llety'n cydymffurfio.

7.15 Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn parhau â'r gwahaniaeth rheoleiddiol presennol rhwng y sector rhentu preifat a'r sector rhentu tymor byr, y mae cynrychiolwyr landlordiaid a sefydliadau ymgyrchu wedi dadlau ei fod yn ffactor wrth gymell perchnogion eiddo i symud o'r sector rhentu tymor hir i'r farchnad gosod tymor byr. Byddai hyn yn ei dro yn parhau i waethygu'r pwysau ar argaeledd tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle mae galw mawr am lety ymwelwyr.

7.16 Yn olaf, gyda chynlluniau eisoes ar waith yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, a Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cadarnhau'n ddiweddar ei bwriad i gyflwyno cynllun llety ymwelwyr yn Lloegr, byddai gwneud dim yn golygu mai Cymru fyddai'r unig wlad ddatganoledig – ac, unwaith y daw'r

cynllun yn Lloegr yn weithredol, yr unig ran o'r Deyrnas Unedig – heb gynllun cyfreithiol. Mae sefyllfa o'r fath yn annhebygol o ysbrydoli hyder ymysg darpar ymwelwyr, neu ddarpar fuddsoddwyr yn y sector, a gallai gael effaith niweidiol ar ein heconomi.

**Opsiwn 2 (yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio) – Cyflwyno cynllun trwyddedu llety ymwelwyr ledled y wlad wedi ei ategu gan ofynion hyfforddi, tystiolaeth ddogfennol o gydymffurfedd a dull gorfodi sy'n cael ei arwain gan wybodaeth ac sy'n seiliedig ar risg mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rheoleiddwyr eraill**

7.17 O dan yr opsiwn a ffefrir hwn, byddai un awdurdod trwyddedu yn gyfrifol am y cynllun ledled Cymru. Byddai rôl yr awdurdod trwyddedu yn cynnwys:

- y prif gyfrifoldeb am benderfyniadau trwyddedu, gan osod paramedrau o ran tystiolaeth a phrosesu;
- prosesu ceisiadau am drwyddedau a rhoi trwyddedau - gweithio ochr yn ochr ag ACC i sicrhau cydnawsedd â'r broses o gofrestru llety ymwelwyr a bod darparwyr llety ymwelwyr yn cael gwasanaeth symlach;
- canfod ac ymchwilio i achosion posibl o beidio â chydymffurfio â gofynion trwyddedu, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rheoleiddwyr eraill; a
- gorfodi gofynion trwyddedu, gan gynnwys, lle bo angen, rhoi cosbau, a dirymu trwyddedau ac erlyn mewn achosion o osgoi neu beidio â chydymffurfio.

7.18 Mae'r paragraffau a ganlyn yn disgrifio pob elfen o swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu yn fanwl:

***Rheoli'r broses drwyddedu***

7.19 Fel sy'n cael ei egluro ym Mhennod 3 y Memorandwm Esboniadol uchod, ar ôl i ddarpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth hon ddod i rym, bydd yn rhaid i unrhyw weithredwr sy'n dymuno darparu llety hunanddarpar i ymwelwyr yng Nghymru gael ei drwyddedu ar gyfer pob safle lle bydd y llety hwnnw'n cael ei ddarparu.

7.20 Er mwyn cael trwydded, byddai'n rhaid i ymgeisydd fodloni gofyniad hyfforddiant. Bydd yr hyfforddiant hwn yn egluro'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cael trwydded fel y nodir yn y ddeddfwriaeth a chanllawiau ategol. Bydd y gofyniad hyfforddi yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, gan gynnwys ystyried achredu darparwyr profiadol, a'i nodi mewn rheoliadau. At ddibenion yr asesiad hwn, gwnaed y tybiaethau a ganlyn:

- Y dewis diofyn fydd cwblhau hyfforddiant ar-lein, gyda dewis ystafell ddosbarth ar gael i'r rhai sydd angen neu sy'n ffafrio dull wyneb yn wyneb;

- Ni fydd yr hyfforddiant cychwynnol yn para mwy na hanner diwrnod (tua thair awr a hanner) a bydd ffi hyfforddi o tua £25 yn daladwy;

- Bydd angen hyfforddiant diweddaru bob pum mlynedd, sy'n debygol o fod yn fyrrach ac yn destun ffi is na'r modiwl hyfforddiant cychwynnol; a

- Gan ddibynnu ar y model darparu a fabwysiadwyd ar gyfer hyfforddiant, defnyddir incwm ffioedd o'r cyrsiau hyfforddi i dalu costau datblygu a diweddaru adnoddau hyfforddi yn ôl yr angen a darparu'r cyrsiau. Byddai unrhyw warged yn cael ei ddefnyddio i wrthbwyso costau gweithredol y cynllun trwyddedu.

- Byddai angen i'r ymgeisydd gadarnhau bod y llety y mae'n gwneud cais am drwydded ar ei gyfer wedi'i gofrestru (bydd Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) yn mynnu bod pob llety ymwelwyr yn cael ei gofrestru).

- Byddai hefyd yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth bod y safle yn bodloni safonau ffitrwydd penodol, fel a ganlyn:

  - Y safon diogelwch trydanol - drwy adroddiad cyflwr trydanol dilys, a chofnod bod unrhyw waith sydd ei angen o ganlyniad i hynny wedi cael ei wneud;

  - Y safon diogelwch tân - gydag asesiad risg diogelwch tân ar gyfer y llety;

  - Pan gyflenwir nwy, bodlonir y safon cynnal a chadw nwy - drwy adroddiad diogelwch nwy dilys, a chofnod bod unrhyw waith sydd ei angen o ganlyniad i gynnal yr archwiliad wedi cael ei wneud;

  - Pan fo cyfarpar nwy, olew neu danwydd solet, eir i'r afael â'r risg carbon monocsid - drwy ddarparu synhwyrydd/synwyryddion carbon monocsid sy'n gweithio'n iawn yn yr ystafell/ystafelloedd perthnasol; ac

  - Y safon yswiriant wedi'i bodloni - trwy bolisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i gwmpasu unrhyw ddifrod neu anafiadau i drydydd partïon (h.y. ymwelwyr, neu aelodau o'r cyhoedd) a allai ddigwydd yn y safle.

7.21 Bydd angen darparu tystiolaeth ddogfennol o gydymffurfio â'r gofynion hyn adeg y cais cychwynnol, a bydd angen i'r trwyddedai ei diweddaru yn ôl yr angen ar ôl hynny. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddarparu tystysgrifau, adroddiadau, neu dystiolaeth arall megis

derbynebau, anfonebau neu ffotograffau perthnasol yn electronig, a fydd yn cael eu gwirio gan yr awdurdod trwyddedu. Dylai'r dull hwn fod yn syml i'r mwyafrif o ymgeiswyr, ond mae'n fwy cadarn na threfniant sicrwydd amgen, megis hunanardystio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion.

7.22 Os yw'r awdurdod trwyddedu yn fodlon bod y gofynion wedi eu bodloni, bydd yn dyroddi trwydded i'r ceisydd ar gyfer y llety perthnasol, sy'n ddilys am flwyddyn yn gyffredinol. Caiff yr awdurdod trwyddedu hefyd geisio rhagor o wybodaeth i fodloni ei hun cyn gwneud penderfyniad. Byddai'n ofynnol i'r trwyddedai sicrhau bod y llety trwyddedig yn cydymffurfio â'r gofynion uchod, gan gynnwys diweddaru'r dystiolaeth pan fo'n briodol.

7.23 Mae'n amod o'r drwydded bod yn rhaid i ddeiliad y drwydded ymrwymo hefyd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw defnyddio'r eiddo fel llety ymwelwyr yn peri niwsans neu annifyrrwch i gymdogion. Gallai hynny gynnwys, er enghraifft, rhoi arweiniad i ymwelwyr ynghylch cyfyngiadau parcio, sŵn, trefniadau gwaredu a chasglu gwastraff a rhoi manylion cyswllt i gymdogion iddynt allu cwyno neu fynegi gofidiau.

7.24 Byddai trwyddedai sy'n dymuno adnewyddu ei drwydded yn gallu gwneud hynny drwy broses adnewyddu symlach.

### *Canfod achosion o beidio â chydymffurfio*

7.25 Byddai'r awdurdod trwyddedu yn gyfrifol am sicrhau bod trwyddedeion yn cydymffurfio â gofynion y cynllun trwyddedu. Yn ogystal â gwirio tystiolaeth ddogfennol a ddarparwyd fel rhan o geisiadau trwyddedu, byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy gyfuniad o weithgareddau cydymffurfio ar sail risg a gweithgareddau gorfodi ar sail tystiolaeth, gan gynnwys:

- **ymchwiliad adweithiol** i adroddiadau neu gwynion a dderbynnir gan ymwelwyr, cymdogion, awdurdodau lleol, ACC, cyrff proffesiynol, ac ati, ynghylch diffyg cydymffurfio posibl â gofynion trwyddedu; ac

- **ymgysylltu'n rhagweithiol,** gan gynnwys, er enghraifft, ag asiantaethau teithio ar-lein, drwy fonitro platfformau rhestru i ganfod adolygiadau negyddol gan gwsmeriaid sy'n awgrymu nad yw amodau trwydded yn cael eu bodloni o bosibl, er mwyn gallu ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau gorfodi.

7.26 Byddai gan yr awdurdod trwyddedu bwerau i ofyn am ragor o dystiolaeth gan y darparwr llety ymwelwyr - a phwerau i archwilio, lle bo angen. Mewn rhai achosion, gallai'r awdurdod gyfeirio'r ymchwiliad at reoleiddwyr eraill. Ar gyfer llety hunanddarpar, rydym yn disgwyl y bydd yr awdurdod trwyddedu yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ond - fel sy'n wir am Rhentu Doeth Cymru – rydym yn disgwyl y byddai'r awdurdod trwyddedu yn ad-dalu gweithgarwch ychwanegol o'r fath sy'n cael ei

wneud ar ei ran. Mewn achosion o beidio â chydymffurfio - boed hynny'n fethiant i gydymffurfio â'r gofyniad i gael trwydded, neu lle mae darparwr llety ymwelwyr *wedi* ei drwyddedu ond yn methu cydymffurfio ag amodau ei drwydded - rydym yn disgwyl i'r awdurdod trwyddedu fabwysiadu dull gorfodi 'cam wrth gam' sydd wedi ei ddylunio i annog a chefnogi cydymffurfedd. Er enghraifft, yn y lle cyntaf, gallai'r awdurdod ddarparu gwybodaeth a chyngor i ddarparwr y nodwyd ei fod heb drwydded a'i annog i gydymffurfio neu wynebu cosb. Yn yr un modd, lle nodir nad yw llety trwyddedig yn cydymffurfio ag amodau trwydded, neu y cadarnheir ei fod yn cydymffurfio yn dilyn ymchwiliad, byddai'n ofynnol i'r awdurdod trwyddedu gymryd camau yn gyntaf i annog cydymffurfedd cyn dirymu trwydded, oni bai yr ystyriwyd bod natur y tor amod mor ddifrifol fel ei fod yn peri risg sylweddol o niwed.

***Gorfodaeth***

7.27 Pe bai ymgysylltu anffurfiol cychwynnol ac anogaeth yn methu â sicrhau cydymffurfedd, byddai gan yr awdurdod trwyddedu'r gallu i roi hysbysiad gwybodaeth (sy'n ei *gwneud yn ofynnol* i dderbynnydd ddarparu gwybodaeth berthnasol). Byddai methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth o fewn amser penodol yn gallu cael ei gosbi drwy ddirwy.

7.28 Gallai'r awdurdod trwyddedu hefyd benderfynu bod angen ymweld â safle. Er enghraifft, lle adroddwyd bod y safle yn peri risg o niwed neu anaf i ymwelydd ac nad yw wedi bod yn bosibl datrys y mater yn foddhaol fel arall.

7.29 Pan fydd troseddau'n cael eu cyflawni, mae'r Ddeddf yn creu pwerau i hysbysiadau cosb gael eu rhoi yn hytrach nag erlyn. Dylai'r derbyniadau o'r hysbysiadau cosb benodedig hyn dalu costau gorfodi'r awdurdod, ond os nad ydynt yn ddigonol, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ychwanegu atynt. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn tybio y gallai fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid o hyd at £0.1m ym mhob un o flynyddoedd 2029-30 i 2031-32.

7.30 Pan fydd darparwr llety yn torri amodau trwydded ac nad yw'n cymryd y camau unioni a bennir gan yr awdurdod trwyddedu, bydd yr awdurdod yn gallu dirymu'r drwydded ar gyfer y llety yr effeithir arno.

**<u>Opsiwn 3 - Cyflwyno cynllun trwyddedu llety ymwelwyr wedi ei ategu gan drefn gadarn o sicrhau, cydymffurfio a gorfodi sy'n cael ei darparu gan yr awdurdod trwyddedu yn unig</u>**

7.31 Yn hytrach na'r dull trwyddedu 'cyffyrddiad ysgafnach' a ffefrir sy'n cael ei gynnig yn opsiwn 2 uchod, byddai'r trydydd opsiwn hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu gynnal archwiliad ffisegol o'r holl lety ymwelwyr i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol

perthnasol cyn i drwydded gael ei dyroddi neu ei hadnewyddu.

7.32 Er y byddai'r dull hwn yn rhoi rhagor o sicrwydd o ran cydymffurfio â gofynion statudol ac yn lleihau'r elfen o risg sy'n rhan annatod o ddibyniaeth yr opsiwn a ffefrir ar dystiolaeth ddogfennol, ni fyddai archwiliadau ffisegol yn rhoi unrhyw sicrwydd y byddai llety sy'n cael ei arolygu ar ddyddiad penodol ac y canfuwyd ei fod yn cydymffurfio ar y pryd o reidrwydd yn parhau i gydymffurfio drwy gydol y cyfnod trwyddedu.

7.33 O ran cydymffurfio a gorfodi, yn hytrach na'r trefniadau a ddisgrifir yn opsiwn 2, lle disgwylir i'r awdurdod trwyddedu wneud trefniadau gydag awdurdodau lleol i gynnal arolygiadau a, lle bo angen, cyhoeddi gorchmynion gwella neu wahardd, o dan yr opsiwn hwn y dybiaeth yw y byddai'r awdurdod trwyddedu yn gwneud hynny ohono ei hunan. Er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hyn, byddai'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu gyflogi ei arolygwyr iechyd yr amgylchedd ei hun i ymchwilio i adroddiadau o ddiffyg cydymffurfio ac o bosibl hyd yn oed swyddogion gorfodi pe bai angen gorchymyn brys.

7.34 Byddai trefniadau o'r math hwn, o'u cymharu â'r opsiwn a ffefrir, yn fwy llafurddwys ac felly'n ddrud i'r awdurdod trwyddedu eu darparu, ac yn fwy beichus ar geisyddion am drwydded/trwyddedeion, a allai arwain at ffioedd uwch na'r rhai a ragwelir o dan yr opsiwn a ffefrir er mwyn darparu adnoddau digonol. Byddai hefyd o bosibl yn anghyfleus neu'n ymwthiol i ymwelwyr sy'n aros yn y llety (byddai angen cydlynu'n sylweddol er mwyn osgoi cynnal archwiliadau ar adeg pan oedd y llety'n cael ei ddefnyddio). Am y rhesymau hyn, nid yw'r opsiwn hwn wedi cael ei ddatblygu i'w ddadansoddi ymhellach.

***Casgliad***

7.35 Wrth ystyried opsiynau, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried effeithiolrwydd a risgiau posibl - yn ogystal â chymesuredd a chostau tebygol - y gwahanol ddulliau a archwiliwyd. At ei gilydd, rydym wedi dod i'r casgliad bod opsiwn 2 yn debygol o gyflawni cynllun trwyddedu digon cadarn nad yw'n rhy feichus i ymgeiswyr ac sy'n cael ei gyllido drwy lefelau ffioedd rhesymol.

7.36 Wrth ddod i'r casgliad hwn, dysgwyd gwersi o adolygiadau diweddar o gynlluniau cyfatebol sydd eisoes ar waith yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

7.37 Er enghraifft, mae cynllun Gogledd Iwerddon yn cynnwys archwiliadau ffisegol sy'n cymryd llawer o amser. Gweinyddir y cynllun trwyddedu yn yr Alban gan bob awdurdod lleol o fewn ei ardal ei hun. Nid yw'n ofynnol cynnal archwiliad ffisegol o'r llety, ac nid yw'r ddeddfwriaeth yn gofyn am dystiolaeth ddogfennol o gydymffurfio â gofynion diogelwch. Fodd bynnag, gall awdurdodau lleol ofyn am dystiolaeth ddogfennol o gydymffurfio, neu gynnal ymweliadau os ydynt o'r farn bod hynny'n angenrheidiol - os oes cwyn neu os canfyddir risg. Roedd adroddiad

gweithredu Awst 2024 ar y cynllun hwnnw yn nodi adborth gan ddarparwyr llety ymwelwyr a oedd yn awgrymu y byddai'n well gan lawer yn y sector gael pwynt ymgeisio canolog gydag un ffurflen gais a ffi ymgeisio benodol, yn hytrach na bod gan bob awdurdod trwyddedu ffurflenni, polisïau trwyddedu a lefelau ffioedd gwahanol. Roedd pryderon hefyd ynghylch yr amser hir a gymerir i brosesu ceisiadau, yn enwedig ar gyfer lletywyr newydd lle na allant dderbyn archebion neu westeion nes iddynt gael trwydded. Ar y llaw arall, mae rhai awdurdodau lleol wedi gofyn am ddiwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn i'r cyfnod prosesu ar gyfer lletywyr newydd gael ei gynyddu.

7.38 Mae'r dystiolaeth o'r ddau ddull hyn wedi arwain Llywodraeth Cymru i ddod i'r casgliad, os ydym am gynyddu lefelau ymgysylltu a chydymffurfio â chynllun trwyddedu yng Nghymru, y bydd yn bwysig osgoi creu prosesau ymgeisio a sicrwydd sy'n cael eu hystyried yn rhy feichus a llafurus gan y sector, neu ar y llaw arall, trefn sy'n cael ei hystyried yn aneffeithiol ac y gellir ei hosgoi'n hawdd o bosibl oherwydd diffyg gorfodi. Rydym yn hyderus bod yr opsiwn rydym yn ei ffafrio yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng:

- dull cymesur o ymdrin â gofynion ymgeisio a sicrwydd;
- trefn orfodi weladwy, effeithiol sy'n seiliedig ar wybodaeth; a
- ffioedd rhesymol sy'n darparu digon o refeniw i'r awdurdod trwyddedu ymgymryd â swm ystyrlon o weithgarwch cydymffurfio yn ogystal â phrosesu ceisiadau ac adnewyddiadau, ac i’r cynllun ddod yn gyfan gwbl hunan-gyllidol.

# 8. Costau a manteision

**Tybiaethau**

- Mae costau a manteision wedi cael eu hasesu dros gyfnod arfarnu o 10 mlynedd, sy'n rhedeg rhwng 2026-27 a 2035-36.
- Mae'r holl gostau a manteision yn eu crynswth wedi cael eu talgrynnu i'r deg mil o bunnoedd agosaf, ond nid yw'r costau i ddarparwyr llety ymwelwyr unigol wedi cael eu talgrynnu. Efallai na fydd rhai o'r cyfansymiau mewn tablau yn cyfateb oherwydd y talgrynnu hwn.
- Mae'r costau a manteision wedi cael eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys Ei Fawrhydi, sef 3.5%.
- Bydd un awdurdod trwyddedu cenedlaethol.
- Darperir cyllid gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2026-27 i 2028-29 i gefnogi sefydlu'r cynllun trwyddedu.
- Rhagwelir y bydd costau datblygu yn gofyn am gyfalaf i raddau helaeth tra bydd y costau gweithredol parhaus yn gostau refeniw.
- Bydd cyflwyno'r cynllun trwyddedu yn dechrau yn ystod blwyddyn ariannol 2028-29 gyda thrwyddedau yn ofynnol yn 2029-30.
- Bydd costau rhedeg y cynllun trwyddedu yn cael eu talu drwy ffioedd trwydded, a bennir ar sail adennill costau. Bydd derbyniadau o hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu defnyddio i dalu costau gorfodi'r awdurdod trwyddedu.
- Amcangyfrifwyd costau ar sail profiad cynlluniau tebyg, lle'r oeddent ar gael. Fodd bynnag, gall manteisio ar ddeallusrwydd artiffisial a swyddogaethau digidol leihau costau gweithredol, a'r baich ar ddarparwyr llety ymwelwyr, ond mae'n bosibl y bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer datblygu.
- Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar nifer cyffredinol y safleoedd hunanarlwyo a darparwyr llety yn aros yn gyson.

**Amcangyfrif maint y sector llety ymwelwyr hunanddarpar**

8.1 Yr her amlwg wrth amcangyfrif maint y sector yw prinder data dibynadwy sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch nifer y llety hunanddarpar sydd ar gael yng Nghymru a nifer y gweithredwyr sy'n gyfrifol am y llety hwnnw. Fel y cydnabuwyd yn ystod hynt Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), bydd y gofynion cofrestru yn y ddeddfwriaeth honno,

dros amser, yn rhoi darlun llawer cliriach o faint a chyfansoddiad y sector yng Nghymru. Fodd bynnag, yn absenoldeb data o'r fath, mae'r tybiaethau cost yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi cael eu llywio drwy gyfeirio at y ffynonellau a ganlyn.

8.2 Mae'r amcangyfrifon isel yn adran Costau i Ddarparwyr Llety Ymwelwyr yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar ddata a gyhoeddwyd yn y data stoc welyau yn y *Crynodeb o Ddata ynghylch Stoc Welyau Cymru* ym mis Awst 2022. Casglwyd data ynghylch y stoc welyau gan awdurdodau lleol yng Nghymru gan ddefnyddio holiadur safonol a diffiniadau. Nododd yr arolwg 12,145 o sefydliadau llety hunanddarpar yng Nghymru (72% o gynnydd mewn llety hunanddarpar ers 2013). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys bythynnod a chalets, yn ogystal â thai, byngalos a fflatiau. Mae'r ffaith bod nifer y sefydliadau a gofnodwyd yn yr arolwg stoc welyau yn sylweddol is na'r ffynonellau eraill a ystyrir yn y paragraffau a ganlyn yn dangos cyfyngiadau dull arolwg traddodiadol ar sail holiadur wrth ymgysylltu â sector sy'n newid yn gyflym, sy'n anffurfiol yn bennaf, heb ei reoleiddio i raddau helaeth, ac sy'n gweithredu bron yn gyfan gwbl drwy blatfformau ar-lein trydydd parti yn hytrach nag arferion busnes sefydledig. Mae adroddiad cryno 2022 yn cydnabod y cyfyngiadau hyn, gan nodi yr "*ymchwilir i ddulliau casglu data amgen ar gyfer arolygon stoc welyau yn y dyfodol er mwyn cael darlun mwy cyflawn ac amserol o'r cyflenwad o lety ymwelwyr*". Felly, er bod ffigurau'r arolwg stoc gwelyau wedi cael eu defnyddio i lywio'r amcangyfrifon isel sydd wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, dylid trin y ffigurau hyn yn ofalus gan eu bod yn debygol o fod yn sylweddol is na maint gwirioneddol y sector.

8.3 Ffynhonnell arall o wybodaeth yw'r rhestr Ardrethi Annomestig, sy'n dangos 9,270 eiddo trethadwy ar y rhestr yng Nghymru ar 31 Mawrth 2025. Ni fydd pob llety gwyliau hunanddarpar yn gymwys i dalu ardrethi annomestig yn hytrach na'r Dreth Gyngor - er enghraifft, lle nad yw'r eiddo'n cyrraedd y trothwy o ran nifer y diwrnodau, neu lle mae rhywun yn gosod ei brif breswylfa am gyfnod byr, felly nid yw hyn yn rhoi amcangyfrif o gyfanswm y llety gwyliau.

8.4 Fe wnaethom hefyd ystyried adroddiad Ail gartrefi: Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023. Roedd y cyhoeddiad hwn yn cynnwys amcangyfrif o gyfanswm nifer yr eiddo unigryw a hysbysebwyd fel llety gosod tymor byr yng Nghymru yn 2022, sef 33,367.

8.5 Ffynhonnell ddata fwy diweddar yw *Lighthouse Hosts, listings and bed spaces of short-term lets through online collaborative economy platforms, UK,* sy'n amcangyfrif bod nifer y gosodiadau tymor byr mewn eiddo hunangynhwysol (ac eithrio ystafelloedd mewn eiddo a rennir) yng

Nghymru ym mis Mehefin 2025 yn 37,357 drwy Visit Britain. Fodd bynnag, wrth edrych yn fanylach ar ddata Lighthouse, nodwyd yn flaenorol nad oedd tua 20% o eiddo a restrwyd wedi cael eu gosod yn ystod y 12 mis blaenorol a'u bod yn bennaf yn cynrychioli llety a hysbysebwyd ar gyfer digwyddiadau mawr ac na chawsant eu dileu wedyn.

8.6 Yn olaf, fe wnaethom ystyried rhifyn Mai 2024 o *ddadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o lety gosod tymor byr sydd wedi ei restru ar blatfformau economi gydweithredol ar-lein (Airbnb, Booking.com ac Expedia)* Hosts listings and bedspaces of short term lets sy'n rhoi amcangyfrif o 50,700 o lety gosod tymor byr yng Nghymru yn ystod y tymor tawel (Ionawr) hyd at benllanw tymor prysur o 56,440 ym mis Awst. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ystafelloedd unigol yn ogystal ag eiddo cyfan, ond nid ydynt yn cynnwys mathau eraill o lety, fel gwestai neu safleoedd gwersylla. Fodd bynnag, yn wahanol i'r data uchod gan Lighthouse, nid yw'r ffynhonnell ddata hon yn dad-ddyblygu ar draws sianeli archebu felly bydd y rhif hwn yn oramcangyfrif.

8.7 Er gwaethaf gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon o nifer y safleoedd, mae pob un o'r ffynonellau uchod yn cofnodi twf sylweddol yn y sector dros y blynyddoedd diwethaf (er bod nifer yr eiddo sy'n cofrestru ar gyfer ardrethi annomestig bellach wedi sefydlogi - oherwydd newidiadau diweddar mewn cymhwystra, mae'n debygol). Roedd ymchwil a gynhaliwyd gan Inside Airbnb yn 2022 ar ran Sefydliad Bevan hefyd wedi cofnodi 45% o gynnydd mewn llety gosod tymor byr a restrwyd yng Nghymru rhwng 2018 a 2022. Mewn cymhariaeth, roedd nifer y gwestai, tai llety a llety hamdden eraill wedi aros yn sefydlog rhwng 2013-14 a 2022-23, gyda thua 600 o westai ac 800 o dai llety wedi eu rhestru bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae natur amrywiol iawn y farchnad llety gosod tymor byr, gydag eiddo'n dod ar y farchnad ac yn diflannu'n aml drwy gydol y flwyddyn, yn ei gwneud yn anodd rhagweld ymddygiad y farchnad yn y dyfodol yn gywir ar sail data tueddiadau hanesyddol.

8.8 Mae datblygu amcangyfrif cywir o nifer y *darparwyr* llety hunanddarpar i ymwelwyr yng Nghymru yn dal i fod yn fwy heriol. O'r ffynonellau uchod, dim ond y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n cynnwys amcangyfrifon o nifer y 'lletywyr'. Amcangyfrifwyd yn natganiadau'r SYG ar gyfer blwyddyn galendr 2023 fod 22,040 o 'letywyr' yn darparu llety tymor byr i ymwelwyr yng Nghymru ym mis Ionawr y flwyddyn honno, gyda'r duedd yn dangos cynnydd graddol drwy gydol y flwyddyn i 26,990 ym mis Rhagfyr. Fodd bynnag, mae datganiad y SYG yn nodi ei bod yn debygol y bydd dyblygu yn y ffigurau hyn oherwydd y posibilrwydd y bydd rhai lletywyr yn hysbysebu ar nifer o sianeli ac felly dylai'r rhain gael eu hystyried yn derfyn uchaf, a gall nifer y lletywyr unigryw fod yn llawer is.

8.9 Nododd yr ymchwil a gynhaliwyd gan Inside Airbnb ar ran Sefydliad Bevan fod 56% o letyau gosod tymor byr yng Nghymru yn cael eu rheoli gan letywyr gyda dau neu ragor o safleoedd wedi eu rhestru ar wahân (ffigur a oedd yn cynnwys unigolion yn ogystal ag asiantaethau rheoli proffesiynol). Canfu'r un ymchwil honno hefyd fod nifer sylweddol o letyau gosod tymor byr yng Nghymru wedi eu rhestru gan nifer cymharol fach o asiantaethau proffesiynol (er enghraifft, nodwyd saith asiantaeth oedd â mwy na 100 eiddo yr un - tua 26% o gyfanswm y rhestr). Mae'r data a gyhoeddwyd gan y SYG yn cefnogi rhagdybiaeth bod gan ddarparwr 'nodweddiadol' ddau lety hunanddarpar i ymwelwyr, gyda nifer y rhestrau'n gyson ychydig dros ddwywaith nifer y 'lletywyr' a nodwyd ar gyfartaledd. Rydym yn derbyn bod hyn yn symleiddio pethau'n sylweddol, o ystyried yr amrywiaeth eang.

**Casgliad**

8.10 O ystyried y cyfyngiadau yn y data sydd ar gael a ddisgrifir uchod, a'r ansicrwydd canlyniadol ynghylch maint a chyfansoddiad y sector yng Nghymru, mae tair set o amcangyfrifon costau wedi cael eu darparu yn adran *Costau i Ddarparwyr Llety Ymwelwyr* yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn isod:

- amcangyfrif isel yn seiliedig ar dybiaeth o 12,000 o safleoedd llety ymwelwyr hunanddarpar yng Nghymru, yn unol â ffigur yr arolwg Stoc Welyau;

- amcangyfrif uchel o 37,000, ar sail ffigurau Lighthouse; ac

- amcangyfrif gorau o 30,000, yn seiliedig ar ffigurau Lighthouse (ond wedi eu lleihau i ystyried yr 20% o 'rith-restrau' a nodwyd yn flaenorol).

8.11 Mewn perthynas â phob un o'r amcangyfrifon hyn, rydym wedi tybio ymhellach bod gweithredwr nodweddiadol yng Nghymru yn gyfrifol am ddau safle llety hunanddarpar i ymwelwyr. Mae hyn yn cyfateb i amcangyfrif isel o 6,000 o weithredwyr; amcangyfrif uchel o 18,500, ac amcangyfrif gorau o 15,000 o weithredwyr.

8.12 Er bod cynnwys amcangyfrifon isel ac uchel yn adrannau canlynol y ddogfen hon yn arwain at amrywiaeth eang o gostau posibl, ein rhagdybiaeth ymarferol yw bod yr amcangyfrif gorau yn rhoi brasamcan rhesymol o beth allai'r costau tebygol fod yn ymarferol. Mae'r amcangyfrif gorau hwn hefyd yn cydnabod, er bod gwir nifer y safleoedd a gweithredwyr hunanddarpar o bosibl yn uwch nag amcangyfrif Lighthouse, mae'n bosibl y bydd rhai darparwyr llety anaml yn dewis gadael y sector ar ôl i'r cynllun trwyddedu gael ei gyflwyno.

8.13 Ar gyfer yr asesiad hwn, rydym wedi tybio nad yw nifer yr eiddo a'r darparwyr yn newid dros amser: bydd data gwell ar gael ar ôl cofrestru, ac mae unrhyw dwf neu ostyngiad yn debygol o fod o fewn ein hamrediadau isel i uchel.

## Costau Trosiannol

### Costau i Lywodraeth Cymru

8.14 Bydd costau trosiannol wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r staffio a'r seilwaith sydd eu hangen i sefydlu'r cynllun trwyddedu a chynorthwyo'r gwaith o'i gyflwyno, gan gynnwys datblygu canllawiau ac ymgyrch gyfathrebu cyn i'r gofynion trwyddedu ddod i rym er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun ymysg darparwyr, ymwelwyr a'r cyhoedd yn ehangach.

#### *Cost sefydlu'r cynllun trwyddedu*

8.15 Bydd yr ateb digidol sylfaenol yn elfen allweddol o'r costau trosiannol. Bydd hyn yn cael ei benderfynu ar ôl i bensaer systemau gwmpasu gofynion y system ac ar y cyd â phenderfyniadau ynghylch ymgymryd â swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu. Mae £0.43m wedi’i ddarparu i ACC yn 2025-26 i’w helpu â gwaith darganfod ar gyfer y system drwyddedu gan gynnwys rhyngweithio â Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025. Gall y gost o sefydlu system TG amrywio’n fawr o amcangyfrifon cynnar. Gan hynny, bydd yr amcangyfrifon o gostau isod yn cael eu mireinio dros y flwyddyn nesaf. Bydd diogelwch a chadernid data yn ffactor allweddol wrth ddod i'r penderfyniad hwn, yn ogystal â gwerth am arian.

8.16 Bydd yr ateb digidol ar gyfer y cynllun trwyddedu yn manteisio ar synergeddau posibl â system cofrestru llety ymwelwyr ACC, felly disgwylir y bydd arbedion effeithlonrwydd wrth i ACC ddatblygu'r system drwyddedu hefyd. Fel arall, gallai'r awdurdod trwyddedu gaffael system wedi ei theilwra o'r farchnad, a allai gymryd mwy o amser oherwydd amserlenni caffael.

8.17 Ar y cyfan, nid yw'r costau trosiannol hyn yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan nifer y darparwyr llety, sy'n cynrychioli mwy o gost sefydlog waeth beth fo'r raddfa. Yn lle hynny, mae prif ysgogwyr cost y seilwaith TG yn cynnwys cwmpas y system, er enghraifft y graddau y mae’n awtomeiddio gwaith prosesu ceisiadau, ac argaeledd staff arbenigol yn hytrach na dibynnu ar gontractwyr.

8.18 Mae'r amcangyfrifon isod yn tybio cymysgedd o staff mewnol - gan gynnwys recriwtiaid ychwanegol - a chontractwyr sydd â sgiliau TG penodol i adeiladu'r systemau digidol gofynnol, er mai dim ond yn ystod y cyfnod sefydlu y bydd angen y swyddi hyn. Amcangyfrifwyd costau ar sail

profiad o gynlluniau tebyg, lle bônt ar gael. Fodd bynnag, gall manteisio ar ddeallusrwydd artiffisial a swyddogaethau digidol leihau costau gweithredol a'r baich ar ddarparwyr llety ymwelwyr, ond o bosibl gynyddu'r costau datblygu, sy'n golygu bod angen cyllid ychwanegol ar gyfer datblygu.

8.19 Mae'r tablau a ganlyn yn nodi amcangyfrifon isel, uchel a gorau ar gyfer y cyfnod sefydlu hwn. Rydym yn disgwyl bod yr amcangyfrif gorau yn rhoi brasamcan rhesymol o'r costau trosiannol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr ansicrwydd yn y costau hyn ar hyn o bryd, a byddant yn cael eu mireinio drwy waith darganfod a dylunio i gwmpasu'r gofynion ar gyfer darparu'r system ddigidol ymhellach.

**Tabl 1 – Amcangyfrif isel**

| **Costau trosiannol £'m** | | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu seilwaith | | 1.22 | 1.40 | 0.30 | **2.92** |
| **Refeniw** | | | | | |
| Costau yn gysylltiedig â TG | | 0.36 | 0.36 | 0.38 | **1.10** |
| Datblygu hyfforddiant i ddarparwyr | | - | 0.05 | - | **0.05** |
| Ymgyrchoedd a Chyfathrebu | | 0.10 | 0.10 | 0.15 | **0.35** |
| Costau staff Awdurdod Trwyddedu | | - | - | 0.66 | **0.66** |
| **Cyfanswm y costau refeniw** | | **0.46** | **0.51** | **1.19** | **2.16** |
| Costau cyfle (staff LIC) | | 1.08 | 1.16 | 0.19 | **2.43** |
| **CYFANSWM Y COSTAU** | | **2.76** | **3.06** | **1.68** | **7.50** |

**Tabl 2 – Amcangyfrif uchel**

| **Costau trosiannol £'m** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu seilwaith | 1.94 | 1.91 | 0.40 | **4.25** |
| **Refeniw** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Costau yn gysylltiedig â TG | 0.41 | 0.41 | 0.44 | **1.25** |
| Datblygu hyfforddiant i ddarparwyr | - | 0.08 | - | **0.08** |
| Ymgyrchoedd a Chyfathrebu | 0.10 | 0.10 | 0.20 | **0.40** |
| Costau staff Awdurdod Trwyddedu | - | - | 1.29 | **1.29** |
| **Cyfanswm y costau refeniw** | **0.51** | **0.59** | **1.93** | **3.02** |
| Costau cyfle (staff LIC) | 1.08 | 1.16 | 0.19 | **2.43** |
| **CYFANSWM Y COSTAU** | **3.52** | **3.66** | **2.52** | **9.70** |

**Tabl 3 – Amcangyfrif gorau**

| **Costau trosiannol £'m** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu seilwaith | 1.78 | 1.81 | 0.35 | **3.93** |
| **Refeniw** | | | | |
| Costau yn gysylltiedig â TG | 0.39 | 0.39 | 0.42 | **1.19** |
| Datblygu hyfforddiant i ddarparwyr | - | 0.08 | - | **0.08** |
| Ymgyrchoedd a Chyfathrebu | 0.10 | 0.10 | 0.20 | **0.40** |
| Costau staff Awdurdod Trwyddedu | - | - | 1.13 | **1.13** |
| **Cyfanswm y costau refeniw** | **0.49** | **0.57** | **1.75** | **2.80** |
| Costau cyfle (staff LIC) | 1.08 | 1.16 | 0.19 | **2.43** |
| **CYFANSWM Y COSTAU** | **3.34** | **3.53** | **2.29** | **9.16** |

***Costau eraill***

8.20 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn datblygu deunyddiau hyfforddi a chanllawiau ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr cyn lansio'r cynllun. Mae'r amcangyfrifon yn cynnwys £50,000 - £80,000 yn 2027-28 ar gyfer y gwaith hwn.

8.21 Bydd angen i ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n ddarostyngedig i'r gofynion trwyddedu fod yn ymwybodol o'r polisi, yr amserlenni dan sylw a pha gamau sy'n ofynnol ganddynt. Bydd angen cyfathrebu'n barhaus yn ystod y cyfnod gweithredu hollbwysig, gan gynnwys egluro gofynion y cynllun cyn i'r cynllun fynd yn fyw er mwyn i ddarparwyr llety allu sicrhau bod eu

safleoedd yn cyrraedd y safonau gofynnol a bod ganddynt y dystiolaeth angenrheidiol.

8.22 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn defnyddio cymysgedd o sianeli cyfathrebu presennol fel gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus, cylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â'r diwydiant twristiaeth, i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu'n gynhwysfawr, ond bydd hynny hefyd yn arwain at gostau ar gyfer sianeli cyfathrebu y telir amdanynt. Mae’r asesiad yn caniatáu £100,000 yn 2026-27 a 2027-28 a £150,000 i 200,000 yn 2028-29 ar gyfer ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd, ymchwil gynhwysfawr i gynulleidfaoedd, dewis sianeli strategol, a gwerthuso, a bydd yr awdurdod trwyddedu yn gweithio gyda Croeso Cymru ac ACC i sicrhau gwerth am arian. Ar ôl i ddarparwyr gwblhau proses gofrestru, dylai'r awdurdod trwyddedu gael cyfle i gyfathrebu'n uniongyrchol â hwy.

8.23 Bydd cyfathrebu effeithiol yn sicrhau lefelau uchel o gydymffurfedd gwirfoddol, yn lleihau costau gorfodi ac yn cynnal cysylltiadau cadarnhaol â'r diwydiant.

***Costau staff – awdurdod trwyddedu***

8.24 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn recriwtio ac yn hyfforddi ei staff gweithredol cyn lansio'r cynllun. Bydd yr adnoddau sydd eu hangen yn cael eu mireinio yng ngoleuni'r amser prosesu sydd ei angen (a fydd yn ei dro yn dibynnu ar yr ateb digidol a hefyd ar nifer y safleoedd sydd i'w trwyddedu). Trafodir yr amrywiad hwn yn yr adran *Costau Rheolaidd* isod, gan nad yw'n cael fawr o effaith cyn lansio'r cynllun.

***Costau staff – Llywodraeth Cymru***

8.25 Mae’r costau trosiannol uchod yn cynnwys costau staff Llywodraeth Cymru ei hun - er enghraifft, wrth ddatblygu'r polisi a'r cynlluniau gweithredu cychwynnol, a chynorthwyo Gweinidogion drwy hynt y rheoliadau sy’n gysylltiedig â’r Ddeddf. Costau cyfle yw'r rhain, oherwydd mae'r staff eisoes yn cael eu cyflogi, ond fel arall gallent weithio ar feysydd blaenoriaeth eraill. Mae'r costau hyn wedi eu dangos yn y tablau uchod.

## Costau i ddarparwyr llety ymwelwyr

8.26 Bydd gweithredwyr sy'n dymuno darparu llety hunanddarpar i ymwelwyr yng Nghymru yn wynebu costau cyfle untro ychwanegol pan ddaw darpariaethau'r ddeddfwriaeth hon i rym. Bydd y rhain yn cynnwys ymgyfarwyddo â gofynion cyfreithiol y cynllun ac ymgymryd â hyfforddiant; sicrhau bod llety'n cydymffurfio â gofynion trwyddedu a chwblhau'r broses ymgeisio, gan gynnwys lanlwytho tystiolaeth ddogfennol - er enghraifft, tystysgrifau. Er y bydd rhai o'r gweithgareddau hyn yn rhai rheolaidd i

ddarparwyr sy'n gweithredu'n rheolaidd neu'n barhaus, bydd yr amser a gymerir i gyflwyno ceisiadau dilynol i adnewyddu trwyddedau'n flynyddol a lanlwytho tystysgrifau newydd, neu i ymgymryd â hyfforddiant 'diweddaru' ar ôl hynny yn fyrrach, ac felly bydd y costau cysylltiedig i weithredwyr yn is na'r rhai cychwynnol. Mae'r paragraffau perthnasol yn yr adran *Costau Rheolaidd* isod yn adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn.

8.27 Mae'r gofynion a ganlyn wedi cael eu nodi fel rhai angenrheidiol ar gyfer gweithredwr sy'n dymuno trwyddedu llety hunanddarpar i ymwelwyr am y tro cyntaf. Mae costiad dangosol hefyd wedi ei gynnwys mewn perthynas â phob un o'r canlynol:

***Amser darparwr a dreulir yn ymgyfarwyddo â gofynion y cynllun trwyddedu ac yn cwblhau hyfforddiant gorfodol***

8.28 Erbyn i'r gofynion trwyddedu yn y Ddeddf hon ddod i rym, dylai darparwyr llety ymwelwyr eisoes fod wedi eu cofrestru yn unol â gofynion Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). Bydd y gronfa ddata o ddarparwyr llety ymwelwyr cofrestredig a llety yn galluogi'r awdurdod trwyddedu i gysylltu'n rhagweithiol â darparwyr cofrestredig mewn da bryd cyn i'r gofynion trwyddedu yn y Ddeddf hon ddod i rym i dynnu eu sylw at yr angen i gael eu trwyddedu a'r amserlenni gofynnol ar gyfer cyflwyno eu ceisiadau, yn ogystal â'u cyfeirio at borth trwyddedu, hyfforddiant a gwybodaeth ar-lein yr awdurdod trwyddedu.

8.29 Bydd angen i'r ymgeisydd fodloni'r gofyniad hyfforddi cyn y gellir rhoi trwydded. Pan fydd angen iddo ymgymryd â hyfforddiant, codir ffi arno. Er mai mater i'r awdurdod trwyddedu neu ddarparwr hyfforddiant arall fydd pennu ei ffioedd ei hun, rydym yn disgwyl i'r hyfforddiant cychwynnol fod yn fyrrach ac i'r ffioedd fod yn is na'r £35 a delir ar hyn o bryd gan landlordiaid preifat am yr hyfforddiant sy'n ofynnol o dan gynllun Rhentu Cartrefi Cymru. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi cynnwys amcangyfrif o ffi hyfforddi o £25 fesul ymgeisydd.

8.30 Bydd costau cyfle hefyd i ymgeiswyr mewn perthynas â'u hamser. Rydym yn rhagweld y bydd cyfanswm o bedair awr, yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd ymgeisydd sy'n defnyddio'r porth trwyddedu am y tro cyntaf yn cymryd 30 munud ar gyfartaledd i ymgyfarwyddo â phwrpas a gofynion y cynllun ac i archebu sesiwn hyfforddi ar-lein, yn ogystal â 3 awr a hanner arall i gwblhau'r modiwl hyfforddi. Gan hynny, rydym yn amcangyfrif bod cost cyfle oddeutu £65 ar sail ffigur o £16.33 yr awr ar gyfartaledd (yn seiliedig ar enillion gros canolrifol fesul awr ar gyfer 'rheolwyr a pherchnogion gwestai a llety' ar lefel y Deyrnas Unedig, sef £16.33, o Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion y SYG), gan roi cyfanswm cost fesul ymgeisydd o £90.

***Cais cychwynnol***

8.31 Mater i'r awdurdod trwyddedu fydd pennu ffioedd - y lefelau a'r strwythur - ar sail y pwerau yn y Ddeddf. Fodd bynnag, at ddibenion darparu

amcangyfrif dangosol o'r costau, mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar yr un ffi flynyddol i bob llety hunanddarpar sy'n cael ei drwyddedu, waeth a yw hynny ar y cais cychwynnol. Ar gyfer blynyddoedd cyntaf gweithredu'r cynllun, rydym yn disgwyl i'r ffi gyfartalog ar gyfer llety ymwelwyr hunanddarpar fod oddeutu £75 y flwyddyn fesul safle, fel yr eglurhad isod.

8.32 Wrth gyflwyno cais am drwydded am y tro cyntaf, bydd gofyn i ymgeiswyr lanlwytho tystiolaeth bod safonau ffitrwydd penodol yn cael eu bodloni i'r porth trwyddedu, mewn perthynas â phob safle sy'n cael ei drwyddedu. Er enghraifft, sicrwydd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol. Rydym yn disgwyl y bydd copïau electronig o ddogfennau polisi perthnasol, tystysgrifau, adroddiadau, neu dystiolaeth arall megis derbynebau, anfonebau a ffotograffau o osodiadau perthnasol yn cael eu derbyn gan yr awdurdod fel prawf o gydymffurfio, a bydd y Ddeddf yn caniatáu i unrhyw newidiadau yn y dyfodol o ran gofynion a gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu i gael eu hymgorffori.

8.33 Yn yr un modd â'r gofyniad hyfforddiant, rydym yn cydnabod, yn ogystal â'r ffi ei hun, y bydd costau cyfle i geisyddion o ran yr amser sydd ei angen i ddod o hyd i ddogfennau perthnasol a'u llwytho i fyny a chwblhau'r broses ymgeisio. Ar sail tystiolaeth o gynlluniau trwyddedu ac achredu tebyg mewn mannau eraill, rydym yn rhagweld, yn achos ceisydd sy'n cwblhau cais am y tro cyntaf, y bydd y broses - gan gynnwys lanlwytho dogfennau - yn cymryd tua 30 munud ar gyfer un safle, ac oddeutu 15 munud ar gyfer pob safle ychwanegol ar ôl hynny (er y bydd rhai ceisyddion yn cymryd mwy o amser a rhai yn cymryd llai o amser i gwblhau'r broses). Ar sail ffigur enillion cyfartalog fesul awr o £16.33, mae hyn yn cyfateb i gost cyfle o ychydig dros £8 i geisydd sy'n trwyddedu un safle; £12 i ddau safle, a £29 i chwe safle.

8.34 Mae'n debygol y bydd cost cyfle ychwanegol fach i ddarparwyr y mae angen iddynt wneud cais am drwydded dros dro fel y gallant hysbysebu a derbyn archebion cyn y gallant fodloni'r gofynion cymeradwyaeth ar gyfer trwydded lawn. Ein bwriad yw gofyn am yr wybodaeth unwaith yn unig pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, felly rydym yn disgwyl i'r gost fod yn fach iawn. Ni fydd angen y broses hon ond ar gyfer darparwyr sy'n ymuno â'r farchnad sy'n adeiladu neu ailwampio eu llety, ac felly'n methu dangos eu bod yn bodloni'r safonau angenrheidiol ar y pryd – felly bydd nifer y darparwyr y mae'r gost cyfle ychwanegol yn berthnasol iddynt yn fach. O ystyried y disgwyliadau hyn ac ansicrwydd ynghylch nifer y darparwyr, nid yw'r dadansoddiad hwn yn ceisio meintioli'r gost cyfle sy'n gysylltiedig â thrwyddedau dros dro.

### *Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus*

8.35 Ymysg yr amodau trwyddedu a gyflwynir gan y Ddeddf hon mae gofyniad ar ddarparwyr i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol presennol mewn perthynas â diogelwch nwy, trydan a thân (gweler isod am ragor o fanylion). Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys gofyniad bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn grym ar gyfer llety

trwyddedig. Rydym yn disgwyl y bydd yswiriant mewn grym yn barod mewn llawer o achosion. Er enghraifft, mae nifer o'r platfformau rhestru mwyaf poblogaidd, gan gynnwys Booking.com ac Airbnb, yn cynnwys yswiriant atebolrwydd yn eu costau aelodaeth. Fodd bynnag, ar gyfer y darparwyr hynny nad oes ganddynt bolisïau yswiriant addas ar hyn o bryd - ac ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r sector ar ôl i'r darpariaethau hyn ddod i rym nad oes ganddynt yswiriant cyflenwol ar hyn o bryd - bydd hyn yn gost ychwanegol. Mae yswiriant sylfaenol ar gyfer adeiladau a chynnwys fel arfer yn costio rhwng £200 a £300 y flwyddyn yn ogystal ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, gyda pholisïau mwy cynhwysfawr yn costio rhwng £500 ac £800 y flwyddyn. Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth bod 75% o ddarparwyr yn hyrwyddo eu llety trwy blatfformau ar-lein (gweler paragraff 3.19), a'r ffaith bod y platfformau rhestru mwyaf poblogaidd, gan gynnwys Booking.com ac Airbnb, yn cynnwys yswiriant atebolrwydd yn eu costau aelodaeth, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi tybio y bydd gan 75% o ddarparwyr ddarpariaeth eisoes, ac ar gyfer y gweddill, y gost gyfartalog ar gyfer dau safle fydd £500 y flwyddyn. Mae hyn yn elfen sylweddol o'r costau a osodir ar ddarparwyr gan y cynllun, ond bydd yn diogelu ymwelwyr ac yn gwella hyder ymwelwyr ac wrth gwrs dylai'r polisi fod o fudd i'r darparwr os yw'n wynebu hawliad.

***Cyfanswm costau posibl ar gyfer darparwr llety ymwelwyr nodweddiadol***

8.36 Ar gyfer gweithredwr nodweddiadol sydd â dau safle llety hunanddarpar i ymwelwyr, gydag yswiriant eisoes mewn grym, rydym yn amcangyfrif y byddai cost gyfun ffioedd ar gyfer hyfforddiant a gwneud cais am drwydded yn £175, ynghyd â chostau cyfle cysylltiedig o £78, gan gyrraedd cyfanswm o tua £253. Ar gyfer darparwr nad yw eisoes ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, rydym yn tybio y bydd cost polisi gyfartalog (ar gyfer dau safle) yn £500 y flwyddyn.

8.37 Mae amcangyfrifon o ffioedd trwydded blynyddol, yswiriant, a ffioedd ar gyfer diweddaru hyfforddiant bob pum mlynedd, wedi eu cynnwys yn yr adran *Costau Rheolaidd* isod.

***Amcangyfrif o'r gost gyffredinol i'r sector***

8.38 Mae amcangyfrifon isel, uchel a gorau o gostau trosiannol y cynllun hwn i'r sector llety hunanddarpar yng Nghymru ar gael yma:

- Ein **hamcangyfrif isel,** sy’n tybio bod 12,000 o safleoedd llety ymwelwyr yn cael eu trwyddedu gan 6,000 o ddarparwyr yn y flwyddyn gyntaf, yw **£2.27 miliwn.**

- Mae ein **hamcangyfrif uchel** yn tybio bod 37,000 o safleoedd yn cael eu trwyddedu yn ystod y flwyddyn gyntaf gan 18,500 o ddarparwyr, gan gostio **£6.98 miliwn** i'r sector.

- Mae ein **hamcangyfrif gorau** yn tybio bod 30,000 o safleoedd yn cael eu trwyddedu yn ystod y flwyddyn gyntaf gan 15,000 o ddarparwyr, gan gostio **£5.66 miliwn** i'r sector.

8.39 Mae'r holl amcangyfrifon hyn yn tybio na fydd gan 25% o ddarparwyr yswiriant ac y bydd cost ychwanegol flynyddol yr yswiriant yn £500 i'r darparwyr hynny.

8.40 Rydym yn disgwyl bod yr amcangyfrif gorau yn rhoi brasamcan rhesymol o'r costau trosiannol tebygol i'r sector. Gallai rhywfaint o’r costau hyn gael eu hysgwyddo yn ystod 2028-29, ond rydym yn disgwyl i ran fwyaf y costau gael eu hysgwyddo yn ystod 2029-30 pan ddaw trwyddedu ar gyfer llety hunanddarpar yn orfodol.

## Costau Rheolaidd

8.41 Bydd costau gweithredol parhaus i'r awdurdod trwyddedu unwaith y bydd y system drwyddedu yn weithredol.

8.42 Bydd costau hefyd i ddarparwyr llety hunanddarpar i ymwelwyr yng Nghymru, a fydd yn amrywio yn ôl nifer o ffactorau, fel y nodir isod.

### Yr awdurdod trwyddedu

8.43 Y tu hwnt i'r costau sefydlu cychwynnol a ddisgrifir uchod, bydd yr awdurdod trwyddedu yn wynebu costau gweithredol parhaus wrth reoli'r cynllun ar ôl i'r gofynion ddod i rym. Bydd y costau hyn ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys darparu hyfforddiant yn uniongyrchol, neu sicrhau ansawdd deunyddiau a ddatblygir gan ddarparwyr hyfforddiant eraill; prosesu ceisiadau trwyddedu; a gweithgareddau cydymffurfio a gorfodi.

8.44 Fel yr amlinellwyd uchod, bydd ymchwiliad i amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â gofynion ac amodau trwyddedu - ynghyd â chamau a gymerir i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio lle cadarnheir hynny - yn cael eu cynnal gan yr awdurdod trwyddedu mewn partneriaeth â gwasanaethau tai a/neu iechyd yr amgylchedd perthnasol yr awdurdod lleol a chyrff rheoleiddio priodol eraill fel rhan o'u swyddogaethau presennol ar sail adennill costau.

8.45 Dros amser, disgwylir y bydd ffioedd trwyddedu yn talu costau gweithredu'r cynllun yn llawn, a disgwylir y bydd costau camau gorfodi angenrheidiol yn cael eu talu o gosbau penodedig cysylltiedig, er efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ychwanegu cyllid, yn enwedig ar y

cychwyn. Bydd yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu bennu ei ffïoedd yn unol â Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009, a bydd yn gallu penderfynu ar strwythur priodol ffioedd yn ogystal â lefelau angenrheidiol y taliadau a godir. Tan fydd y cynllun trwyddedu yn cyllido ei hun yn llawn, pennir ffioedd ar lefel sy'n adlewyrchu'r amcangyfrifon gorau o gostau'r cynllun.

8.46 Mae Tabl 4 a'r paragraffau isod yn rhoi trosolwg enghreifftiol o gost gweinyddu ceisiadau:

**Tabl 4: Costau gweithredol yr Awdurdod Trwyddedu yn 2029-30**

| **£'m** | **Isel** | **Gorau** | **Uchel** |
|---|---:|---:|---:|
| Costau staff | 0.82 | 1.47 | 1.66 |
| Costau nad ydynt yn gostau staff | 0.38 | 0.42 | 0.44 |
| **CYFANSWM Y COSTAU** | **1.20** | **1.88** | **2.10** |

8.47 Mae'r costau staff hyn yn seiliedig ar amcangyfrif o amseroedd prosesu gan Rhentu Doeth Cymru, ac yn ystyried gwahaniaethau yn nifer y safleoedd, y fethodoleg a lefel y gwiriadau cydymffurfio. Bydd y costau gwirioneddol yn amrywio yn dibynnu ar y cyrff sy'n cyflawni swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu a faint o awtomeiddio y mae'n bosibl ei ymgorffori yn y systemau sicrwydd. Er bod y costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar ragdybiaeth o wiriadau â llaw, ein huchelgais yw defnyddio Deallusrwydd Artiffisial cyn belled ag y bo modd i wirio'r dogfennau a gyflwynwyd. Mae ACC yn cynnal ymarfer i gwmpasu'r posibiliadau a byddwn yn diweddaru'r amcangyfrifon ar ôl i hwnnw gael ei gwblhau.

8.48 Gall costau amrywio hefyd yn ôl nifer yr eiddo trwyddedig a darparwyr llety ymwelwyr. Mae'r costau staff tebygol yn seiliedig ar 30,000 o safleoedd, a thîm tybiedig o 30-35 aelod o staff. Dylai'r ystod hon hefyd fod yn ddigonol ar gyfer yr amcangyfrif uchel o 37,000 o safleoedd. Byddai angen tîm llawer llai o oddeutu 15 ar gyfer yr amcangyfrif isel o 12,000 o safleoedd, gyda gostyngiad cyfatebol mewn costau.

8.49 Bydd costau nad ydynt yn gostau staff yn cynnwys offer canolfan gyswllt ar gyfer y ddesg gymorth a chostau cymorth TG, datblygu, lletya a diogelwch. Mae'r costau hyn yn gymharol sefydlog, ni waeth faint o safleoedd trwyddedig sydd.

***Amcangyfrif y ffi drwyddedu flynyddol***

8.50 O ystyried yr ansicrwydd a ddisgrifir uchod mewn perthynas â faint o lety hunanddarpar i ymwelwyr sydd yng Nghymru, a nifer y darparwyr, mae'r

amcangyfrifon a ganlyn o ffioedd trwyddedu blynyddol posibl wedi eu cynnwys ar sail ddangosol yn unig.

8.51 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn nodi costau ymylol uniongyrchol i'r awdurdod trwyddedu. Er mwyn rhoi darlun rhesymol ofalus o ffi'r drwydded yn 2029, rydym wedi darparu ar gyfer chwyddiant dros y pedair blynedd nesaf ac wedi cynnwys elfen ar gyfer eitemau digwyddiadol.

8.52 Ar sail ein hamcangyfrif gorau o drwyddedu 30,000 o safleoedd llety ymwelwyr o fewn blwyddyn lawn gyntaf y cynllun, rydym yn rhagweld y byddai cyllideb o oddeutu £2.25 miliwn yn ddigon i brosesu ceisiadau am drwyddedau a cheisiadau adnewyddu yn 2029-30. Byddai hefyd yn galluogi'r awdurdod, gan weithio gyda phartneriaid statudol, i ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau cydymffurfio gweladwy. Bydd y swyddogaethau olaf hyn yn allweddol o ran rhoi sicrwydd i ymwelwyr a darparwyr llety ymwelwyr fel ei gilydd bod y cynllun yn effeithiol ac yn werth chweil.

8.53 Mae’r amcangyfrifon yn cynnwys lwfans ar gyfer costau cydymffurfio, yn seiliedig ar brofiad Rhentu Doeth Cymru. Mae’r asesiad hwn yn rhagdybio y ceir 1,000 o achosion cydymffurfio’r flwyddyn gyda’r rhan fwyaf yn cael eu datrys o bell, er enghraifft trwy gysylltu â darparwr y llety am ragor o dystiolaeth, felly dim ond 10% o’r achosion cydymffurfio y bydd angen eu harchwilio’n ffurfiol. Gan ganiatáu 10 awr ar gyfer pob archwiliad, byddai hynny’n golygu cyfanswm llai nag un aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ar draws Cymru.

8.54 Mae dadansoddiad o sensitifrwydd y rhagdybiaethau sylfaenol yn awgrymu mai bach fydd eu heffaith ar y costau cyfan, fel y dengys y tabl isod. Mae’r amcangyfrif gorau wedi’i gynnwys yng nghostau rhagdybiedig yr awdurdod trwyddedu.

**Tabl 4.1: Costau Archwilio Posibl – dadansoddiad o sensitifrwydd**

| **£’m** | Isel | Gorau | Uchel |
|---|---|---|---|
| Nifer y staff (FTE) | 0.35 | 1.35 | 3.68 |
| Cost flynyddol | 0.02 | 0.10 | 0.30 |

8.55 Mae'r Ddeddf yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i bennu, ac addasu dros amser, ffioedd y drwydded, gan gynnwys ffioedd gwahanol ar gyfer amgylchiadau gwahanol. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ymgynghori â rhanddeiliaid cyn i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud. Ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, sy'n canolbwyntio ar lety hunanddarpar, rydym wedi tybio strwythur ffioedd blynyddol syml ar gyfer pob safle llety ymwelwyr. O ystyried y model adennill costau tybiedig ar gyfer costau gweithredol, mae ffi'r drwydded yn arbennig o sensitif i nifer y

lletyau. Gan hynny, rydym yn dangos effaith gwahanol niferoedd ar ffioedd ar wahân.

8.56 Ar sail cyllideb o oddeutu £2.25 miliwn (ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant ac eitemau digwyddiadol), a'n hamcangyfrifon isel, uchel a gorau o niferoedd y llety hunanddarpar i ymwelwyr yng Nghymru, fel y nodir uchod, gyda strwythur ffioedd syml o'r un tâl am bob safle, gallai'r ffi drwyddedu flynyddol gyfartalog fesul safle fod fel a ganlyn:

- Ar sail yr **amcangyfrif isel** o 12,000 o safleoedd llety hunanddarpar i ymwelwyr yn cael eu trwyddedu, **£188**.
- Byddai'r **amcangyfrif uchel** o 37,000 o safleoedd angen **£61**.
- Byddai ein **hamcangyfrif gorau** o 30,000 o safleoedd llety hunanddarpar i ymwelwyr yn cael eu trwyddedu yn golygu ffi drwyddedu flynyddol o **£75** fesul safle.

8.57 Rydym yn disgwyl, o fewn yr amrediad hwn, bod yr amcangyfrif gorau yn rhoi amcangyfrif rhesymol o'r ffi drwyddedu flynyddol debygol pan ddaw'r cynllun yn weithredol am y tro cyntaf.

8.58 O ystyried yr ansicrwydd yn nifer y safleoedd sydd i'w trwyddedu a chostau'r cynllun, mae'r tabl isod yn dangos y ffi drwyddedu flynyddol ofynnol i dalu'n llawn am unrhyw lefel benodol o gostau gweithredol. Enghraifft yn unig yw hyn: ni fyddem yn rhagweld cyfuniadau eithafol - er enghraifft, costau gweithredu uchel a nifer isel o safleoedd.

**Tabl 5: Ffi'r drwydded flynyddol ddangosol**

| | **Nifer y safleoedd** | | |
|---|---|---|---|
| **Costau Gweithredol Dangosol** | **12,000** | **30,000** | **37,000** |
| **£1.5 miliwn** | £125 | £50 | £41 |
| **£1.75 miliwn** | £146 | £58 | £47 |
| **£2 miliwn** | £167 | £67 | £54 |
| **£2.25 miliwn** | £188 | £75 | £61 |
| **£2.5 miliwn** | £208 | £83 | £68 |

8.59 At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi tybio ffi drwydded flynyddol o £75 o 2029. Fodd bynnag, bydd cofrestru yn darparu asesiad mwy cywir o faint a chyfansoddiad cyffredinol y sector llety ymwelwyr hunanddarpar yng Nghymru, ac, unwaith y bydd data perthnasol ar gael, bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio costau manylach

cyn i'r cynllun trwyddedu ddod i rym. Gallai'r awdurdod trwyddedu osod strwythur mwy cymhleth, er enghraifft ffi adnewyddu is yn gyfnewid am dâl cychwynnol uwch.

## Darparwyr Llety Ymwelwyr

***Costau posibl ar gyfer darparwr llety ymwelwyr arferol***

8.60 Pan ddaw darpariaethau'r Ddeddf hon i rym, bydd yn ofynnol i unrhyw weithredwr sy'n dymuno darparu llety ymwelwyr hunanddarpar yng Nghymru fodloni gofynion y cynllun trwyddedu yn barhaus.

8.61 Bydd gweithredwr sy'n ymuno â'r sector llety ymwelwyr hunanddarpar yng Nghymru am y tro cyntaf ar ôl i'r ddeddfwriaeth hon ddod i rym yn wynebu'r costau ymgyfarwyddo, hyfforddi a thrwyddedu cychwynnol a nodir uchod. Er mai costau untro fydd y rhain yn hytrach na chostau rheolaidd, cyfeirir atynt yma ar y sail y byddant yn cael eu hysgwyddo gan ddarparwyr newydd yn y dyfodol fel rhan o'u costau sefydlu ehangach.

8.62 Yn gyffredinol disgwylir i drwyddedau fod yn ddilys am flwyddyn. Ar gyfer darparwyr sy'n dymuno cadw eu trwydded y tu hwnt i hynny, bydd costau rheolaidd yn codi mewn perthynas â'r canlynol:

- **Adolygu neu adnewyddu trwydded** – Rydym yn disgwyl y bydd proses syml ar-lein, gyda'r trwyddedai'n gorfod cadarnhau neu ddiweddaru gwybodaeth berthnasol sy'n cael ei chadw ar y system drwyddedu mewn perthynas â'i hun a'r llety, ac i dalu'r ffi ynghlwm â hynny. Bydd hyn yn cymryd llai o amser na'r cais cychwynnol, felly rydym yn amcangyfrif mai'r gost gyffredinol i drwyddedai nodweddiadol sydd â dau safle hunanddarpar, gan gynnwys costau cyfle, fydd £154 y flwyddyn, yn seiliedig ar ffi o £75 fesul safle a 15 munud o gost cyfle ar gyfartaledd yn flynyddol o ran yr amser a gymerir i adolygu a/neu ddiweddaru manylion trwyddedai neu lety yn ôl yr angen a chwblhau'r cais adnewyddu ar-lein bob blwyddyn.

- **Sicrhau bod gwybodaeth drwyddedu yn gyfredol –** Bydd angen i ddeiliaid trwydded sicrhau bod yr wybodaeth sydd gan yr awdurdod trwyddedu mewn perthynas â'u llety yn cael ei chadw'n gyfredol. Er enghraifft, bod yr awdurdod yn cael dogfennau yswiriant cyfredol, neu dystysgrifau diogelwch wrth i'r rhain gael eu hadnewyddu. Rydym yn amcangyfrif y bydd darparwr llety ymwelwyr nodweddiadol sydd â dau safle yn cymryd cyfanswm cyfunol o tua 30 munud y flwyddyn i lanlwytho copïau o'r dogfennau hyn drwy'r porth trwyddedu ar-lein, gan arwain at gost cyfle flynyddol o £8.

- **Hyfforddiant diweddaru** – Rhaid i ddarparwyr fodloni gofyniad hyfforddi a fydd yn cael ei nodi yn y rheoliadau. Ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi tybio y bydd yn ofynnol iddynt gwblhau

hyfforddiant 'diweddaru' unwaith bob pum mlynedd. Bydd yr hyfforddiant yn atgoffa trwyddedeion o bwrpas a gofynion y cynllun, yn ogystal â darparu gwybodaeth am unrhyw newid deddfwriaethol neu weithredol diweddar sy'n berthnasol i'r cynllun (er enghraifft, newidiadau i ofynion cyfreithiol neu arferion gorau). Rydym yn disgwyl i'r hyfforddiant diweddaru fod yn fyrrach ac y bydd y ffi yn is nag ar gyfer yr hyfforddiant cychwynnol. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn rydym yn amcangyfrif y bydd y gost i drwyddedeion ar gyfartaledd dros gyfnod o bum mlynedd ychydig o dan £10 y flwyddyn, ar sail rhagdybiaeth y bydd y ffi yn £15 ac y bydd y costau cyfle ar gyfer cwblhau'r hyfforddiant (y disgwylir iddo bara tua dwy awr) oddeutu £33.

- **Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus** – Ymysg yr amodau trwyddedu a gyflwynir gan y Ddeddf hon fydd gofyniad ar ddarparwyr i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol *presennol* mewn perthynas â diogelwch nwy, trydan a thân. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys gofyniad *ychwanegol* bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn grym ar gyfer llety trwyddedig. Fel y trafodwyd uchod, rydym yn disgwyl y bydd yswiriant addas mewn grym yn barod mewn llawer o achosion, o ystyried bod nifer o'r platfformau rhestru mwyaf poblogaidd, gan gynnwys Booking.com ac Airbnb, yn cynnwys yswiriant atebolrwydd yn eu costau aelodaeth. Fodd bynnag, pan na fydd gan ddarparwyr bolisïau yswiriant priodol, bydd hyn yn ofyniad ychwanegol. Rydym wedi tybio y bydd gan 75% o ddarparwyr yswiriant eisoes, ac ar gyfer y gweddill, y gost gyfartalog ar gyfer dau safle fydd £500 y flwyddyn.

8.63 Gan hynny, disgwylir i gyfanswm y costau blynyddol a amcangyfrifir i ddarparwr nodweddiadol gyda dau safle fod oddeutu £172 gan godi i £672 ar gyfer y rhai heb yswiriant (yn seiliedig ar gost flynyddol ychwanegol o £500 ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus).

### *Amcangyfrif o'r gost gyffredinol i'r sector*

8.64 Mae'r amcangyfrifon isel, uchel a gorau o gostau rheolaidd gofynion y cynllun hwn i'r sector llety ymwelwyr hunanddarpar yng Nghymru wedi eu nodi yn y paragraffau a ganlyn.

8.65 Mae'r tri amcangyfrif yn tybio y bydd cyfanswm nifer y trwyddedeion ac eiddo yn aros yn gyson. Credwn fod tybiaeth 'sefyllfa sefydlog' yn rhesymol at ddibenion yr adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol am y rhesymau a ganlyn:

- Mae'r farchnad lletyau tymor byr yn amrywiol yn ei hanfod o ran natur, gydag eiddo'n dod ar y farchnad ac yn diflannu oddi arni yn aml drwy gydol y flwyddyn;
- Ni fydd pob darparwr yn dymuno adnewyddu ei drwydded;

- Er bod y sector wedi tyfu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n ymddangos bod rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod y farchnad eisoes yn cyrraedd pwynt dirlawnder mewn rhai ardaloedd; ac

- Nid yw'n bosibl rhagweld yn bendant sut gallai gofynion y Ddeddf hon, a deddfwriaeth a pholisïau cysylltiedig Llywodraeth Cymru, yn ogystal â ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, effeithio ar faint neu lwybr y sector yn y dyfodol.

8.66 Ar sail costau blynyddol cyfartalog o £172 fesul trwyddedai, ynghyd â chyfran sydd angen yswiriant. Ein **hamcangyfrif isel** o'r gost gyffredinol i'r sector, sy'n tybio bod cyfanswm o 12,000 o safleoedd llety ymwelwyr yn parhau i gael eu trwyddedu gan 6,000 o ddarparwyr, yw **£1.78 miliwn** y flwyddyn.

8.67 Mae ein **hamcangyfrif uchel**, sy'n tybio bod cyfanswm o 37,000 o safleoedd yn parhau i gael eu trwyddedu gan 18,500 o ddarparwyr, yn rhoi cyfanswm cost o **£5.49 miliwn** y flwyddyn i'r sector.

8.68 Mae ein **hamcangyfrif gorau**, sy'n tybio bod 30,000 o safleoedd yn parhau i gael eu trwyddedu drwy gydol pum mlynedd gyntaf y cynllun gan 15,000 o ddarparwyr, yn rhoi cyfanswm cost o **£4.45 miliwn** y flwyddyn i'r sector.

8.69 Mae'r holl amcangyfrifon hyn yn tybio na fydd gan 25% o ddarparwyr yswiriant priodol yn barod ac mai £500 fydd cost gyfartalog yswiriant y flwyddyn i'r darparwyr hynny. Fel yr eglurwyd uchod, mae hyn yn elfen sylweddol o'r costau i ddarparwyr (dros 40%), ond bydd yn diogelu ymwelwyr ac yn gwella hyder ymwelwyr, yn ogystal â chefnogi darparwyr os ydynt yn wynebu hawliad.

8.70 Er y dylid bod yn ofalus wrth ystyried yr holl amcangyfrifon hyn, am y rhesymau a nodir uchod, rydym yn disgwyl bod yr amcangyfrif gorau yn rhoi brasamcan rhesymol o'r costau blynyddol tebygol i'r sector o fewn yr amrediad hwn.

8.71 Bwriedir i'r cynllun fod yn weithredol yn 2028-29, gyda'r hyfforddiant a'r system ar gael i ddarparwyr erbyn hydref 2028, a'r cynllun ar waith yn llawn erbyn gwanwyn 2029. Gan hynny, tybir y bydd y costau blynyddol rheolaidd hyn i ddarparwyr yn digwydd o 2030-31.

8.72 Dangosir bod y costau rheolaidd hyn (a'r costau trosiannol uchod) yn cael eu hysgwyddo gan ddarparwyr llety at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Mewn gwirionedd, gall darparwyr llety ddewis naill ai amsugno'r gost ychwanegol neu geisio trosglwyddo o leiaf rhan o'r gost ychwanegol i'w cwsmeriaid ar ffurf ffioedd llety uwch. Bydd y graddau y bydd busnesau yn gallu trosglwyddo'r costau yn dibynnu ar sensitifrwydd

prisiau cwsmeriaid a chystadleuaeth yn y sector lleol. Ar hyn o bryd, mae baich y gost yn y pen draw yn ansicr ond bydd cost economaidd.

### *Cydymffurfio ag amodau trwyddedu sy'n gysylltiedig â safleoedd*

8.73 Dylai unrhyw weithredwr sy'n darparu llety hunanddarpar ar hyn o bryd fod yn cydymffurfio â'r amodau trwyddedu sy'n ymwneud â diogelwch nwy a thrydan, larymau carbon monocsid, ynghyd ag asesiad risg diogelwch tân, yn barod - gan fod y rhain yn adlewyrchu'r gofynion statudol presennol. Gan hynny, i'r nifer fawr o weithredwyr cyfrifol sydd eisoes yn cydymffurfio â'r gofynion hyn, yr unig gostau ychwanegol y bydd y cynllun trwyddedu yn eu gosod yw'r ffioedd a'r amser ar gyfer gwneud cais am drwydded neu adnewyddu trwydded a hyfforddi, ac - mewn rhai achosion - yswiriant atebolrwydd cyhoeddus - fel y nodir uchod.

8.74 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na fydd rhai darparwyr yn cydymffurfio ar hyn o bryd, ac y bydd gweithredwyr sy'n ymuno â'r sector yn y dyfodol, ar ôl i ddarpariaethau'r Ddeddf hon ddod i rym, yn wynebu costau o ran sicrhau bod safleoedd yn cydymffurfio â'r holl amodau trwydded perthnasol. Bydd treuliau a wynebir gan weithredwyr yn amrywio yn ôl amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys maint, nodweddion a chyflwr presennol pob safle, ac yn hollbwysig hefyd i ba raddau mae'r gofynion eisoes yn cael eu bodloni. Ar hyn o bryd nid oes data ar gael ar nodweddion safleoedd na lefelau cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol presennol. Gan hynny, mae'r amcangyfrifon a ganlyn wedi cael eu cynnwys fel enghreifftiau yn unig o'r hyn y gallai darparwr ddisgwyl ei dalu'n rhesymol mewn perthynas â phob un o'r gofynion trwyddedu, ynghyd â chostau cyfle cysylltiedig lle bo hynny'n berthnasol:

**Adroddiad cynnal a chadw nwy** – Bydd darparwr yn gyfrifol am sicrhau bod cofnod o wiriad diogelwch nwy dilys ar waith ar gyfer unrhyw lety hunanddarpar trwyddedig. Mae cost gyfartalog archwiliad cynnal a chadw nwy yn y Deyrnas Unedig yn amrywio rhwng £60 a £90 ar gyfer safle sydd ag un boeler ac un hob neu le tân nwy. Fel arfer, codir £10 yr un am gyfarpar nwy ychwanegol.

**Adroddiad ar archwiliad trydanol** - Bydd cost archwiliad diogelwch trydanol yn amrywio yn ôl nifer o ffactorau gan gynnwys maint y llety a chymhlethdod y gosodiadau trydanol sy'n bresennol, yn ogystal â'r cyfraddau fesul awr a godir gan drydanwyr lleol. Gan ystyried y newidynnau hyn, rydym yn amcangyfrif y bydd archwiliad trydanol yn costio tua £100 - £250 ar gyfartaledd.

**Larymau carbon monocsid** – Mae darparwyr yn gyfrifol am sicrhau bod synhwyrydd carbon monocsid gweithredol yn bresennol mewn unrhyw ystafell lle mae offer nwy, olew neu danwydd solet. Y gost gyfartalog ar gyfer gosod larwm carbon monocsid batri yn broffesiynol yw £90, a £175 ar gyfer larwm wedi ei wifro, er y bydd costau'n amrywio yn ôl maint,

lleoliad a nodweddion y llety. Gall y costau gwirioneddol fod yn llawer is i rai darparwyr (darperir larymau carbon monocsid batri yn rhad ac am ddim gan rai platfformau archebu, ac maent yn gymharol rad i'w prynu a'u ffitio fel arall).

**Asesiad diogelwch tân** – Mae darparwyr yn gyfrifol am sicrhau bod asesiad risg diogelwch tân yn cael ei gynnal a'i gofnodi yn unol â'r *Canllawiau i wneud eich llety gwesteion yn ddiogel rhag tân* gan Lywodraeth Cymru. Yn yr un modd â'r gofynion trwyddedu eraill a restrir uchod, bydd y costau gwirioneddol a wynebir gan ddarparwyr unigol yn amrywio yn dibynnu ar ffactorau fel maint a nodweddion y llety. Fodd bynnag, rydym yn amcangyfrif, ar sail adborth gan ddarparwyr sydd wedi cwblhau asesiadau, y bydd y broses yn cymryd uchafswm o awr i'w chwblhau yn achos unigolyn sy'n cynnal asesiad am y tro cyntaf, ac yn seiliedig ar dŷ neu fflat 2-3 ystafell wely, sy'n cyfateb i £16 o gost cyfle ar gyfartaledd. Nid ydym wedi amcangyfrif costau rhagofalon y gallai'r asesiad ddangos sydd eu hangen, gan fod eu hangen eisoes o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân a gall y costau amrywio'n fawr gan ddibynnu ar y llety dan sylw a pha fesurau sydd eisoes yn eu lle. Gallai gynnwys camau fel gosod larymau mwg cydgysylltiedig wedi'u gwifro; goleuadau argyfwng; drysau tân, ac offer diffodd tân.

8.75 At ei gilydd, i ddarparwr newydd sy'n dod i mewn i'r sector gydag un safle, mae costau cydymffurfio â'r gofynion presennol yn cyfateb i £356:

- Costau archwilio nwy £75;
- Costau archwilio trydanol £175;
- Costau gosod larwm carbon monocsid £90; a
- Chost cyfle asesu risg diogelwch tân £16.

8.76 Mae'r adran hon yn dangos costau sicrhau bod safle yn cydymffurfio. Mae'r costau hyn wedi eu cynnwys yma at ddibenion tryloywder ond nid ydynt wedi eu cynnwys yng nghostau cyffredinol y Ddeddf oherwydd eu bod yn cynrychioli costau a fydd yn cael eu hysgwyddo gan weithredwyr er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol *presennol*. Nid ydynt yn gostau ychwanegol sy'n deillio o'r Ddeddf hon.

## Costau posibl i Awdurdodau Lleol a Chyrff Rheoleiddio

8.77 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ceisio adennill costau gorfodi gan ddarparwyr llety ymwelwyr nad ydynt yn cydymffurfio, gan gynnwys drwy refeniw o Hysbysiadau Cosb Benodedig. Lle nad yw hyn yn ddigonol, gall Llywodraeth Cymru ddarparu arian ychwanegol ar gyfer gorfodi. Bydd y cyllid cyffredinol hwn ar gael i ad-dalu gwasanaethau tai/iechyd yr amgylchedd awdurdodau lleol ar sail adennill costau am weithgareddau a gynhelir ganddynt mewn perthynas â llety ymwelwyr y mae amheuaeth neu gadarnhad nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion trwyddedu.

## Crynodeb o gyfanswm y costau cyffredinol

8.78 Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi'r amcangyfrifon cost a nodir yn adrannau blaenorol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ac yn darparu cyfanswm cost y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys yr holl gostau trosiannol a rheolaidd i Lywodraeth Cymru a chostau trosiannol a rheolaidd i'r sector llety ymwelwyr yng Nghymru. Nid yw'n cynnwys y costau y gall rhai darparwyr llety eu hwynebu wrth gydymffurfio â'r gofynion statudol presennol. Barn Llywodraeth Cymru yw na ddylid ystyried unrhyw dreuliau yr eir iddynt gan weithredwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol presennol ar hyn o bryd fel costau ychwanegol. Nid yw'n cynnwys y costau (a'r refeniw i'r awdurdod trwyddedu) o hysbysiadau cosb benodedig neu erlyniadau ychwaith.

**Tabl 6: cyfanswm y costau amcangyfrifedig cyffredinol**

| | 2026-2027 | 2027 - 2028 | 2028-2029 | 2029-2030 | 2030-2031 | 2031-2032 | 2032-2033 | 2033-2034 | 2034-2035 | 2035-2036 | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod trwyddedu** | | | | | | | | | | | |
| **Costau trosiannol** | 2.26 | 2.37 | 2.10 | - | - | - | - | - | - | - | **6.73** |
| **Costau gweithredol** | | - | - | 1.88 | 1.88 | 1.88 | 1.88 | 1.88 | 1.88 | 1.88 | **13.18** |
| **Cyllidwyd drwy ffioedd trwydded** | - | - | - | -1.88 | -1.88 | -1.88 | -1.88 | -1.88 | -1.88 | -1.88 | **-13.18** |
| **Costau Net yr Awdurdod Trwyddedu** | 2.26 | 2.37 | 2.10 | - | - | - | - | - | - | - | **6.73** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | | | | | |
| **Costau cyfle** | 1.08 | 1.16 | 0.19 | - | - | - | - | - | - | - | **2.43** |
| **Gorfodi - Atodol** | | | | 0.10 | 0.10 | 0.10 | | | | | **0.30** |
| **Cyfanswm costau Llywodraeth Cymru** | 1.08 | 1.16 | 0.19 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | - | - | - | - | **2.73** |

*Noder: paratowyd y ddogfen hon at yr unig ddiben o gynorthwyo pobl i ddeall Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru). Ni ddylid dibynnu arni ar gyfer unrhyw ddiben arall.*

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Darparwyr llety ymwelwyr** | | | | | | | | | | | |
| **Costau trosiannol** | - | - | - | 5.66 | - | - | - | - | - | - | **5.66** |
| **Costau rheolaidd** | - | - | - | - | 4.45 | 4.45 | 4.45 | 4.45 | 4.45 | 4.45 | **26.71** |
| **Cyfanswm costau i ddarparwyr llety ymwelwyr** | - | - | - | 5.66 | 4.45 | 4.45 | 4.45 | 4.45 | 4.45 | 4.45 | **32.37** |
| **Cyfanswm y costau amcangyfrifedig cyffredinol** | **3.34** | **3.53** | **2.29** | **5.76** | **4.55** | **4.55** | **4.45** | **4.45** | **4.45** | **4.45** | **41.84** |

## Casgliad

8.79 Diben y Ddeddf hon yw cefnogi twristiaeth yng Nghymru. Mae'n gwneud hynny drwy roi sicrwydd i ymwelwyr bod y llety yn bodloni'r safonau y byddent yn eu disgwyl; a hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy drwy ddarparu cyfundrefn reoleiddiol glir o safonau cyson ar gyfer llety ymwelwyr.

8.80 Bydd y Ddeddf yn sicrhau nad yw'r gweithredwyr hynny sy'n darparu llety sydd eisoes yn bodloni'r gofynion statudol gofynnol yn parhau i gael eu rhoi dan anfantais fasnachol gan gystadleuwyr sydd, boed yn anfwriadol neu'n fwriadol, yn gweithredu heb ystyried y gofynion hyn, ac sydd - o ganlyniad i orbenion is - yn gallu cynnig prisiau rhatach na darparwyr sydd eisoes yn bodloni'r holl ofynion angenrheidiol. Bydd hyn yn arwain at farchnad llety ymwelwyr sy'n gweithredu'n well, y gall ymwelwyr fod yn hyderus ynddi. Credwn fod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn rhai cyfrifol ac yn dymuno gweithredu mewn marchnad deg a reoleiddir yn briodol a bod y ffi drwydded gymharol gymedrol a ragwelir yn rhesymol i gyflawni hynny.

8.81 Mae'r cynllun trwyddedu yn gosod gofynion sy'n debyg i'r sector rhentu preifat i gyflawni'r amcanion hyn. Mantais eilaidd hyn yw na ddylid gweld y sector llety ymwelwyr tymor byr fel dewis arall sy'n cael ei reoleiddio'n llai trylwyr yn hytrach na gosod eiddo yn y sector rhentu tymor hir. Bydd perchnogion eiddo yn ystyried rhwymedigaethau'r cynllun mewn penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch eu heiddo, a'n disgwyliad yw na fydd eu penderfyniadau wedyn yn cael eu llywio gan y gofynion trwyddedu priodol ond gan ffactorau eraill. Bydd hyn yn helpu i gefnogi twristiaeth gynaliadwy trwy gydbwyso ei manteision â'r effeithiau ar anghenion tai cymunedau lleol.

# 9. Asesiad Fforddiadwyedd

9.1 Er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried yr ystod lawn o gostau a manteision ar gyfer y Ddeddf, mae'r asesiad fforddiadwyedd hwn yn asesiad ariannol yn unig. Yn sgil hynny, dim ond costau arian parod a manteision sy’n rhyddhau arian parod sy’n cael eu cynnwys. Mae costau cyfle hefyd wedi eu dileu.

9.2 Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn ystyried yr un cyfnod o amser ag a ystyriwyd gan yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sef 2026-27 i 2035-36, ac mae wedi'i gynnal gan Lywodraeth Cymru er mwyn nodi a yw'r Ddeddf yn fforddiadwy i'r sefydliad.

9.3 Mae'r costau arian parod yn yr asesiad hwn wedi'u haddasu i adlewyrchu chwyddiant disgwyliedig yn ystod y cyfnod arfarnu. Gwnaed yr asesiad hwn yn seiliedig ar amcanestyniadau'r datchwyddwr Cynnyrch Domestig Gros sydd wedi'u cynnwys yn Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025[38]. Roedd amcanestyniadau'r OBR yn ymestyn i 2029-30 yn unig. Gan fod y rhagolygon yn sefydlogi ar tua 1.9% tuag at ddiwedd cyfnod rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, rhagdybiwyd y bydd y gyfradd hon yn parhau am weddill ein cyfnod arfarnu. Er bod chwyddiant bellach yn gymharol sefydlog, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch ei lwybr yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith chwyddiant ar gostau ariannol y Ddeddf.

9.4 Bydd costau yn gysylltiedig â datblygu a gweinyddu'r cynllun trwyddedu. Caiff costau datblygu neu ‘sefydlu’ eu hariannu drwy’r prosesau cyllidebol blynyddol arferol yn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu ac adeiladu gwasanaethau digidol, darparu adnoddau ar gyfer timau newydd, a datblygu cynhyrchion newydd fel hyfforddiant a chanllawiau. Mae ein hamcangyfrif gorau o'r costau disgwyliedig hyn, fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, wedi'i grynhoi yn y tabl isod.

[38] CP 1289 – Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – Rhagolygon economaidd a chyllidol – Mawrth 2025

**Tabl 7: Costau arian parod i Lywodraeth Cymru**

| Costau Trosiannol £m | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **CYFALAF** | | | | |
| Datblygu Seilwaith | 1.78 | 1.81 | 0.35 | **3.93** |
| **REFENIW** | | | | |
| Costau sy'n gysylltiedig â TG | 0.39 | 0.39 | 0.42 | **1.19** |
| Datblygu hyfforddiant i ddarparwyr | - | 0.08 | - | **0.08** |
| Ymgyrchoedd a Chyfathrebu | 0.10 | 0.10 | 0.20 | **0.40** |
| Costau staff Awdurdod Trwyddedu | - | - | 1.13 | **1.13** |
| **Cyfanswm y Costau Refeniw** | **0.49** | **0.57** | **1.75** | **2.80** |

9.5 Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ein bwriad yw unwaith y bydd y cynllun trwyddedu wedi'i sefydlu, bydd costau gweithredol parhaus yn cael eu talu gan ffioedd trwyddedau a osodir ar sail adennill costau. O ganlyniad, ni fydd unrhyw gost net barhaus i gyllidebau Llywodraeth Cymru ar y pwynt hwn. Disgwylir i'r costau rheolaidd hyn fod oddeutu £2m y flwyddyn, ond bydd yr amcangyfrif hwn yn cael ei fireinio cyn i'r cynllun ddod i rym.

9.6 Mae risg y bydd costau annisgwyl yn codi yn ystod blwyddyn a/neu newidiadau o ran nifer y darparwyr llety sy'n golygu nad yw ffioedd trwyddedau yn talu costau gweithredol trwyddedu yn llawn. Yn yr un modd, mae risg efallai na fydd unrhyw gostau a gafodd eu hadennill ar gyfer camau gorfodi ar gael o fewn yr un flwyddyn ariannol ag y digwyddodd y cam gweithredu. Os bydd y senarios hyn yn codi, mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru dalu'r costau gweinyddol sy'n weddill. Fel rhagdybiaeth ddangosol, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi caniatáu £100k y flwyddyn ar gyfer tair blynedd gyntaf trwyddedu (2028-29 i 2030-31) tuag at gostau gorfodi.

9.7 Bydd angen ystyried y costau a'r risgiau hyn yn ystod prosesau cyllidebol yn y dyfodol, yn enwedig y costau sefydlu trosiannol. Fodd bynnag, disgwylir iddynt fod yn fforddiadwy yng nghyd-destun cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru.

# 10. Asesiadau o'r Effaith

10.1. Cafodd asesiadau penodol eu cynnal o effeithiau'r Ddeddf gyfan yn ystod y gwaith datblygu polisi. Rhoddir crynodeb o'r effeithiau isod, a chaiff yr asesiadau effaith penodol eu cyhoeddi fel y bo'n briodol. Cynhaliwyd asesiadau penodol er mwyn deall effeithiau'r Ddeddf ar y meysydd canlynol:

- Hawliau Plant;
- Cydraddoldeb;
- Diogelu Data;
- Prawfesur Gwledig;
- Y Gymraeg;
- Bioamrywiaeth;
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol;
- Iechyd; ac
- Y System Gyfiawnder

10.2. Cynhaliwyd asesiad hidlo'r gystadleuaeth hefyd. Er y barnwyd nad oedd angen asesiad pellach, ceir crynodeb o'r asesiad hidlo yn y bennod hon.

**Hawliau Plant**

10.3. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ystyried effaith y Ddeddf ar blant a phobl ifanc yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

10.4. Dyma'r prif bwyntiau sy'n dod i'r amlwg o'r asesiad hwnnw.

- **Effaith ar blant fel darparwyr llety ymwelwyr:** Er nad yw plant (o dan 18 oed) yn cael bod yn berchenogion cyfreithiol ar eiddo real yng Nghymru a Lloegr, maent yn gallu ymrwymo i gontractau penodol neu fod yn gyfarwyddwr cwmni o 16 oed ymlaen, sy'n golygu ei bod hi'n dechnegol bosibl i blentyn fod yn ddarparwr llety ymwelwyr. Ond mae'n debygol y bydd hyn yn beth prin iawn, ac o ganlyniad credir mai bach iawn fydd yr effaith ar blant.

- **Effaith ar blant sy'n byw gyda darparwyr llety ymwelwyr:** Mae amodau'r drwydded yn cynnwys gofynion gorfodol ar gyfer eiddo, gan gynnwys materion diogelwch. Bydd hyn yn golygu y bydd safonau'r eiddo yn cael eu cynnal neu eu gwella, ac yn ei dro mae hyn yn golygu y dylai fod yn ffit i'r plentyn fyw ynddo, pan fo’r llety ymwelwyr hefyd yn

gartref iddo.

- **Effaith ar blant fel gwesteion:** Mae teuluoedd a phobl ifanc sy'n aros mewn llety trwyddedig yn cael y tawelwch meddwl y gall safonau ei roi, ond gallai'r costau gynyddu o ryw ychydig os caiff y ffioedd eu trosglwyddo i ddefnyddwyr. Mae'r rhain yn debygol o fod yn fach iawn o'u rhannu rhwng yr holl westeion.

10.5. I grynhoi, felly, ystyrir bod effaith y Ddeddf yn fach ond yn gadarnhaol yn bennaf.

10.6. Byddwn yn parhau i gloriannu effaith y Ddeddf ar blant wrth ei rhoi ar waith ac wedi hynny, a'i newid os gwelir effeithiau negyddol anghymesur.

**Cydraddoldeb**

10.7. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar Weinidogion Cymru i roi ‘sylw dyladwy’ i amrywiaeth o ofynion sy’n ymwneud â dileu neu leihau anfanteision i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig neu sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig a dileu rhwystrau i gymryd rhan.

10.8. Mae'r Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi ein barn na fydd y Ddeddf yn cael effeithiau gwahaniaethol cryf yn ôl nodweddion gwarchodedig pobl fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

10.9. Roeddem o'r farn y byddai angen, wrth roi'r cynllun trwyddedu ar waith, ystyried hygyrchedd gwasanaethau digidol i bobl hŷn a/neu anabl, ac y gallai fod angen cymorth ychwanegol mewn rhai achosion.

10.10. Fe wnaethom hefyd ystyried y gweithlu twristiaeth, lle gorgynrychiolir pobl ifanc, menywod a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Bwriad y cynllun trwyddedu yw cefnogi twristiaeth yng Nghymru, felly dylai'r effaith gyffredinol ar y grwpiau hyn fod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y grwpiau hyn yn teimlo effeithiau anghymesur os bydd rhai darparwyr achlysurol llety i ymwelwyr yn dewis gadael y sector yn hytrach nag ymgysylltu â'r cynllun.

10.11. Mae darpariaethau'r Ddeddf wedi'u hasesu'n ofalus, ac rydym yn fodlon eu bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hyn wedi cynnwys ystyried Erthygl 1 Protocol 1 (diogelu eiddo), Erthygl 6 (hawl i dreial teg) ac Erthygl 8 (hawl i barch at fywyd preifat a theuluol).

**Diogelu Data**

10.12. Cafodd Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ei gynnal gan fod y Ddeddf yn gofyn am gasglu data newydd a phrosesu data personol a data categori arbennig, yn benodol wrth brosesu ceisiadau am drwydded, cofnodi trwyddedau a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am drwyddedau a gafodd eu rhoi, eu dirymu a/neu esemptiadau

10.13. Bydd prosesau gweithredol ar gyfer trwyddedu, a chyhoeddi'r cyfeiriadur o lety ymwelwyr, yn cael eu sgrinio eto am yr effeithiau ar ddiogelu data.

10.14. Bydd y rhan fwyaf o'r data personol a brosesir at ddibenion trwyddedu wedi cael eu casglu gan yr ACC at ddiben y gofrestr a grëwyd yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). Fodd bynnag, pan fydd angen i ddarparwyr llety ymwelwyr roi gwybodaeth ychwanegol yn benodol at ddiben trwyddedu, megis i gefnogi cais am drwydded neu i ddangos eu bod yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded, bydd yr asesiad diogelu data gweithredol yn ystyried prosesau ar gyfer rheoli a diogelu'r data hyn.

10.15. Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu rhannu gwybodaeth gan ac â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys ACC, awdurdodau lleol ac awdurdodau tân ac achub, i helpu i roi'r cynllun trwyddedu ar waith yn effeithlon a chydlynu rheoleiddio. Rhaid ystyried ymhellach y mesurau diogelu data wrth rannu a phrosesu gwybodaeth o'r fath wrth i brosesau gweithredol gael eu datblygu.

**Prawfesur Gwledig**

10.16. Mae twristiaeth yn bwysig i economi cefn gwlad Cymru. Mae twristiaeth yn effeithio ar gymunedau gwledig yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, gan gael effeithiau cadarnhaol fel creu swyddi a chynhyrchu incwm, ac effeithiau negyddol fel costau byw uwch a difrod amgylcheddol. Mewn rhai cymunedau, mae'n debygol bod y sector yn cael effaith uniongyrchol ar argaeledd tai i bobl leol, gydag eiddo yn cael ei dynnu o'r farchnad breswyl i fod yn llety i ymwelwyr.

10.17. Mae cyflogaeth mewn twristiaeth yn amrywio o ranbarth i ranbarth. Yn y Canolbarth y ceir y gyfran uchaf. Mae busnesau gwledig yn wynebu heriau fel effeithiau anghymesur chwyddiant, costau ynni a thrafnidiaeth uwch ac anawsterau recriwtio. Mae busnesau twristiaeth wledig yn aml yn cael eu rhedeg gan deuluoedd ac yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth leol, gan ddarparu ffynhonnell incwm ychwanegol i rai teuluoedd.

10.18. Nod y Ddeddf yw cefnogi twristiaeth yng Nghymru, a dod â budd i gymunedau sy'n dibynnu'n economaidd ar y sector, tra'n cysoni'r

rheoliadau ar lety ymwelwyr yn well â rheoliadau'r sector rhentu preifat. Bydd hyn yn helpu i leihau'r risg y bydd rhai perchnogion yn ei gweld hi'n haws gosod eu heiddo dros gyfnod byr yn hytrach na'i rentu i denant tymor hir.

10.19. Nodwedd o'r sector twristiaeth yw y ceir ynddo lawer o fusnesau bach neu ficro-fusnesau. Gallai baich gweinyddol trwyddedu fod yn fwy i'r busnesau hyn, yn enwedig y rhai sydd heb lawer o gysylltedd digidol. Ein bwriad yw i'r cynllun trwyddedu fod mor syml ag y gallwn ei wneud i ddarparwyr llety, tra'n ddigon cadarn i gyflawni ei amcanion, felly nid ydym yn disgwyl i'r effaith hon fod yn fawr. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro hyn wrth i'r cynllun gael ei weithredu, rhag ofn y bydd problemau yn codi.

**Y Gymraeg**

10.20. Roedd ein Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn ystyried effeithiau'r Ddeddf ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Ar y cyfan, mae'r polisi yn annhebygol o effeithio'n uniongyrchol ar wasanaethau Cymraeg ond mae'n cynnig cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg drwy hyfforddiant dwyieithog ar gyfer darparwyr llety a thrwy gynnal gwasanaethau dwyieithog.

10.21. Un o'n blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr yw tynnu sylw at natur unigryw ein diwylliant a'r Gymraeg. Rydym am i ymwelwyr deimlo hyn, ac i ddiwylliant Cymru a'r iaith gyfoethogi eu profiadau. Mae potensial i'r cynllun trwyddedu a'r canllawiau a'r hyfforddiant cysylltiedig hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn llety ymwelwyr, gyda'r nod o gyfoethogi profiadau ymwelwyr a chefnogi cymunedau lleol.

10.22. Mae cysylltiad agos rhwng twristiaeth, diwylliant ac iaith. Mewn llawer o gymunedau Cymraeg, mae’r sector twristiaeth yn darparu’r llety, y cyfleusterau a’r seilwaith i bobl allu gweithio a meithrin sgiliau gwerthfawr yn eu cymunedau lleol.

10.23. Yng nghadarnleoedd y Gymraeg, mae cyfran sylweddol o weithwyr llety a gwasanaethau bwyd yn siarad Cymraeg, gyda'r ganran yn uwch yn y Gogledd a'r Canolbarth. Mae busnesau twristiaeth yn dweud eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd, yn enwedig yn y Gogledd. Byddwn yn datblygu systemau a deunydd yn y ddwy iaith ac yn gweithio gyda defnyddwyr i sicrhau bod y gwasanaethau yn addas i'r diben.

10.24. Er nad yw'r cynllun trwyddedu yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cyflenwad tai na'u fforddiadwyedd, gall helpu i leihau'r risg y bydd rhai perchnogion ei gweld hi'n haws gosod eu heiddo dros gyfnod byr yn

hytrach na'i rentu i denant tymor hir. Yn ei dro, gall hyn helpu i reoli twf llety gwyliau, a all fygwth y Gymraeg trwy wneud tai'n rhy ddrud i drigolion lleol.

**Bioamrywiaeth**

10.25. Mae'r Ddeddf wedi'i hasesu am ei heffeithiau posibl ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth yng nghyd-destun polisïau twristiaeth gynaliadwy ac adnoddau naturiol yng Nghymru. Nid yw'r Ddeddf ei hun yn effeithio'n uniongyrchol ar yr amgylchedd nac ar fioamrywiaeth, ond gallai ddylanwadu'n anuniongyrchol ar y galw am dwristiaeth ac arferion busnes cynaliadwy, a allai gael effeithiau amgylcheddol eilaidd.

**Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

10.26. Mae'r asesiad o effaith y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn gwerthuso effeithiau disgwyliedig y Ddeddf ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a chymunedau difreintiedig. Mae'n edrych ar dueddiadau demograffig, economaidd a digidol i ddeall sut y gallai polisi o'r fath ddylanwadu ar dwristiaeth, cyflogaeth a chymunedau lleol.

10.27. Mae bylchau sylweddol yn nata twristiaeth Cymru, yn enwedig o ran gwybodaeth am sefyllfa economaidd-gymdeithasol gweithwyr a pherchnogion, sy'n cyfyngu ar ein gallu i ddadansoddi effeithiau'n fanwl. Fodd bynnag, ceir rhai cymunedau, yn enwedig yng nghefn gwlad ac ar yr arfordir, sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn arbennig o ddibynnol yn economaidd ar dwristiaeth.

10.28. Mae gan y sector twristiaeth gyflog canolrifol is o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyfran sylweddol o'r gweithlu, er enghraifft, gweithwyr iau, pobl ag anableddau, a menywod yn enwedig yn ennill cyflog isel ac mewn swyddi ansicr sydd yn aml yn rhai tymhorol.

10.29. Bydd ffactorau ehangach fel y tywydd, incwm gwario a chystadleuaeth cyrchfannau eraill yn dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr a chyflogwyr, gan wneud effeithiau economaidd manwl y Ddeddf yn anodd eu rhagweld. Fodd bynnag, bwriad y Ddeddf yw cefnogi economi ymwelwyr Cymru, felly dylai'r effeithiau cyffredinol ar y cymunedau hyn fod yn gadarnhaol.

10.30. Efallai y bydd yna rai darparwyr llety ymwelwyr yn colli ffrydiau incwm os byddant yn dewis rhoi'r gorau i gadw llety ymwelwyr yn hytrach na chymryd rhan yn y cynllun trwyddedu. Rydym yn disgwyl i achosion o'r fath fod yn gymharol fach, gan nad yw'r cynllun wedi'i fwriadu i fod yn rhy feichus. Felly os yw'r llety ymwelwyr yn darparu incwm sylweddol i

ddarparwr y llety, byddai hynny'n gymhelliant iddo ei gadw. Ond os daw tystiolaeth bod trwyddedu yn cael effaith niweidiol ar bobl a/neu gymunedau dan anfantais economaidd-gymdeithasol, byddwn yn ailystyried pethau'n ofalus.

10.31. Daeth Sefydliad Bevan i'r casgliad yn ei adroddiad ar lety gwyliau a'r sector rhentu preifat yng Nghymru: *Mewn mannau amlwg ar gyfer 'Airbnb', mae'n ymddangos bod y sector yn cael effaith uniongyrchol ar argaeledd eiddo i'w rhentu ar gyfer tenantiaid isel eu hincwm. (*Sefydliad Bevan: Llety gwyliau ar rent a'r sector rhentu preifat). Nod y Ddeddf yw alinio'n well reoleiddio llety ymwelwyr hunanddarpar â rheoleiddio'r sector rhentu preifat, er mwyn cynnal a gwella safon y llety hwnnw. Dylai hyn helpu i leddfu'r pryderon y bydd rhai perchnogion yn ei gweld hi'n haws gosod eu heiddo dros gyfnod byr yn hytrach na'i rentu i denant tymor hir.

### Iechyd

10.32. Nid yw'r Ddeddf yn cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar iechyd. Mae effeithiau eilaidd wedi'u plethu â ffactorau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, gan wneud eu mesur yn anodd. Fodd bynnag, disgwylir i effeithiau cadarnhaol ar safonau llety, amodau economaidd a chyfathrebu am iechyd cyhoeddus os oes angen fod yn fwy na'r effeithiau negyddol posibl fel llygredd a difrod amgylcheddol posibl cynyddu nifer twristiaid.

## Y System Gyfiawnder

10.33 Gwnaethom lenwi Ffurflen Nodi'r Effeithiau ar y System Gyfiawnder a'i rhoi i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a nododd fod y posibilrwydd iddi effeithio ar y system gyfiawnder yn fach. Ymgynghorwyd ag Adran y Prif Ustus ar effaith arfaethedig y Ddeddf ar y system gyfiawnder. Cadarnhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Hydref 2025 ei bod wedi penderfynu na fyddai'r Ddeddf yn cael fawr o effaith os o gwbl ar y System Gyfiawnder.

10.34 Mae'r Ddeddf yn creu troseddau newydd sy'n gysylltiedig ag osgoi gofynion y cynllun trwyddedu ac yn rhoi pwerau i roi hysbysiadau cosb, gyda'r nod o leihau'r angen i droi at y llysoedd troseddol. Erlynir felly dim ond lle bo hynny'n gwbl angenrheidiol i sicrhau uniondeb y cynllun trwyddedu.

10.35. Ein bwriad yw dilyn trefn orfodi sy'n dwysáu fesul cam ac a fydd yn annog ac yn helpu pobl i gydymffurfio. Yn y lle cyntaf, bydd yr awdurdod

trwyddedu'n addysgu darparwyr sy'n troseddu i sicrhau eu bod yn deall bod angen trwydded, eu hannog i wneud cais am drwydded ac esbonio'r cosbau y gallent eu cael am beidio â gwneud hynny.

10.36. Rydym yn disgwyl y dylai hyn fod yn ddigon fel arfer i'w hannog i gydymffurfio. Mae'r system wedi'i chynllunio i fod mor syml â phosibl i ddarparwyr llety tra'n ddigon cadarn i atal diffyg cydymffurfio a sicrhau uniondeb ac felly effeithiolrwydd y drefn drwyddedu. Dylai hyn sicrhau y bydd bron pob darparwr llety ymwelwyr yn ceisio am drwydded yn hytrach na wynebu cosb neu erlyniad.

10.37. O ganlyniad, rydym yn disgwyl mai dim ond nifer fach o gosbau a roddir, a bach iawn iawn fydd nifer yr achosion sy'n cyrraedd y llys.

10.38. Mae'r asesiad hwn yn adlewyrchu profiadau'r gyfundrefn reoleiddio yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer llety ymwelwyr. Mae eu cynlluniau hwythau'n ceisio cymell cydymffurfedd ac fel y deallwn, nid oes unrhyw erlyniadau wedi'u cynnal yn yr Alban ers cychwyn eu cynllun yn 2022, nac yng Ngogledd Iwerddon ers cychwyn eu cynllun hwythau yn 1992. Fodd bynnag, gan fod y Ddeddf yn rheoleiddio llety ymwelwyr mewn ffordd newydd, nid oes sicrwydd beth fydd ei heffaith ar y system gyfiawnder a bydd yn destun sylw pellach wrth i'r cynllun gael ei weithredu.

10.39. Bydd y Ddeddf yn creu hawliau newydd hefyd i ddarparwyr llety ymwelwyr allu apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau'r awdurdod trwyddedu. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn disgrifio'r trefniadau trwyddedu gyda'r disgwyl y caiff anghydfodau eu datrys rhwng yr awdurdod a'r darparwr llety lle bynnag y bo modd i gefnogi cydymffurfedd. Felly, unwaith eto, rydym yn disgwyl mai prin fydd yr achosion fydd yn cyrraedd y pwynt hwn ac nid ydym yn disgwyl y bydd effaith sylweddol ar lwyth achosion y Tribiwnlys.

### Asesu'r Gystadleuaeth

### Crynodeb

10.40. Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi cael ei gymhwyso'n bennaf i'r sector darparwyr llety ymwelwyr (llety hunanddarpar). Mae ystyriaeth ychwanegol hefyd wedi cael ei rhoi i sectorau sy'n gysylltiedig â llety hunanddarpar i ymwelwyr, gan gynnwys:

- Asiantaethau teithio ar-lein
- Asiantiaid archebu llety gwyliau hunanddarpar
- Cwmnïau rheoli eiddo llety gwyliau hunanddarpar

- Gwasanaethau achredu llety gwyliau hunanddarpar

10.41. Ar ôl cynnal prawf hidlo'r gystadleuaeth, nid ydym yn credu y bydd unrhyw effeithiau niweidiol ar gystadleuaeth yn y sector llety ymwelwyr (llety hunanddarpar), nac unrhyw sector arall a gafodd ei ystyried. Nid ystyrir bod angen asesiad manwl arall. Mae canlyniadau'r prawf i'w gweld isod ynghyd â naratif byr o'r sail resymegol neu eglurhad pan fydd hynny'n briodol.

**Sector 1 – Darparwyr Llety Ymwelwyr (llety hunanddarpar)**

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnyn nhw, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnyn nhw, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 20% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnyn nhw, a oes gan y tri busnes mwyaf gyda'i gilydd gyfran o 50% o leiaf o'r farchnad? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoleiddio'n effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill? | Na fyddent, gweler y nodyn |
| **C5**: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer y cwmnïau neu faint y cwmnïau? | O bosibl, gweler y nodyn |
| **C6**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr ac a ydyn nhw'n gostau nad oes angen i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai/Nac ydynt |
| **C7**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar | Na fyddai/Nac ydynt |

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb** |
| gyflenwyr, ac a ydyn nhw'n gostau nad oes angen i gyflenwyr presennol eu talu? | |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrediad neu leoliad eu cynhyrchion? | Byddai |

**Nodyn C4:** Gall y rheoleiddio gostio mwy i rai cwmnïau nag eraill – fodd bynnag, bydd hyn yn gymesur â maint eu gweithrediadau. Er enghraifft, efallai y bydd cyfanswm y ffioedd mae cwmnïau mwy sydd â rhagor o safleoedd i'w gosod am gyfnodau byr yn gorfod eu talu yn uwch. Y newidyn arall mewn cost i gwmnïau yw faint y mae angen iddynt ei wario i gydymffurfio – fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y cwmnïau hynny sydd â safleoedd sydd eisoes yn cydymffurfio eisoes wedi talu'r costau hyn, felly mae'r gwahaniaeth hwn yn ddibwys at ddibenion yr asesiad o'r gystadleuaeth.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod llety y mae'r rheoleiddio'n effeithio arno yn cystadlu â mathau eraill o lety i ymwelwyr na fydd, o leiaf i ddechrau, yn ddarostyngedig i'r un gofynion. I ddechrau mae'r gwaith o gyflwyno'r rheoleiddio'n cael ei dargedu at y llety y mae pryderon yn cael eu codi amlaf mewn perthynas â'i gydymffurfedd â rhwymedigaethau statudol presennol. Felly, ni ddisgwylir i hyn ystumio'r gystadleuaeth, ac eithrio i'r graddau y mae'n lleihau gallu llety a reoleiddir i danseilio ei gystadleuwyr drwy beidio â chydymffurfio â'i rwymedigaethau diogelwch. Os bydd effeithiau annisgwyl yn dod i'r amlwg yn y farchnad llety ymwelwyr, neu os bydd yr effaith yn fwy na'r disgwyl, byddwn yn gallu estyn y rheoleiddio i fathau eraill o lety i gefnogi marchnad deg a chystadleuol.

**Nodyn C5:** Mae'n bosibl y bydd lleiafrif o fusnesau yn dewis peidio â thalu'r gost o ddod â'u heiddo i safon ddiogel fel sy'n ofynnol gan y drwydded. Efallai y byddant yn dewis gadael y farchnad. Gall y ddeddfwriaeth, felly, wella cystadleuaeth drwy sicrhau bod safonau diogelwch sylfaenol yn cael eu cymhwyso ym mhob llety gan ddileu mantais ymddwyn mewn modd twyllodrus. Bydd yn cynyddu cymhellion i gystadlu ar sail ystyriaethau ansawdd fel cysur gwesteion, cyfleusterau, a phwyntiau gwerthu unigryw.

**Nodyn C9:** Nod y Ddeddf yw atgyfnerthu'r safonau gofynnol bod safle yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r gyfraith. Yn y modd hwn bydd yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddarparu llety anniogel nad yw'n cydymffurfio â'r gyfraith. Ni fydd unrhyw gyfyngiad ar bris, lleoliad neu'r amrediad o gynhyrchion y gellir eu cyflenwi.

Ystyried sectorau cysylltiedig

Yn ogystal â'r prawf hidlo a gafodd ei gwblhau uchod, cafodd sectorau cysylltiedig y gallai'r ddeddfwriaeth effeithio arnynt yn anuniongyrchol eu hystyried hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Asiantaethau teithio ar-lein;
- Asiantiaid archebu llety gwyliau hunanddarpar;
- Cwmnïau rheoli eiddo llety gwyliau hunanddarpar; a
- Gwasanaethau achredu llety gwyliau hunanddarpar

Er na ystyriwyd y byddai effaith niweidiol ar gystadleuaeth o fewn unrhyw un o'r sectorau hyn, gwnaed yr arsylwadau canlynol.

Nid yw'r sectorau ar hyn o bryd yn cael eu nodweddu gan newid technolegol cyflym, fodd bynnag, bu newid technolegol cyflym dros y deng i bymtheg mlynedd ddiwethaf wrth i'r sectorau drosglwyddo bron yn gyfan gwbl i fod yn wasanaethau ar-lein. Felly, mae'n bosibl y gallai technoleg newid y ffordd y mae'r sector yn gweithio mewn ffordd annisgwyl eto.

Mae'n bosibl bod y gofynion newydd ar gyfer llety hunanddarpar yn annog perchnogion i ddefnyddio cwmnïau rheoli eiddo yn amlach. Gallai hyn olygu cynnydd yn nifer y cwmnïau ac felly gwella cystadleuaeth.

Cafodd gwasanaethau achredu llety gwyliau hunanddarpar eu hystyried gan fod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod o leiaf un cwmni yn darparu achrediad yn seiliedig ar gydymffurfedd â safonau diogelwch, mewn modd tebyg i'r hyn a fydd yn dod yn ofyniad statudol o dan y Ddeddf. Nid ydym yn disgwyl i'r Ddeddf effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth o fewn y sector, gan fod unrhyw achrediad gwirfoddol yn debygol o fod yn uwch na gofynion y gyfraith ac felly yn dal i allu dangos eiddo â safonau uwch, a bydd darparwyr llety ymwelwyr yn aml yn ceisio achrediad gyda mwy nag un corff.

# 11. Adolygu ar ôl gweithredu

11.1. Mae'r Ddeddf hon yn cyflwyno cynllun trwyddedu statudol ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru. Rydym yn datblygu cynllun gweithredu manwl i roi'r cynllun trwyddedu ar waith, a bydd adolygiad ôl-weithredu o'r cynllun a gyflwynir gan y Ddeddf yn rhan o'r cynllun gweithredu.

11.2. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o fewn pum mlynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Disgwylir y bydd y broses adolygu ffurfiol yn dechrau unwaith y bydd y cynllun wedi bod ar waith ers blwyddyn. Y rhagdybiaeth a wneir yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw y daw'r gofynion trwyddedu'n effeithiol o wanwyn 2029. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 'cymal gwawrio' i sicrhau bod darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym yn awtomatig ym mis Mawrth 2030 oni bai bod y seithfed Senedd yn gwneud deddfwriaeth sylfaenol i'w dirymu neu fod y Llywodraeth yn gohirio'r dyddiad hwnnw am hyd at ddwy flynedd arall os oes angen gwneud hynny.

11.3. Bydd amcanion yr adolygiad yn cynnwys:
- asesu effeithiolrwydd y cynllun trwyddedu a gyflwynir gan y Ddeddf o ran cyflawni ei amcanion;
- cymharu'r costau a'r manteision a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn â'r costau a'r manteision go iawn;
- pwyso a mesur effeithiau'r Ddeddf; a
- gwerthuso'r mesurau ar gyfer gweithredu'r Ddeddf a'u heffeithiolrwydd o ran cyflawni amcanion y Ddeddf.

11.4. Nid yw manylion llawn yr adolygiad wedi cael eu nodi hyd yn hyn. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i lunio a datblygu adolygiad ôl-weithredu o'r newidiadau deddfwriaethol, yn ogystal ag adolygu'r modd y mae'r cynllun trwyddedu statudol wedi'i roi ar waith. Bydd ein cynllun cyflawni'n cynnwys fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu dulliau addas ar gyfer casglu tystiolaeth sylfaenol er mwyn gallu gwerthuso, a byddwn yn adrodd ar y cynnydd.

11.5. Bydd yr adolygiad yn ystyried adborth, er enghraifft darparwyr llety ymwelwyr, y prif reoleiddwyr, ymwelwyr, asiantiaid archebu, a rhanddeiliaid eraill.

11.6. Bydd y gwerthusiad hwn yn cynnwys adolygiad o'r asesiad effaith integredig. Bydd yr adolygiad yn ystyried a fu unrhyw effeithiau amlwg ar y sector twristiaeth, ac yn asesu a oes angen newid y canllawiau sy'n rhan o'r cynllun.

11.7. Gyda mewnbwn rhanddeiliaid, byddwn yn dewis dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y cynllun, ynghyd â metrigau gweithredol clir y gellir wedyn eu mesur, eu cymharu ac adrodd arnynt. Bydd disgwyl i'r adolygiad ôl-weithredu fesur cynnydd ar eu sail. Mae'r metrigau'n debygol o gynnwys cyfraddau cydymffurfio ac effeithlonrwydd gweinyddol.

11.8. Mae'n bwysig nodi cyfyngiadau unrhyw adolygiad ôl-weithredu yng nghyd-destun sector sydd wedi gweld sawl newid yn ddiweddar a sector sydd wedi gorfod gweithredu o dan effaith digwyddiadau byd-eang a grymoedd ehangach y farchnad a'r economi. Wrth reswm, cyfyngir yr adolygiad gan y cyd-destun economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol ehangach y mae'r ddeddfwriaeth yn gweithredu ynddo. Mae'n debygol o fod yn hynod anodd priodoli unrhyw effaith ar y sector llety ymwelwyr i unrhyw ymyrraeth benodol.

**ATODIAD 1**

# DEDDF DATBLYGU TWRISTIAETH A RHEOLEIDDIO LLETY YMWELWYR (CYMRU) 2026

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 ("y Ddeddf") a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 3 Tachwedd 2025. Fe'u lluniwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf, ond nid ydynt yn rhan ohoni.

2. Nid yw'r nodiadau hyn yn darparu disgrifiad cynhwysfawr o gynnwys y Ddeddf. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar ddarpariaeth yn y Ddeddf, nis rhoddir.

### CRYNODEB A CHEFNDIR

3. Diben y Ddeddf yw hybu datblygiad twristiaeth yng Nghymru. Mae'n gwneud hyn drwy:
   - ailddatgan a moderneiddio swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran hybu twristiaeth yng Nghymru, a'i gwneud yn ofynnol iddynt roi sylw i effaith gymdeithasol bosibl twristiaeth a'i heffaith bosibl ar yr amgylchedd a'r Gymraeg;
   - rheoleiddio darpariaeth llety ymwelwyr yng Nghymru drwy:
     - o gyflwyno cyfundrefn drwyddedu i roi sicrwydd i ymwelwyr bod llety yn cyrraedd y safonau y byddent yn eu disgwyl a sicrhau bod y safonau hynny, yn achos llety hunanddarpar, yn cyd-fynd yn agosach â safonau cyfatebol sydd eisoes yn gymwys i'r sector rhentu preifat yng Nghymru,
     - o gwneud safon mewn perthynas â ffitrwydd llety ymwelwyr yn ofyniad contractiol, ac
     - o adeiladu ar y gofrestr a grëwyd gan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 i sefydlu cyfeiriadur o lety ymwelwyr at ddiben darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lety ymwelwyr yng Nghymru.

4. At ddiben gwneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, mae'r Ddeddf yn darparu ei bod, ynghyd â Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, yn ffurfio rhan o god o gyfraith Cymru ar dwristiaeth. Bydd is-ddeddfwriaeth a wneir maes o law o dan y Ddeddf neu'r Ddeddf honno hefyd yn ffurfio rhan o'r cod.

5. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 62 o adrannau, wedi eu trefnu yn bum Rhan a dwy Atodlen:
   - Mae Rhan 1 yn darparu trosolwg o'r Ddeddf.
   - Mae Rhan 2 yn nodi cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â hybu a datblygu twristiaeth yng Nghymru.
   - Mae Rhan 3 yn ymwneud â rheoleiddio mathau penodol o lety ymwelwyr yng Nghymru, gan gynnwys drwy gyflwyno cynllun trwyddedu
   - Mae Rhan 4 yn sefydlu cyfeiriadur o lety ymwelwyr yng Nghymru, ac yn nodi gofynion ar gyfer cynnwys gwybodaeth am gofrestru (o dan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025) a thrwyddedu mewn unrhyw farchnata neu hysbysebu o ran llety ymwelwyr yng Nghymru.
   - Mae Rhan 5 yn nodi darpariaethau amrywiol a chyffredinol, gan gynnwys mewn perthynas â gweithredu'r Ddeddf mewn achosion arbennig.
   - Mae Atodlen 1 yn rhestru diwygiadau a wneir gan y Ddeddf i Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969.
   - Mae Atodlen 2 yn rhestru diwygiadau a wneir gan y Ddeddf i Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

## SYLWEBAETH AR ADRANNAU

## RHAN 1 – CYFLWYNIAD

### Adran 1 – Trosolwg

6. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r Ddeddf. Mae isadran (1) yn ddatganiad am statws y Ddeddf fel rhan o god o gyfraith Cymru. Defnyddir y datganiad hwn i ddynodi bod gan ddeddfwriaeth statws cod yn unol â'r cysyniad a gyflwynwyd gan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Ystyr statws cod (ymysg materion eraill) yw bod y Ddeddf a Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, gyda'i gilydd, yn cynnwys datganiad cynhwysfawr o ddeddfwriaeth sylfaenol Cymru ar dwristiaeth.

7. Bwriad y datganiad statws hwn yw helpu personau sydd â diddordeb yn y gyfraith ar bwnc penodol – twristiaeth yn yr achos hwn – i ddod o hyd iddi a'i dosbarthu'n haws. Mae'r cyfeiriad at statws y Ddeddf wedi ei gynnwys gyda'r nod y bydd is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf yn gwneud darpariaeth sy'n union yr un fath. Bwriad Llywodraeth Cymru, yn fwy cyffredinol, yw y bydd deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth drydyddol (canllawiau yn bennaf) yn cael eu categoreiddio a'u cyhoeddi fel codau cyfraith cydlynol ar bynciau penodol yn y dyfodol.

8. Mae dosbarthu Deddfau yn y ffordd hon yn gyson â'r argymhelliad a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru (Comisiwn y Gyfraith Rhif 366, 2016). Yn yr adroddiad hwnnw cydnabuwyd pwysigrwydd sicrhau bod y gyfraith yn hygyrch er mwyn cynnal uniondeb y gyfraith. Bwriad rhoi statws cod i Ddeddf yw annog symud oddi wrth sefyllfa pan fo'r gyfraith ar bwnc penodol wedi ei gwasgaru dros nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol ar wahân. Yn hytrach, y bwriad yw y bydd Biliau'r Senedd yn y dyfodol yn cael eu deddfu a'u cynnal mewn ffordd sy'n caniatáu i'r sawl sy'n defnyddio'r ddeddfwriaeth ddod o

hyd i gymaint â phosibl o'r gyfraith sy'n effeithio ar bwnc penodol drwy ddarllen un Ddeddf gan y Senedd neu is-ddeddfwriaeth a wneir odani.

9. Mae isadrannau (2) i (9) yn darparu crynodeb o bob Rhan a Phennod yn y Ddeddf.

## RHAN 2 – DATBLYGU TWRISTIAETH

### Adran 2 – Swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran datblygu twristiaeth

10. Mae'r adran hon yn disgrifio cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â datblygu twristiaeth yng Nghymru.

11. Mae'r cyfrifoldebau hynny wedi eu nodi ar hyn o bryd yn Neddf Datblygu Twristiaeth 1969 ("Deddf 1969"). Yn ogystal, mae Deddf Twristiaeth (Hybu Dramor) (Cymru) 1992 yn ategu Deddf 1969 drwy ddarparu bod y pwerau o dan Ddeddf 1969 yn cynnwys y pŵer i gynnal unrhyw weithgareddau y tu allan i'r Deyrnas Unedig er mwyn annog pobl i ymweld â Chymru.

12. Mae is-adran (1) yn ailddatgan swyddogaethau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol (y DU) yn wreiddiol gan y Deddfau hynny, ac a drosglwyddwyd yn ddiweddarach i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â datblygu twristiaeth. Mae is-adran (2) yn cynnwys darpariaeth gysylltiedig newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i bwysigrwydd lliniaru'r effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol y mae twristiaid yn eu cael, ac i gynnal a hybu defnydd o'r Gymraeg wrth arfer eu swyddogaethau o dan is-adran (1). Mae is-adran (3), sydd hefyd yn ailddatgan Deddf 1969, yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch cwmpas y swyddogaethau a roddir gan is-adran (1), gan ddarparu enghreifftiau o gamau gweithredu y gellir eu cymryd wrth arfer y swyddogaethau hynny.

13. Mae is-adran (5) yn cyfeirio at adran 3 o Ddeddf 1969, sef adran y caiff Awdurdod Twristiaeth Prydain lunio cynllun odani sy'n darparu bod Bwrdd Twristiaeth Lloegr, VisitScotland a Gweinidogion Cymru i roi cymorth ariannol ar gyfer cyflawni prosiectau i ddarparu neu wella cyfleusterau neu amwynderau twristiaeth. Cyfeirir at y ddarpariaeth hon oherwydd ei bod yn debyg yn ei hanfod ac oherwydd y posibilrwydd o'i defnyddio mewn perthynas â thwristiaeth yng Nghymru.

### Adran 3 – Cod ymarfer ar dwristiaeth

14. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch arferion gorau mewn perthynas â darparu amwynderau, cyfleusterau a gwasanaethau i dwristiaid yng Nghymru, ac â darparu llety ymwelwyr. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r cod neu, os ydynt yn ystyried nad yw o ddefnydd ymarferol mwyach, ei dynnu yn ôl ar ôl ymgynghori â sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau sy'n gweithio ym maes twristiaeth neu sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yng Nghymru.

### Adran 4 – Diwygio deddfiadau ar dwristiaeth

15. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 er mwyn egluro bod y Ddeddf honno, ynghyd â'r Ddeddf hon, yn ffurfio rhan o god o gyfraith Cymru sy'n ymwneud â thwristiaeth. Mae'r adran hefyd yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Ddeddf, sy'n diwygio Deddf 1969 er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod darpariaethau fel y maent yn ymwneud â hybu twristiaeth yng Nghymru wedi eu hymgorffori yn y Ddeddf hon, ac yn diddymu Deddf Twristiaeth (Hybu Dramor) (Cymru) 1992.

## RHAN 3 – RHEOLEIDDIO LLETY YMWELWYR

## PENNOD 1 – CYSYNIADAU ALLWEDDOL

### Adran 5 – Ystyr llety ymwelwyr rheoleiddiedig

16. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn rheoleiddio darparu disgrifiadau penodol o lety ymwelwyr yng Nghymru ("llety ymwelwyr rheoleiddiedig") drwy gynllun trwyddedu a sefydlir o dan Bennod 2 o'r Rhan hon a thrwy ymgorffori telerau mewn contractau llety ymwelwyr o dan Bennod 3 o'r Rhan hon. Mae adran 5 yn diffinio llety ymwelwyr rheoleiddiedig at y dibenion hyn.

17. Mae adran 5(1) yn darparu mai dim ond llety sy'n dod o fewn y disgrifiad o "llety ymwelwyr" yn adran 2(1) o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ("Deddf 2025") sy'n gallu bod yn llety ymwelwyr rheoleiddiedig at ddibenion y Ddeddf. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys llety ymwelwyr sydd wedi ei eithrio gan adran 5(7); h.y. llety o fewn adran 29(2)(b) o Ddeddf 2025 (llety a ddarperir gan gyrff cyhoeddus at ddibenion sy'n cynnwys digartrefedd, mewnfudo, lloches, mechnïaeth neu brawf).

18. Mae adran 5(1) yn darparu nad yw llety ymwelwyr yn cael ei reoleiddio o dan y Ddeddf ond os yw'n llety ymwelwyr hunanddarpar, hunangynhwysol a ddarperir mewn adeilad neu mewn cartref symudol, llestr neu gerbyd arall (gweler adran 5(1)(a)) neu os yw o ddisgrifiad y caniateir ei ragnodi gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau (gweler adran 5(1)(b)). Fodd bynnag, yn rhinwedd adran 5(2)(a), mae llety mewn sefydliad traddodiadol megis gwesty, tŷ llety neu lety gwely a brecwast, a llety mewn safle gwersylla neu safle carafannau y mae cynlluniau trwyddedu o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 neu Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 yn gymwys mewn cysylltiad â hwy, wedi ei eithrio hyd yn oed pe bai fel arall yn dod o fewn y diffiniad o lety hunanddarpar, hunangynhwysol. Mae'r llety a ganlyn wedi ei eithrio o dan adran 5(2)(a) hefyd, sef llety mewn hostel ieuenctid, byncws neu ysgubor gwersylla na fyddai'n cael ei ddarparu fel llety hunanddarpar, hunangynhwysol fel arfer, ond a allai, serch hynny, ddod o fewn y diffiniad hwnnw pe bai'r fangre gyfan yn cael ei darparu i un person neu un sefydliad (er enghraifft person yn llogi'r fangre gyfan ar gyfer digwyddiad neu grŵp ieuenctid). O dan adran 5(2)(b) ac (c), mae unrhyw lety hunanddarpar, hunangynhwysol arall a ddarperir naill ai am fwy na 31 o nosweithiau (nad oes angen iddynt fod yn olynol) ac nad yw'n cael ei ddarparu at ddibenion teithio ar gyfer busnes neu hamdden neu ar gyfer tripiau addysgol neu, yn achos llety mewn cartref symudol, llestr neu gerbyd arall, nad yw wedi ei leoli'n barhaol neu'n lled-barhaol mewn un lle, wedi ei eithrio hefyd.

19. Mae adran 5(3) yn disgrifio'r nodweddion y mae rhaid i lety hunanddarpar feddu arnynt i gael ei ystyried yn "hunangynhwysol". Rhaid i lety o'r fath gynnwys gwely ar gyfer cysgu; toiled, sinc, a bath neu gawod; a chegin neu ardal gegin, y mae rhaid darparu pob un ohonynt at ddefnydd yr ymwelydd a neb arall yn ystod ei arhosiad.

20. Mae adran 5(4) i (6) yn nodi manylion y pŵer sydd gan Weinidogion Cymru i ragnodi disgrifiadau pellach o lety ymwelwyr rheoleiddiedig o dan adran 5(1)(b).

21. Mae adran 5(7) yn nodi nifer o dermau allweddol eraill yn y Ddeddf hon y mae iddynt yr ystyr a roddir yn Neddf 2025 neu sydd i'w darllen drwy gyfeirio at dermau yn y Ddeddf honno. Mae'r rhain yn cynnwys "darparwr llety ymwelwyr" (neu "DLlY"), "darparu" neu "yn cynnig darparu", a "mangre".

## Adran 6 – Ystyr ffitrwydd i fod yn llety Ymwelwyr

22. Mae'r cynllun trwyddedu a sefydlir ym Mhennod 2 o'r Rhan hon wedi ei danategu gan y cysyniad o "ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr". Mae hyn wedi ei seilio ar y safon "ffitrwydd annedd i bobl fyw ynddi" yn y sector rhentu preifat. Mae ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr hefyd wedi ei ymgorffori fel teler mewn contract ar gyfer darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig gan Bennod 3 o'r Rhan hon.

23. Mae adran 6(1) yn esbonio, at ddibenion y Ddeddf, yr ystyrir bod mangre lle y darperir (neu y cynigir) llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn 'ffit' i fod yn llety ymwelwyr oni bai bod y naill amgylchiad neu'r llall ym mharagraffau (a) a (b) yn gymwys. Yr amgylchiad a ddisgrifir ym mharagraff (a) yw nad yw'r fangre yn rhesymol addas i ymwelydd breswylio ynddi oherwydd bod risg o niwed neu o golli amwynder yn codi yn sgil y ffaith bod y fangre heb gyrraedd y safon gyffredinol o ran ffitrwydd a ddiffinnir yn adran 7. Yr amgylchiad a ddisgrifir ym mharagraff (b) yw bod un neu ragor o'r safonau ffitrwydd penodol (a restrir yn adran 8) sy'n gymwys mewn cysylltiad â'r fangre heb ei chyrraedd neu heb eu cyrraedd. Caniateir diwygio'r safon gyffredinol o ran ffitrwydd a'r safonau ffitrwydd penodol drwy reoliadau.

24. Mae adran 6(4)(a) yn gwneud darpariaeth ategol ynghylch ystyr ffitrwydd o dan amgylchiadau pan ddarperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn rhan yn unig o'r fangre y mae'r DLlY wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hi. Er enghraifft, pan fo'r DLlY wedi trosi adeilad ar wahân yn ei fangre yn un neu ragor o unedau o lety hunanddarpar, hunangynhwysol. Pan fo hyn yn digwydd, nid yw unrhyw ran o'r fangre lle y mae'r DLlY yn darparu'r llety yn ffit oni bai bod y safon gyffredinol o ran ffitrwydd a'r safonau ffitrwydd penodol wedi eu cyrraedd mewn perthynas â'r rhan honno yn benodol. Pan ddarperir unedau o lety ar wahân mewn sawl rhan o'r fangre, rhaid i bob un o'r rhannau hynny fod yn "ffit i fod yn llety ymwelwyr" yn annibynnol ar ei gilydd. Rhaid cyrraedd y safon gyffredinol o ran ffitrwydd a'r safonau ffitrwydd penodol mewn perthynas â phob rhan o'r fangre lle y darperir unrhyw lety, ni waeth a ydynt hefyd wedi eu cyrraedd mewn perthynas ag unrhyw ran arall o'r fangre.

25. Mae adran 6(4)(b) hefyd yn egluro, pan ddarperir llety hunanddarpar, hunangynhwysol mewn adeilad, cartref symudol, llestr neu gerbyd arall, fod ffitrwydd (gan gynnwys y safonau yn adrannau 7 ac 8) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ardal yn yr awyr agored, unrhyw garej neu unrhyw adeilad arall sydd at ddefnydd yr ymwelydd a neb arall yn ystod ei arhosiad yn ogystal ag i'r rhan o'r adeilad y mae'r llety ynddi yn bennaf.

## Adran 7 – Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: y safon

26. Mae'r adran hon yn disgrifio'r safon gyffredinol o ran ffitrwydd y mae rhaid i fangre lle y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig ei chyrraedd. Mae'r safon yn cynnwys gofynion sydd wedi eu rhannu'n ofynion sydd i'w hystyried mewn perthynas â'r risg o niwed y maent yn ei pheri i ymwelwyr os nad ydynt yn cael eu bodloni, ac yn ofynion sydd i'w hystyried mewn perthynas â cholli amwynder i ymwelwyr os nad ydynt yn cael eu bodloni. Mae'r gofynion yn amrywio o feysydd eang megis sefydlogrwydd strwythurol ac atgyweirio i faterion culach megis hylendid a chyfleusterau.

27. Mae'r adran yn egluro nad yw'r gofynion hyn i'w hystyried ond i'r graddau y maent yn gymwys i'r llety o dan sylw. Er enghraifft, gall yr hyn sy'n ddigonol mewn bwthyn fod yn sylweddol wahanol i'r hyn sy'n ddigonol ar safle gwersylla, pe bai safleoedd o'r fath yn cael eu cynnwys yn y gyfundrefn yn y dyfodol.

28. Mae adran 7, mewn cyfuniad ag adran 6, yn golygu, os nad yw unrhyw un neu ragor o'r gofynion hyn, os ydynt yn gymwys, wedi ei fodloni neu eu bodloni i'r graddau nad yw'r fangre yn rhesymol addas i ymwelydd aros ynddi – naill ai oherwydd y byddai risg o niwed i'r ymwelydd neu oherwydd y byddai ansawdd profiad yr ymwelydd yn cael ei niweidio i raddau digonol – yna nid yw'r safon gyffredinol o ran ffitrwydd wedi ei chyrraedd ac nid yw'r fangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr. At y dibenion hyn, mae i "y fangre" yr ystyr a roddir gan adran 6(4).

## Adran 8 – Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: y safonau penodol

29. Mae'r adran hon yn rhestru'r pum safon ffitrwydd benodol. Disgrifir pob un o'r rhain yn fanylach yn adrannau 9 i 13.

30. Mae adran 8, mewn cyfuniad ag adran 6, yn golygu, os nad yw unrhyw un neu ragor o'r safonau penodol sy'n gymwys mewn cysylltiad â mangre wedi ei chyrraedd neu wedi eu cyrraedd, ni fydd y fangre yn ffit o ganlyniad. Yn wahanol i'r safon gyffredinol o ran ffitrwydd, nid oes ots a yw'r methiant i gyrraedd y safon yn peri risg o niwed neu o golli amwynder i ymwelydd. Yn hytrach, byddai methiant i gyrraedd unrhyw un neu ragor o'r pum safon benodol (oni bai nad yw'n berthnasol i'r fangre o dan sylw) yn golygu yn awtomatig na fyddai'r fangre yn ffit. At y dibenion hyn, mae i "y fangre" yr ystyr a roddir gan adran 6(4).

## Adran 9 – Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: diogelwch tân

31. Mae'r adran hon yn disgrifio'r safon diogelwch tân. Er mwyn cyrraedd y safon, rhaid bodloni dau ofyniad:

- rhaid cynnal asesiad risg diogelwch tân mewn cysylltiad â'r fangre; a
- rhaid cynnal cofnod o'r rhagofalon tân cyffredinol a nodwyd ac a gymerwyd yn dilyn yr asesiad risg.

32. Mae'r safon diogelwch tân yn adlewyrchu'r gofynion yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ("GDT 2005") a'r canllawiau cysylltiedig. At y dibenion hyn, mae i "y fangre" yr ystyr a roddir gan adran 6(4).

**Adran 10 – Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: cynnal a chadw trydanol**

33. Mae'r adran hon yn esbonio, er mwyn cyrraedd y safon cynnal a chadw trydanol, yn achos llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn adeilad, cartref symudol, llestr neu gerbyd arall, a phan fo'n berthnasol (h.y. pan fo trydan), fod rhaid bod adroddiad ar gyflwr trydanol dilys ar gyfer y fangre. At y dibenion hyn, mae i "y fangre" yr ystyr a roddir gan adran 6(4).

34. Mae adroddiad ar gyflwr trydanol yn adroddiad a ddarperir gan berson cymwysedig ar ôl i bob gosodiad trydanol mewn mangre gael ei archwilio a'i brofi. Bydd adroddiad naill ai'n cadarnhau bod pob gosodiad yn ddiogel neu, os nodir unrhyw broblemau, caiff y rhain eu rhestru ynghyd ag unrhyw waith y mae'r person cymwysedig yn ystyried ei fod yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â hwy.

35. Mae'r safon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr sicrhau bod unrhyw waith sy'n ofynnol o ganlyniad yn cael ei gyflawni a'i gofnodi.

36. Mae adroddiad ar gyflwr trydanol fel arfer yn ddilys am bum mlynedd ond caiff nodi dyddiad cynharach erbyn pryd y dylid cynnal yr archwiliad trydanol nesaf. Mae'r safon cynnal a chadw trydanol yn adlewyrchu gofynion y canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag Erthygl 50 o GDT 2005.

**Adran 11 – Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: cynnal a chadw o ran nwy**

37. Mae'r adran hon yn nodi'r gofynion ynghylch y safon cynnal a chadw o ran nwy. Er mwyn cyrraedd y safon, yn achos llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn adeilad, cartref symudol, llestr neu gerbyd arall, rhaid bod cofnod cynnal a chadw o ran nwy mewn perthynas ag unrhyw gyfarpar nwy, unrhyw ffliw ac unrhyw bibellau cysylltiedig sydd naill ai wedi ei osod neu wedi eu gosod yn y fangre, neu sy'n gwasanaethu'r fangre, ac eithrio pan na fo'r cyfarpar nwy neu'r pibellau ond yn cael ei ddefnyddio neu eu defnyddio mewn rhan o'r fangre a feddiennir at ddibenion amhreswyl. Mae cofnod cynnal a chadw o ran nwy yn adroddiad a ddarperir gan beiriannydd cofrestredig Diogelwch Nwy yn dilyn gwiriad ffisegol o'r holl gyfarpar a ffliwiau.

38. Mae'r safon cynnal a chadw o ran nwy yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr gael archwiliad bob blwyddyn, ac yn ei gwneud yn ofynnol

bod cofnod o'r gwiriad ei hun, yn ogystal ag unrhyw waith a wnaed i gywiro diffyg, yn cael ei gadw, yn unol â Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998. At y dibenion hyn, mae i "y fangre" yr ystyr a roddir gan adran 6(4).

**Adran 12 – Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: risg carbon monocsid**

39. Mae'r adran hon yn nodi'r gofyniad mewn perthynas â risg carbon monocsid. Er mwyn cyrraedd y safon risg carbon monocsid, yn achos llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn adeilad, cartref symudol, llestr neu gerbyd arall, rhaid bod larwm carbon monocsid gweithredol mewn unrhyw ystafell yn y fangre y mae ynddi naill ai gyfarpar nwy, cyfarpar hylosgi sy'n cael ei danio ag olew, neu gyfarpar hylosgi sy'n llosgi tanwydd solet (at ddibenion y safon hon, mae "ystafell" yn cynnwys cynteddau, pennau grisiau a choridorau ac ardaloedd tebyg, ac mewn perthynas â chartrefi symudol, llestrau a cherbydau eraill, mae hefyd yn cynnwys caban neu ardal debyg). Mae'r safon yn adlewyrchu gofynion y canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag Erthygl 50 o GDT 2005. At y dibenion hyn, mae i "y fangre" yr ystyr a roddir gan adran 6(4).

**Adran 13 – Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: yswiriant**

40. Mae'r adran hon yn nodi'r gofyniad ynghylch yswiriant. Er mwyn cyrraedd y safon, rhaid i ddarparwr llety ymwelwyr fod â pholisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ei le i gwmpasu unrhyw iawndaliadau neu anafiadau i drydydd partïon (h.y. ymwelwyr, neu aelodau o'r cyhoedd) a allai ddigwydd ym mangre'r llety ymwelwyr. At y dibenion hyn, mae i "y fangre" yr ystyr a roddir gan adran 6(4).

41. Mae pŵer i wneud rheoliadau hefyd wedi ei gynnwys er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i osod gofynion penodol mewn perthynas â materion penodol y mae rhaid i bolisïau yswiriant ddarparu sicrwydd ar eu cyfer, neu mewn perthynas â chwmpas y sicrwydd, er enghraifft isafswm ariannol o sicrwydd.

**PENNOD 2 – TRWYDDEDU**

**Adran 14 – Trwyddedau llety Ymwelwyr**

42. Mae adran 14 yn rhoi ystyr "trwydded llety ymwelwyr". Gall mangre neu ran o fangre fod yn ddarostyngedig i un neu ragor o drwyddedau.

43. Mae adran 14 hefyd yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n diwygio Deddf 2025 mewn cysylltiad â thrwyddedu.

**Adran 15 – Amodau trwydded: cyffredinol**

44. Yn rhinwedd adran 15(1), rhaid i unrhyw drwydded llety ymwelwyr a roddir o dan y Bennod hon fod yn ddarostyngedig i'r amodau a restrir yn adran 15(3) ac unrhyw amodau pellach a ragnodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 17 (i'r graddau y mae'r amodau'n gymwys).

45. Mae adran 15(3) yn rhestru'r amodau y mae rhaid gwneud trwydded yn ddarostyngedig iddynt pan gaiff ei rhoi i DLlY. Y rhain yw bod y DLlY wedi

ei gofrestru (o dan Ddeddf 2025) mewn cysylltiad â'r fangre y bydd trwydded yn ymwneud â hi a bod ei gofnod yn y gofrestr honno yn dangos bod y DLlY yn darparu'r llety rheoleiddiedig yn y fangre honno. Yn ogystal, rhaid i'r drwydded gael ei rhoi ar yr amod bod y DLlY yn bodloni unrhyw ofynion hyfforddiant rhagnodedig (gweler adran 16) sy'n gymwys i'r DLlY.

46. O ran y fangre, rhaid cyrraedd y safonau ffitrwydd penodol, i'r graddau y maent yn gymwys, a rhaid cyrraedd y safon gyffredinol o ran ffitrwydd yn ystod unrhyw gyfnod pryd y mae gan ymwelydd hawlogaeth i breswylio yn y llety. Mae hyn yn gymwys ni waeth a yw ymwelydd sydd â hawlogaeth i breswylio yn gwneud hynny mewn gwirionedd.

47. Yn achos llety hunanddarpar, hunangynhwysol, mae hefyd yn amod trwydded fod y DLlY yn cymryd pob cam rhesymol wrth ddarparu'r llety yn y fangre i atal ymddygiad a allai beri niwsans neu annifyrrwch ac, os yw'n digwydd, i atal y niwsans neu'r annifyrrwch hwnnw.

48. Nid yw'r amod hwn ond yn gymwys i atal ymddygiad y mae modd i'r DLlY ei ragweld, neu y dylai fod modd i'r DLlY ei ragweld, ac sy'n ymarferol i'w atal. Gallai camau a gymerir o dan yr amod hwn gynnwys, er enghraifft, osod telerau contractiol ar gyfer ymwelwyr mewn perthynas ag atal ymddygiad o'r fath; darparu canllawiau i ymwelwyr mewn perthynas â chyfyngiadau parcio, sŵn, a threfniadau gwaredu a chasglu gwastraff; a darparu manylion cyswllt i gymdogion ar gyfer unrhyw gwynion neu unrhyw bryderon.

49. Dylid darparu copi o dystysgrif y drwydded i ymwelydd cyn iddo gyrraedd, a rhaid i gopi o dystysgrif y drwydded fod yn hygyrch (ar ffurf papur neu'n electronig (er enghraifft drwy god QR)) yn y fangre pan fydd arhosiad dros nos yn digwydd.

50. Mae pob un o'r amodau trwydded a restrir yn adran 15(3) yn gymwys mewn cysylltiad â mangre lle y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig gan fod y safonau ffitrwydd yn gymwys yn rhinwedd adran 6(4) (gweler ymhellach uchod).

## Adran 16 – Amodau trwydded: hyfforddiant ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr

51. Er mwyn cefnogi'r gyfundrefn reoleiddio, sy'n anelu at sicrhau safonau cyson ar gyfer llety ymwelwyr rheoleiddiedig, mae adran 16 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod gofyniad hyfforddiant ar DLlYau sy'n darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig. Byddai'r hyfforddiant yn cwmpasu'r gofyniad i fangre fod yn ffit i fod yn llety ymwelwyr, unrhyw amodau trwydded eraill a osodir o dan adran 15, cynnwys unrhyw god ymarfer a ddyroddir o dan adran 3 ac unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â rheoleiddio llety ymwelwyr.

52. Caiff y rheoliadau, os y'u gwneir, osod gofynion gwahanol ar fathau gwahanol o DLlY neu fangre a chânt nodi achosion pryd y caiff DLlY fod yn esempt rhag y gofyniad i gwblhau hyfforddiant. Cânt hefyd wneud darpariaeth ynghylch

pwy a all ddarparu'r hyfforddiant, ac ar gyfer codi ffioedd. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau priodol cyn gwneud unrhyw reoliadau o'r fath.

**Adran 17 – Amodau trwydded: amodau pellach**

53. Mae adran 17 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru osod amodau trwydded ychwanegol os oes angen. Gallai hyn ganiatáu i amodau ychwanegol gael eu gosod ar lety ymwelwyr rheoleiddiedig fel y'i diffinnir yn y Ddeddf, ond mae hefyd yn caniatáu i amodau ychwanegol priodol gael eu gosod ar gyfer mathau eraill o lety ymwelwyr pe bai'r cynllun yn cael ei ehangu yn y dyfodol.

54. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i amodau gael eu hychwanegu mewn perthynas â chynnal neu wella safon llety ymwelwyr, gwella amwynder mangreoedd a hybu twristiaeth.

**Adran 18 – Ceisiadau am drwydded: cyffredinol**

55. Mae adran 18 yn disgrifio'r broses y mae rhaid i DLlY sy'n bwriadu darparu, neu gynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig ei dilyn wrth wneud cais i Weinidogion Cymru am drwydded (ond gweler hefyd adran 27, sy'n ymdrin â cheisiadau am drwyddedau dros dro). Mae'n darparu bod rhaid i gais gael ei wneud ar y ffurf gywir, cynnwys gydag ef ffi am gais am drwydded, a chynnwys unrhyw wybodaeth am y fangre, y cais a'r gofynion cymeradwyo, a bennir gan Weinidogion Cymru.

56. Ceir esboniad o'r gofynion cymeradwyo yn adran 19.

**Adran 19 – Ceisiadau am drwydded: gofynion cymeradwyo**

57. Mae adran 19 yn disgrifio'r gofynion ("y gofynion cymeradwyo") y mae rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni eu bod wedi eu bodloni mewn perthynas â'r ceisydd ac â'r fangre lle y mae llety ymwelwyr rheoleiddiedig i'w gynnig neu i'w ddarparu cyn iddynt roi trwydded o dan adran 20 (ond gweler hefyd adran 27, sy'n gwneud darpariaeth i DLlY wneud cais am drwydded dros dro o dan amgylchiadau pan na fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod amodau cymeradwyo penodol wedi eu bodloni).

58. Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod y DLlY wedi ei gofrestru a bod cofnod y DLlY yn y gofrestr yn dangos y llety ymwelwyr rheoleiddiedig, y mae'r cais yn ymwneud ag ef, yn y fangre. Rhaid iddynt hefyd fod wedi eu bodloni bod y DLlY yn bodloni unrhyw ofynion hyfforddiant cymwys, bod y safonau ffitrwydd penodol wedi eu cyrraedd mewn perthynas â'r fangre (i'r graddau y maent yn gymwys), a bod y fangre yn ymddangos fel pe bai'n cynnig amwynder digonol a phriodol i ymwelwyr.

59. Yn ogystal, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod y safon gyffredinol o ran ffitrwydd yn debygol o gael ei chyrraedd yn ystod unrhyw gyfnod pryd y mae gan ymwelydd hawlogaeth i breswylio yn y llety. Mae adran 20 yn egluro y gallant ddod i'r casgliad hwn ar y sail bod y gofynion

cymeradwyo mewn perthynas â'r safonau ffitrwydd penodol ac mewn perthynas ag amwynder wedi eu bodloni.

60. Ceir pŵer i wneud rheoliadau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi gofynion cymeradwyo eraill drwy reoliadau os ydynt yn ystyried y byddai hyn yn briodol. Cyn gwneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau priodol.

61. Mae pob un o'r gofynion cymeradwyo a restrir yn adran 19 yn gymwys mewn cysylltiad â mangre lle y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig gan fod y safonau ffitrwydd yn gymwys yn rhinwedd adran 6(4) (gweler ymhellach uchod).

**Adran 20 – Ceisiadau am drwydded: dyfarnu**

62. Mae'r adran hon yn nodi'r weithdrefn ar gyfer dyfarnu ar gais am drwydded a wneir gan DLlY yn unol ag adran 18. Pan fo DLlY yn gwneud cais am drwydded yn unol ag adran 27 ("trwydded dros dro"), y weithdrefn a nodir yn yr adran honno sy'n gymwys yn yr achos hwnnw.

63. Os yw Gweinidogion Cymru yn cael cais a wnaed yn unol ag adran 18, rhaid iddynt, o fewn amserlen resymol, ddyfarnu a yw'r gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni mewn perthynas â'r fangre y mae'r cais yn ymwneud â hi.

64. Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo yn adran 19 wedi eu bodloni a bod y ffi am drwydded wedi ei thalu, rhaid iddynt roi'r drwydded yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn adran 15(1). Fodd bynnag, os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni, yn ddarostyngedig i'r pŵer i gynnal asesiad pellach yn gyntaf, ac ni waeth a yw'r ffi am gais am drwydded wedi ei thalu, rhaid iddynt wrthod y cais. Yn y naill achos neu'r llall, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r DLlY am eu penderfyniad (a nodi unrhyw hawliau apelio a all fod gan y DLlY) o fewn amserlen resymol.

65. Caiff Gweinidogion Cymru seilio eu dyfarniad o ran a yw'r gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r fangre y mae'r cais yn ymwneud â hi ar yr wybodaeth neu'r dystiolaeth a ddarperir neu a hepgorir gan y ceisydd. Cânt hefyd ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol arall neu unrhyw dystiolaeth berthnasol arall sydd ar gael iddynt. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, wybodaeth a ddarperir gan awdurdod lleol, Rhentu Doeth Cymru neu awdurdod tân ac achub. Caiff y math o wybodaeth y gellir ei darparu ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion cymeradwyo, er enghraifft dirymu trwydded landlord ceisydd neu unrhyw gamau rheoleiddiol eraill a gymerir gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â ffitrwydd y fangre. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi cynnal asesiad pellach o'r cais o dan adran 21, cânt hefyd ystyried unrhyw wybodaeth neu unrhyw dystiolaeth a gawsant (neu a ddarparwyd iddynt) wrth gynnal yr asesiad hwnnw.

66. Mewn perthynas â'r safon diogelwch tân yn adran 9, mae adran 20 hefyd yn dileu unrhyw rwymedigaeth a allai fod ar Weinidogion Cymru fel arall (o dan

erthygl 42(1)(a) o GDT 2005), er mwyn sicrhau bod yr awdurdod tân ac achub perthnasol yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau ynghylch trwydded arfaethedig cyn i Weinidogion Cymru allu ei dyroddi.

**Adran 21 – Ceisiadau am drwydded: asesiad pellach cyn dyfarnu**

67. Mae'r adran hon yn disgrifio'r broses y mae rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn, o fewn amserlen resymol, os nad ydynt wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni a'u bod yn ystyried bod asesiad pellach yn briodol

68. Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddyroddi hysbysiad i'r DLlY yn esbonio pam nad ydynt wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni ac yn pennu unrhyw gamau gweithredu y gallai'r DLlY eu cymryd (neu wybodaeth y gallai ei darparu) at ddiben bodloni Gweinidogion Cymru. Rhaid i'r hysbysiad ddatgan faint o amser sydd gan y DLlY i ddarparu'r wybodaeth neu i gymryd y camau gweithredu, ac na chaiff y cyfnod hwnnw fod yn llai nag 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y dyroddir yr hysbysiad.

69. Rhaid i'r hysbysiad am asesiad pellach hefyd bennu unrhyw gamau gweithredu y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig eu cymryd er mwyn dyfarnu a yw'r gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni. Mae'r camau gweithredu y caiff Gweinidogion Cymru eu cymryd yn cynnwys archwilio'r eiddo gyda chytundeb y DLlY neu ymgynghori ag awdurdod lleol, ag awdurdod tân ac achub neu â Rhentu Doeth Cymru.

70. Nid yw'r penderfyniad i gynnal asesiad pellach yn effeithio ar ddyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan adran 20. Ar ôl cwblhau'r asesiad pellach, rhaid i Weinidogion Cymru roi neu wrthod y drwydded yn unol â darpariaethau'r adran honno.

**Adran 22 – Trwydded llety ymwelwyr: dyroddi tystysgrif a datganiad o wybodaeth**

71. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi tystysgrif trwydded a datganiad o wybodaeth i DLlY pan fyddant yn rhoi trwydded llety ymwelwyr o dan adran 20. Mae'n disgrifio'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn y dystysgrif trwydded, sef y llety ymwelwyr rheoleiddiedig y caniateir ei ddarparu (neu ei gynnig) yn y fangre y mae'r drwydded yn ymwneud â hi, a'r amodau trwydded sy'n gymwys mewn perthynas â'r llety hwnnw (gweler adran 15). Mae'r datganiad o wybodaeth yn esbonio sut mae'r cynllun trwyddedu yn gweithredu a sut y gall ymwelwyr wneud cwynion i Weinidogion Cymru.

**Adran 23 - Dirymu**

72. Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod DLlY wedi torri amod yn ei drwydded, a bod yr amod hwnnw'n debygol o barhau i gael ei dorri neu o gael ei dorri eto, neu os yw'r DLlY wedi cytuno y dylid dirymu'r drwydded, mae adran 23 yn disgrifio sut y caiff Gweinidogion Cymru ddirymu'r drwydded.

*Enghraifft*

73. Mae un o'r amodau trwydded yn ei gwneud yn ofynnol i'r fangre gael cofnod cynnal a chadw o ran nwy mewn cysylltiad ag unrhyw gyfarpar nwy sydd wedi ei osod yn y fangre. Daw Gweinidogion Cymru yn ymwybodol nad oes cofnod cynnal a chadw o ran nwy, er gwaethaf rhybuddion blaenorol. Maent yn ystyried bod yr amod yn adran 15(3)(c) wedi ei dorri a'i fod yn debygol o barhau i gael ei dorri. Maent yn penderfynu dirymu'r drwydded ac yn dyroddi hysbysiad dirymu. Os nad yw'r DLlY yn apelio yn erbyn yr hysbysiad, mae'r dirymiad yn cymryd effaith drannoeth y diwrnod y daw'r cyfnod apelio i ben, ac mae'r DLlY yn cyflawni trosedd o dan adran 32 os yw'r DLlY yn darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre honno, neu'n cyflawni trosedd o dan adran 44 os yw'n hysbysebu neu'n marchnata fel arall, neu'n cynnig, lety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre honno.

74. Fel arall, efallai y bydd DLlY yn dymuno peidio â darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig ac ildio ei drwydded. Yn yr achos hwn, caiff gytuno â Gweinidogion Cymru y dylid dirymu ei drwydded, a bydd y dirymiad yn cymryd effaith ar y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r hysbysiad dirymu i'r DLlY.

75. Ceir hefyd bŵer i wneud rheoliadau yn yr adran hon sy'n darparu y caiff Gweinidogion Cymru ragnodi amgylchiadau pryd y caiff Gweinidogion Cymru roi gwybod i'r DLlY ymlaen llaw am eu bwriad i roi hysbysiad dirymu os yw amod sydd wedi ei dorri yn flaenorol yn cael ei dorri eto, neu amgylchiadau pan gaiff hysbysiad dirymu gymryd effaith ar unwaith oherwydd difrifoldeb y tor amod.

**Adran 24 – Torri amodau trwydded: hysbysiadau adfer**

76. Mae adran 24 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, mewn rheoliadau, yn nodi pryd na ellir dirymu trwydded (yn rhinwedd adran 23(1)(a)) am dorri amod heb roi cyfle i'r DLlY ei unioni yn gyntaf.

*Enghraifft*

77. Mae un o'r amodau trwydded yn ei gwneud yn ofynnol bod larwm carbon monocsid gweithredol mewn unrhyw ystafell yn y fangre y mae ynddi gyfarpar nwy. Yn ystod archwiliad o dan adran 30, mae Gweinidogion Cymru yn canfod bod un larwm carbon monocsid ar goll ac nad yw un arall yn gweithio. Mae hyn yn torri'r amod yn adran 15(3)(c) ac mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr amod yn debygol o barhau i gael ei dorri.

78. Bydd rheoliadau'n darparu ar gyfer amgylchiadau pryd na all Gweinidogion Cymru ddirymu'r drwydded heb roi cyfle i'r DLlY unioni'r tor amod yn gyntaf.

79. Gallai hyn olygu, yn lle dirymu'r drwydded (ac unwaith y mae'r rheoliadau wedi eu gwneud), fod rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad adfer, yn esbonio'r tor amod, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r DLlY osod larwm carbon monocsid newydd ac atgyweirio'r llall, gan osod terfyn amser ar gyfer

cwblhau'r gwaith a'i gwneud yn ofynnol i'r DLlY roi mesurau ar waith i atal y sefyllfa rhag digwydd eto (er enghraifft, sicrhau bod rhywun yn gwirio'n rheolaidd fod y larymau carbon monocsid yn llwyr weithredol). Oherwydd bod y tor amod yn peri risg o niwed difrifol i ymwelydd, mae'r hysbysiad adfer yn datgan na chaiff unrhyw ymwelwyr breswylio yn y llety hyd nes bod y gwaith wedi ei gwblhau.

80. Os yw'r gwaith wedi ei gwblhau o fewn yr amserlen a roddir, mae'r drwydded yn parhau. Ond os nad yw'r DLlY wedi cydymffurfio â'r hysbysiad adfer, caiff Gweinidogion Cymru wedyn ddyroddi hysbysiad dirymu o dan adran 23 (oni bai bod rheoliadau yn darparu fel arall o dan adran 24(2)(h)).

## Adran 25 – Cyfnodau trwydded ac adnewyddu trwydded

81. Mae'r adran hon yn pennu y bydd trwyddedau yn dod i ben ar ôl un flwyddyn neu ar ôl unrhyw gyfnod arall y caniateir ei ragnodi mewn rheoliadau. Gall Gweinidogion Cymru osod cyfnodau trwydded gwahanol ar gyfer, ymysg pethau eraill, fathau gwahanol o fangre, llety a darparwyr.

82. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch sut y bydd trwyddedau'n cael eu hadnewyddu. Rhaid i'r rheoliadau hyn ganiatáu i drwydded gael ei thrin fel pe bai'n parhau i gael effaith tra dyfernir ar gais i adnewyddu. Caiff y rheoliadau adnewyddu hefyd nodi prosesau ar gyfer gwneud ceisiadau ac unrhyw ofynion y mae rhaid eu bodloni mewn perthynas â chais.

### *Enghraifft*

83. Rhoddir trwydded llety ymwelwyr i fwthyn hunanddarpar ar 1 Mehefin. O dan y rheol ddiofyn, mae'r drwydded honno'n ddilys am un flwyddyn ac yn dod i ben ar 31 Mai. Yn gynnar ym mis Mai yn y flwyddyn ganlynol, mae'r DLlY yn gwneud cais i adnewyddu'r drwydded. Bydd y rheoliadau adnewyddu yn caniatáu i'r drwydded barhau i gael effaith tra bo Gweinidogion Cymru yn dyfarnu ar y cais, fel bod y DLlY yn gallu parhau i weithredu heb gyflawni trosedd – hyd yn oed os nad yw Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad erbyn 31 Mai ynghylch y cais i adnewyddu.

84. Gallai rheoliadau hefyd ddarparu y caiff mathau penodol o lety gael trwyddedau sy'n parhau am ddwy flynedd yn lle un flwyddyn.

## Adran 26 – Diwygio trwydded

85. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n caniatáu i drwyddedau gael eu diwygio, naill ai'n barhaol neu dros dro. Gall y rheoliadau hynny nodi sut y caiff DLlY wneud cais i ddiwygio a chânt hefyd ganiatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio trwydded heb gytundeb y DLlY. Gallai diwygiadau i drwydded ymwneud â'r fangre neu â'r llety ymwelwyr rheoleiddiedig y mae'r drwydded yn ymwneud â hi neu ag ef yn ogystal ag â'r amodau trwydded sydd ynghlwm wrth y drwydded.

86. Pan fo'r rheoliadau'n darparu y caniateir diwygio trwydded er mwyn dileu'r amodau arferol mewn perthynas â ffitrwydd y fangre (gweler adran 15), er

enghraifft yn ystod cyfnod o waith adnewyddu, rhaid i'r rheoliadau hefyd ddarparu bod rhaid i'r drwydded, yn lle hynny, fod yn ddarostyngedig i amod nad yw'r DLlY yn caniatáu i unrhyw ymwelydd fynd i'r fangre i breswylio yn y llety ymwelwyr rheoleiddiedig. Pan ddarperir ar gyfer hyn gan y rheoliadau, cânt hefyd ddarparu bod torri'r amod hwn yn drosedd, y gellir ei chosbi drwy ddirwy.

### *Enghraifft*

87. Os gwneir rheoliadau, gallai DLlY wneud cais i ddiwygio ei drwydded er mwyn adlewyrchu newidiadau i ran o adeilad a ddefnyddir i ddarparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig. Fel arall, gallai Gweinidogion Cymru ddiwygio trwydded er mwyn mynd i'r afael â phryderon o ran diogelwch. Os yw mangre, dros dro, yn methu â chyrraedd y safon gyffredinol o ran ffitrwydd (er enghraifft, yn ystod cyfnod o waith adnewyddu), gellid diwygio'r drwydded er mwyn atal y DLlY rhag caniatáu i ymwelwyr aros yno drwy osod amod i beidio â chaniatáu ymwelwyr hyd nes bod y mater wedi ei ddatrys.

## Adran 27 – Trwyddedau dros dro

88. Mae'r adran hon yn nodi'r weithdrefn y caiff DLlY ei dilyn i wneud cais am drwydded dros dro o dan amgylchiadau pan fo'r DLlY yn ystyried nad yw'r gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni mewn perthynas â ffitrwydd mangre. Nid yw trwydded dros dro yn ddarostyngedig i'r "amodau ffitrwydd" a nodir yn adran 15(3)(c), ond yn lle hynny mae'n ddarostyngedig i amod na chaiff y DLlY dderbyn ymwelwyr i'r fangre. Gweler adran 18 am ddarpariaeth ynghylch ceisiadau am drwyddedau pan na fo hyn yn wir (trwyddedau "llawn").

89. Rhaid i gais o dan yr adran hon gael ei wneud ar y ffurf gywir, cynnwys gydag ef ffi am gais am drwydded, a chynnwys unrhyw wybodaeth am y fangre, y cais a'r gofynion cymeradwyo, a bennir gan Weinidogion Cymru.

90. Os yw Gweinidogion Cymru yn cael cais a wnaed yn unol â'r adran hon, rhaid iddynt ddyfarnu, o fewn amserlen resymol, a yw'r gofynion cymeradwyo eraill (mewn perthynas â chofrestru a hyfforddiant) wedi eu bodloni mewn perthynas â'r fangre y mae'r cais yn ymwneud â hi. Os ydynt wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo eraill wedi eu bodloni a bod y ffi am drwydded wedi ei thalu, rhaid i Weinidogion Cymru roi trwydded dros dro i'r DLlY. Fodd bynnag, os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo eraill wedi eu bodloni, rhaid iddynt wrthod y cais (ni waeth a yw'r ffi am gais am drwydded wedi ei thalu). Yn y naill achos neu'r llall, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r DLlY am eu penderfyniad (a nodi unrhyw hawliau apelio a all fod gan y DLlY o dan adran 29) o fewn amserlen resymol.

91. Caiff Gweinidogion Cymru seilio eu dyfarniad o ran a yw'r gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r fangre y mae'r cais yn ymwneud â hi ar yr wybodaeth neu'r dystiolaeth a ddarperir neu a hepgorir gan y ceisydd. Cânt hefyd ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol arall neu unrhyw dystiolaeth berthnasol arall sydd ar gael iddynt (fodd bynnag nid yw pŵer Gweinidogion Cymru i gynnal asesiad pellach o'r cais o dan adran 21 yn gymwys mewn cysylltiad â cheisiadau am drwyddedau o dan yr adran hon).

92. At ddibenion yr adran hon a'r adran ganlynol, mae cyfeiriadau at "y fangre" yn gyfeiriadau y rhan honno o'r fangre lle y darperir y llety ymwelwyr rheoleiddiedig. Mewn perthynas â llety hunanddarpar, hunangynhwysol, mae unrhyw gyfeiriad at "y fangre" yn cynnwys unrhyw ardal yn yr awyr agored, unrhyw garej neu unrhyw adeilad arall a ddarperir at ddefnydd yr ymwelydd a neb arall.

**Adran 28 – Trwyddedau dros dro: darpariaeth bellach**

93. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch trwyddedau a roddir o dan yr adran flaenorol. Caiff DLlY sy'n meddu ar drwydded mewn cysylltiad â mangre o dan yr adran flaenorol ("trwydded dros dro") wneud cais am drwydded "lawn" (nad yw'n ddarostyngedig i amod sy'n atal y DLlY rhag derbyn ymwelwyr) mewn cysylltiad â'r fangre ar unrhyw adeg, ond ni chaiff feddu ar y ddau fath o drwydded ar yr un pryd. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach drwy reoliadau ynghylch trwyddedau a roddir o dan yr adran flaenorol. Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth ynghylch troseddau.

**Adran 29 – Apelau trwyddedu**

94. Mae adran 29 yn nodi sut y gellir apelio yn erbyn penderfyniadau o ran trwyddedu. Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi neu'n dirymu trwydded llety ymwelwyr, gall y person yr effeithir arno apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf. Fel rheol, rhaid cyflwyno'r apêl cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddwyd hysbysiad am y penderfyniad. Os methir y terfyn amser hwnnw, caiff y tribiwnlys ganiatáu'r apêl o hyd os oes rheswm da dros y methiant i apelio cyn y terfyn amser. Wrth ystyried apêl, mae gan y tribiwnlys bwerau eang; gall y tribiwnlys gadarnhau'r penderfyniad, atal y penderfyniad rhag cymryd effaith, rhoi penderfyniad arall yn ei le, neu wneud unrhyw orchymyn arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

*Enghraifft*

95. Os yw trwydded llety ymwelwyr DLlY yn cael ei dirymu, mae gan y DLlY 28 o ddiwrnodau i herio'r penderfyniad hwnnw gerbron y tribiwnlys. Gallai'r tribiwnlys benderfynu na ddylai'r dirymiad gymryd effaith, neu roi penderfyniad arall yn lle'r penderfyniad gwreiddiol, megis caniatáu i'r drwydded barhau gyda diwygiadau (gweler adran 26).

**Adran 30 – Pŵer mynd i mewn ac archwilio at ddibenion gorfodi ac**
**Adran 31 – Gwarant i fynd i mewn i fangre a'i harchwilio at ddibenion gorfodi ac**
**Adran 33 – Trosedd o rwystro'n fwriadol**

96. Efallai y bydd amgylchiadau pryd y gallai Gweinidogion Cymru ei chael hi'n angenrheidiol ymweld â mangre lle y cynigir neu y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig, a'i harchwilio. Er enghraifft, pan fo adroddiad wedi dod i law sy'n nodi bod mangre yn peri risg o niwed neu anaf i ymwelydd oherwydd nad yw safon ffitrwydd benodol wedi ei chyrraedd (e.e. gwifrau trydanol diamddiffyn, neu soced drydan ddiffygiol), ac na fu'n bosibl datrys y mater yn foddhaol drwy hysbysiad gwybodaeth (a ddyroddwyd o dan adran 52), efallai

y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol i berson ag arbenigedd perthnasol (yn yr enghraifft a roddir, er enghraifft, trydanwr cymwysedig) archwilio'r fangre er mwyn penderfynu a yw'r safon cynnal a chadw trydanol yn cael ei chyrraedd.

97. Mae adran 30 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i alluogi person awdurdodedig i fynd i mewn i fangre at ddibenion archwilio – sy'n cynnwys archwilio a chasglu tystiolaeth ddogfennol (gan gynnwys gwybodaeth sydd wedi ei storio ar gyfrifiadur neu ar ddyfais electronig arall) pan fo ganddynt sail resymol dros gredu bod DLlY wedi rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol iddynt (ac felly wedi cyflawni trosedd), neu wedi torri amod trwydded. Mae gan y person awdurdodedig bwerau ategol amrywiol y gellir eu harfer yn ystod archwiliad, ac mae'n ddarostyngedig i ofynion neu gyfyngiadau penodol (er enghraifft, rhaid rhoi i'r DLlY rybudd rhesymol o archwiliad, ac ni chaniateir defnyddio grym i gael mynediad i'r fangre o dan yr adran hon).

98. Ymhellach i adran 30, mae adran 31 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud cais i ynad heddwch am warant i fynd i mewn i fangre pan fo cais blaenorol am gael mynediad naill ai heb ei ateb neu wedi ei wrthod, pan ddisgwylir yn rhesymol y bydd mynediad yn cael ei wrthod, neu pan fyddai rhoi rhagrybudd yn llesteirio diben archwiliad. Caniateir rhoi gwarant hefyd mewn cysylltiad â mangre nad yw wedi ei thrwyddedu, ond y mae Gweinidogion Cymru yn amau ei bod yn cael ei defnyddio fel llety ymwelwyr rheoleiddiedig (ac felly y dylai fod wedi ei thrwyddedu); nid yw'r sail hon ar gael mewn perthynas ag arfer y pŵer o dan adran 30.

99. Nid yw rhai o'r cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gymwys mewn perthynas ag archwiliad o dan adran 30 yn cael eu gosod mewn perthynas ag archwiliad o dan warant; yn benodol, nid yw'r gofyniad i roi hysbysiad na'r cyfyngiad penodol ar ddefnyddio grym yn gymwys.

100. Mae adran 33(1) yn darparu bod personau penodol yn cyflawni trosedd os ydynt yn rhwystro'n fwriadol berson awdurdodedig sy'n cynnal archwiliad o dan adran 30. Mae'r personau a all gyflawni'r drosedd hon wedi eu nodi yn is-adran (2). Yn fras maent yn: DLlYau sy'n meddu ar drwydded mewn perthynas â llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre sy'n cael ei harchwilio; personau sy'n darparu, neu'n cynnig darparu, llety o'r fath; a phersonau sy'n cynorthwyo gyda darparu llety o'r fath neu sy'n hwyluso darparu llety o'r fath.

101. Mae adran 33(3) yn darparu bod unrhyw berson yn cyflawni trosedd os yw'n rhwystro'n fwriadol berson awdurdodedig sy'n gweithredu o dan warant a ddyroddir o dan adran 31.

102. Gellir cosbi'r ddwy drosedd o dan adran 33, ar euogfarn yn y llysoedd ynadon, â dirwy. (Noder effaith adran 55 (hysbysiadau cosb), sy'n darparu ar gyfer cosb arall pan fo trosedd wedi ei chyflawni.)

**Adran 32 – Llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn mangre ddidrwydded: trosedd**

103. Mae adran 32 yn ei gwneud yn drosedd i ddarparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig, yng nghwrs masnach neu fusnes, oni bai bod naill ai'r darparwr yn meddu ar drwydded llety ymwelwyr sy'n ymwneud â'r fangre a'r llety o dan sylw, neu fod y person yn darparu'r llety gyda chaniatâd person sy'n meddu ar drwydded o'r fath (ni waeth a roddwyd y caniatâd hwnnw yn uniongyrchol neu drwy drydydd parti).

104. Nid yw person yn cyflawni trosedd o dan yr adran hon os oes ganddo esgus rhesymol. Gellir cosbi trosedd o dan yr adran hon yn y llys ynadon drwy ddirwy.

105. Mae adrannau 43 a 44 yn gwneud darpariaeth ynghylch gofynion, a throseddau cysylltiedig, sy'n ymwneud â chynnig llety ymwelwyr heb gynnwys ar hysbyseb y rhif cofrestru ar gyfer y fangre a chyfarwyddiadau ynghylch sut i ddod o hyd i wybodaeth am y fangre. Mae'r adrannau hyn hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch gofynion, a throseddau cysylltiedig, sy'n ymwneud â chynnig llety ymwelwyr rheoleiddiedig pan na feddir ar unrhyw drwydded mewn perthynas â'r llety.

**Adran 34 – Dyletswydd i gynnal cofrestr mewn perthynas â thrwyddedu ac Adran 42 – Cyfeiriadur o lety ymwelwyr**

106. Mae'r Ddeddf yn ceisio hybu twristiaeth drwy roi sicrwydd i ymwelwyr fod llety yng Nghymru yn cyrraedd y safonau y byddent yn eu disgwyl, a monitro cydymffurfedd â'r safonau hynny. Un ffordd o ddarparu sicrwydd o'r fath yw drwy wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn y gofrestr neu'r cyfeiriadur ar-lein.

107. Mae Deddf 2025 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") greu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr, a'r llety a gynigir gan bob un ohonynt, yng Nghymru.

108. Mae adran 34 o'r Ddeddf hon yn gosod gofyniad cyfatebol ar Weinidogion Cymru i gadw cofrestr o drwyddedau llety ymwelwyr fel bod gwybodaeth am drwyddedu yn cael ei chofnodi. Rhaid i'r gofrestr gynnwys manylion craidd penodol am bob trwydded a chaiff gynnwys gwybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol. Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth ofynnol, ond mae terfynau er mwyn diogelu data personol.

109. Mae adran 42 yn adeiladu ar y ddau ofyniad hyn drwy osod dyletswydd ar ACC a Gweinidogion Cymru i lunio ar y cyd gyfeiriadur sydd ar gael i'r cyhoedd o fangreoedd lle y darperir llety ymwelwyr yng Nghymru.

110. Bydd y cyfeiriadur cyfunol yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd, yn ogystal â sefydliadau a chyrff sydd â diddordeb yn y sector, ddod o hyd i wybodaeth megis a yw mangre benodol wedi ei chofrestru a/neu wedi ei thrwyddedu.

**Adran 35 – Ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau llety ymwelwyr**

111. Mae adran 35 yn darparu pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i osod, ac addasu dros amser, y ffi am gais am drwydded, ac unrhyw ffioedd eraill mewn cysylltiad ag arfer eu swyddogaethau o dan neu yn rhinwedd Pennod 2 o Ran 3 neu Bennod 1 o Ran 5. Mae'r adran yn caniatáu ffioedd gwahanol ar gyfer amgylchiadau gwahanol, a allai fod yn arbennig o berthnasol os caiff y cynllun ei ehangu i fathau eraill o lety ymwelwyr yn y dyfodol. Cyn gwneud y rheoliadau cyntaf, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori am o leiaf 12 wythnos. Cyn gwneud rheoliadau pellach, mae'n ofynnol ymgynghori o hyd, ond nid oes cyfnod amser lleiaf.

**Adran 36 – Pwerau i rannu gwybodaeth**

112. Er mwyn i'r cynllun rheoleiddio a nodir yn y Ddeddf hon weithredu'n effeithiol, efallai y bydd amgylchiadau pryd y byddai Gweinidogion Cymru yn ei chael hi'n ddefnyddiol rhannu gwybodaeth â chyrff cyhoeddus perthnasol eraill, neu ofyn am wybodaeth ganddynt. Yn yr un modd, mae'n debygol hefyd y bydd amgylchiadau pryd y bydd y cyrff cyhoeddus eraill hynny yn dymuno rhannu gwybodaeth berthnasol â Gweinidogion Cymru, neu ofyn am wybodaeth ganddynt. Er enghraifft, efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno ceisio cyngor gan awdurdod tân ac achub ynghylch materion diogelwch tân, neu efallai y bydd awdurdod lleol yn dymuno rhoi gwybod iddynt ei fod wedi cymryd camau gweithredu mewn perthynas â chwynion a wnaed am fangre lle y cynigir neu y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig.

113. Mae adran 39 yn caniatáu i wybodaeth berthnasol o'r fath gael ei chyfnewid rhwng y cyrff a restrir, yn ogystal â chyrff eraill a fydd efallai'n cael eu pennu yn y dyfodol drwy reoliadau.

114. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 18 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 er mwyn galluogi ACC i ddatgelu gwybodaeth i Weinidogion Cymru pan fo at ddibenion swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon.

**Adran 37 – Darpariaeth benodol sy'n gymwys mewn cysylltiad â thrwyddedau safleoedd gwersylla a thrwyddedau safleoedd carafannau**

115. Mae'r adran hon yn gymwys os yw rheoliadau o dan adran 5(1)(b) yn rhagnodi bod safleoedd gwersylla a safleoedd carafannau yn "llety ymwelwyr rheoleiddiedig". Mae'n cwmpasu safleoedd gwersylla y mae adran 269 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 yn gymwys iddynt a safleoedd carafannau y mae Rhan 1 o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 yn gymwys iddynt.

116. Pan fydd Gweinidogion Cymru yn rhoi neu'n adnewyddu trwydded llety ymwelwyr mewn perthynas â darparu llety ymwelwyr o'r fath, gallant osod amodau trwydded ychwanegol ond dim ond gyda chytundeb y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal y mae'r safle ynddi.

117. Gellir defnyddio'r amodau hynny i gyfyngu ar ba mor hir ym mhob blwyddyn y gellir darparu llety ymwelwyr; cyfyngu ar gapasiti'r llety ymwelwyr a

ddarperir ar y safle; a diogelu neu wella amwynder y tir y mae'r safle arno. Bwriad hyn yw caniatáu dilyniant o ran y mathau o amodau y gellir eu cymhwyso o dan y cyfundrefnau trwyddedu presennol fel y gellid eu cydgrynhoi o dan un system yn y dyfodol.

118. Caiff rheoliadau o dan yr adran hon addasu'r cynllun trwyddedu er mwyn caniatáu gweithredu'r amodau hynny.

## PENNOD 3 – LLETY YMWELWYR RHEOLEIDDIEDIG: TELERAU CONTRACT

### Adran 38 – Contractau llety ymwelwyr ac

### Adran 39 – Rhwymedigaeth gontractiol i sicrhau bod mangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr

119. Mae adran 38 yn diffinio "contract llety ymwelwyr" at ddibenion y Bennod hon. Mae adran 39 yn darparu, pan fydd DLlY yn ymrwymo i gontract o'r fath, mai un o delerau'r contract hwnnw yw bod rhaid i'r fangre a ddefnyddir i ddarparu'r llety ymwelwyr rheoleiddiedig fod yn ffit i fod yn llety ymwelwyr pryd bynnag y mae gan ymwelydd hawlogaeth i breswylio yn y llety. Caniateir ymgorffori'r teler gydag addasiadau, neu nid oes angen ei ymgorffori, os yw effaith yr addasiadau, neu effaith peidio ag ymgorffori'r teler, yn fwy ffafriol i'r ymwelydd. Caiff ymwelydd sydd â hawlogaeth i breswylio yn y fangre yn unol â'r contract ddibynnu ar y teler, ni waeth a yw'r ymwelydd yn barti i'r contract.

### Adran 40 – Cyfyngiadau ar y ddyletswydd ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: bai ymwelydd ac

### Adran 41 – Cyfyngiadau ar y ddyletswydd ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: gwybodaeth DLlY

120. Mae adran 40 yn darparu nad ystyrir bod DLlY wedi torri'r teler contractiol a nodir yn adran 39(2) os nad yw'r fangre yn ffit oherwydd gweithred neu anweithred ar ran yr ymwelydd – er enghraifft, os yw clo wedi ei ddifrodi gan ymwelydd wedi iddo orfodi drws i agor, gan olygu nad yw'r fangre yn cyrraedd y safon gyffredinol o ran ffitrwydd.

121. Mae adran 41 yn darparu nad yw DLlY wedi torri'r teler yn adran 39(2) os nad yw'n ymwybodol, ac os na ellid disgwyl yn rhesymol iddo fod yn ymwybodol, nad yw'r fangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr, neu os yw'r DLlY yn gwneud y fangre yn ffit o fewn amser rhesymol, ar ôl iddo ddod yn ymwybodol (neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fod yn ymwybodol) nad oedd y fangre yn ffit.

### *Enghraifft*

122. Mae ymwelydd yn aros mewn bwthyn sy'n cael ei redeg gan DLlY. Dros nos, mae pibell sydd wedi ei chuddio y tu mewn i'r wal yn ymrwygo, gan achosi gollyngiad. Nid oedd y DLlY yn gwybod am y diffyg yn y bibell ac ni allai'n rhesymol fod wedi gwybod amdano cyn i'r bibell fethu. Mae'r DLlY yn edrych ar y difrod cyn gynted ag y bo'n dod yn ymwybodol ohono fore trannoeth. Mae'n trefnu i blymwr fynd i'r fangre yr un diwrnod ag y mae'r fangre'n cael ei gwneud yn ffit i fod yn llety ymwelwyr o fewn amser rhesymol. Yn y sefyllfa hon, ni fyddai'r DLlY yn torri adran 39(2) oherwydd nad oedd yn ymwybodol

o'r broblem ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod amdani (adran 41(1)), ac unwaith y daeth yn ymwybodol o'r broblem, gweithredodd o fewn amser rhesymol er mwyn ei hunioni (adran 41(2)).

## RHAN 4
## DARPARU GWYBODAETH I'R CYHOEDD AM LETY YMWELWYR
### Adran 42 – Cyfeiriadur o lety ymwelwyr

123. Gweler paragraffau 101 i 105 uchod.

### Adran 43 – Gofynion sy'n ymwneud â hysbysebu a marchnata etc.

124. Mae adran 43(1) yn gwahardd unrhyw berson rhag hysbysebu neu farchnata unrhyw fath o lety ymwelwyr heb gynnwys y rhif cofrestru ar gyfer y fangre (h.y. y rhif a ddyroddir gan Awdurdod Cyllid Cymru o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, mewn perthynas â chofrestru DLlY o dan y Rhan honno mewn cysylltiad â'r fangre o dan sylw), a heb ddarparu cyfarwyddiadau ynghylch sut i ddefnyddio'r rhif hwnnw i ganfod rhagor o wybodaeth am y fangre o dan sylw yn y cyfeiriadur o lety ymwelwyr (gweler adran 42).

125. Mae is-adran (3) yn gwahardd unrhyw berson rhag hysbysebu, marchnata, neu gynnig (ar unrhyw ffurf arall neu drwy unrhyw ddull arall), llety ymwelwyr rheoleiddiedig oni bai y meddir ar drwydded mewn cysylltiad â'r fangre lle y darperir y llety, a bod y drwydded yn ymwneud â'r llety hwnnw.

### Adran 44 – Troseddau sy'n ymwneud â hysbysebu a marchnata etc. llety ymwelwyr

126. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer troseddau o fethu â chydymffurfio â'r naill ofyniad neu'r llall a osodir gan adran 43. Gellir cosbi'r troseddau hyn, yn y llysoedd ynadon, â dirwy.

127. Ni chyflawnir unrhyw drosedd o dan yr adran hon os oedd gan y person o dan sylw esgus rhesymol dros fethu â chydymffurfio. Mae is-adran (4) yn darparu bod gan berson esgus rhesymol os cymerodd bob cam rhesymol i gydymffurfio â'r gofyniad, neu os nad oedd yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, nad oedd yn cydymffurfio â'r gofyniad; ond nid yw hyn yn atal person rhag cael esgus rhesymol o dan amgylchiadau eraill.

128. Mae is-adran (6) yn atgynhyrchu effaith adran 27 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, nad yw'n gymwys mewn perthynas â throseddau yn yr un Ddeddf.

## RHAN 5
## AMRYWIOL A CHYFFREDINOL
## PENNOD 1 – AMRYWIOL
### Adran 45 – Dyletswyddau ac atebolrwyddau partneriaethau a chyrff anghorfforedig

129. Pan fo'n ofynnol i unrhyw beth gael ei wneud, neu pan ganiateir i unrhyw beth gael ei wneud, gan bersonau, neu mewn perthynas â phersonau, sy'n cynnal busnes mewn partneriaeth neu gorff anghorfforedig o dan y Ddeddf hon, mae'r

adran hon yn darparu bod rhaid iddo gael ei wneud gan bob person neu mewn perthynas â phob person sy'n bartner yn y bartneriaeth neu sy'n aelod rheoli o'r corff ar yr adeg y'i gwneir neu y mae'n ofynnol ei wneud. Fodd bynnag, caniateir i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu y caniateir ei wneud gan bob partner neu aelod rheoli gael ei wneud yn lle hynny gan unrhyw un neu ragor ohonynt.

**Adran 46 – Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch partneriaethau a chyrff anghorfforedig**

130. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y ddeddfwriaeth hon pan fo personau yn cynnal busnes mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig, i ddiddymu darpariaeth o'r fath, ei dirymu, neu ei diwygio fel arall.

**Adran 47 – Troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chyrff anghorfforedig**

131. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch dwyn achos am droseddau yn erbyn partneriaethau neu gyrff anghorfforedig eraill neu mewn cysylltiad â dwyn achos o'r fath. Mae achos am droseddau yr honnir eu bod wedi eu cyflawni gan bartneriaeth neu gorff anghorfforedig i gael ei ddwyn yn enw'r bartneriaeth neu'r corff (ac nid yn enw unrhyw un neu ragor o'i haelodau neu o'i aelodau). Mae unrhyw ddirwyon ar euogfarn am drosedd o dan y Ddeddf i'w talu o asedau'r bartneriaeth neu gronfeydd y corff.

**Adran 48 – Atebolrwydd troseddol uwch-swyddogion etc.**

132. Pan gyflawnir trosedd o dan y ddeddfwriaeth hon gan gorff corfforedig, partneriaeth neu gorff anghorfforedig, mae'r adran hon yn ei gwneud yn bosibl, o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), i unigolion sy'n dal swyddi cyfrifol (neu sy'n honni eu bod yn gwneud hynny) o fewn y corff perthnasol neu'r bartneriaeth berthnasol (yr "uwch-swyddogion" a ddiffinnir gan yr adran) fod yn droseddol atebol hefyd am drosedd.

**Adran 49 – Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch marwolaeth, analluedd ac ansolfedd**

133. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon pan fo DLlY yn marw, yn dod yn analluog neu'n peidio â bodoli fel endid cyfreithiol, e.e. oherwydd bod cwmni yn mynd yn fethdalwr, i ddiddymu darpariaeth o'r fath, ei dirymu neu ei diwygio fel arall. Yn benodol, caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer amgylchiadau pryd y ceir caniatáu dilyniant yn narpariaeth llety ymwelwyr rheoleiddiedig ar sail interim neu dros dro, a chaniatáu trosglwyddo trwydded llety ymwelwyr.

**Adran 50 – Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol**

134. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn darparu ar gyfer dilyniant triniaeth, o dan y ddeddfwriaeth hon, pan fo busnes DLlY yn cael ei drosglwyddo fel busnes gweithredol neu pan fo mangre lle y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn cael ei throsglwyddo. Caiff y

rheoliadau hynny wneud darpariaeth sy'n caniatáu i drwydded llety ymwelwyr gael ei throsglwyddo.

**Adran 51 – Pŵer i ddatgymhwyso darpariaethau penodol o'r Ddeddf**

135. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n esemptio personau penodedig rhag troseddau o dan adran 32 neu 44. Caiff y rheoliadau hefyd ddatgymhwyso'r gofyniad yn adran 39(2) mewn cysylltiad â'r personau hynny.

**Adran 52 – Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol**

136. Efallai y bydd amgylchiadau pryd y bydd ar Weinidogion Cymru angen i wybodaeth benodol gael ei darparu er mwyn iddynt allu cyflawni eu gwahanol swyddogaethau o dan Rannau 3 i 5 yn effeithiol. Er enghraifft, os amheuir bod tystiolaeth a ddarperir mewn cais am drwydded yn anghywir neu'n dwyllodrus, efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno ceisio rhagor o wybodaeth gan y ceisydd ynghylch tarddiad tystysgrif, neu, pan fo adroddiad wedi dod i law sy'n nodi nad oedd mangre yn cyrraedd safon benodol, gellid gofyn am dystiolaeth ffotograffig neu ddogfennol gan y trwyddedai er mwyn i Weinidogion Cymru wneud dyfarniad gwybodus o ran a oedd tor amod wedi digwydd.

137. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth i ddeiliad trwydded, neu i berson y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y gall fod, neu y gall fod wedi bod, yn ddarparwr llety ymwelwyr rheoleiddiedig, neu i berson sy'n cynorthwyo gyda darparu llety ymwelwyr neu sy'n hwyluso darparu llety o'r fath (er enghraifft, asiant gosod llety gwyliau). Mae hysbysiad gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddarparu'r wybodaeth a bennir (yn hytrach na gofyn iddo ei ddarparu), erbyn yr amser a bennir. Mae methu â chydymffurfio â hysbysiad yn drosedd o dan adran 53.

**Adran 53 – Trosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth**

138. Mae adran 53 yn ei gwneud yn drosedd i fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth a ddyroddir o dan adran 52, heb esgus rhesymol. Gellir rhoi'r drosedd hon ar brawf yn y llysoedd ynadon a'i chosbi â dirwy.

**Adran 54 – Trosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol**

139. Mae adran 54 yn ei gwneud yn drosedd i ddarparu i Weinidogion Cymru wybodaeth neu ddogfen sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw fodd perthnasol, mewn cysylltiad â swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ran 3, 4 neu 5 o'r Ddeddf (er enghraifft, fel rhan o gais am drwydded), os oedd y person a ddarparodd yr wybodaeth neu'r ddogfen yn gwybod bod yr wybodaeth neu'r ddogfen yn anwir neu'n gamarweiniol, neu'n ddi-hid o ran a oedd yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol. Mae hefyd yn ei gwneud yn drosedd i ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i unrhyw berson, gan wybod bod yr wybodaeth i'w defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'u swyddogaethau o dan Ran 3, 4 neu 5 o'r Ddeddf.

140. Ond nid yw person yn cyflawni trosedd o dan yr adran hon os yw, wrth ddarparu'r wybodaeth neu'r ddogfen, yn rhoi gwybod i'r person y darperir yr

wybodaeth neu'r ddogfen iddo fod yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol, neu y gall fod yn anwir neu'n gamarweiniol.

141. Gellir rhoi trosedd o dan yr adran hon ar brawf yn y llysoedd ynadon a'i chosbi â dirwy.

**Adran 55 – Hysbysiadau cosb**

142. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi hysbysiad cosb i berson y maent wedi eu bodloni ei fod wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf. Gall person y rhoddwyd hysbysiad cosb iddo dalu'r swm o arian a bennir yn yr hysbysiad, ac os yw'n gwneud hynny, ni ellir ei euogfarnu o'r drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi. Mae adran 55 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch hysbysiadau cosb, sy'n ymdrin ag ystod o faterion megis eu ffurf a'u cynnwys, y symiau sydd i fod yn daladwy odanynt, cadw cofnodion yn eu cylch, a'u tynnu yn ôl.

**PENNOD 2 – CYFFREDINOL**

**Adran 56 – Canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru**

143. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad â rheoleiddio llety ymwelwyr o dan neu yn rhinwedd Rhannau 3 i 5, ond cyn dyroddi canllawiau o'r fath rhaid iddynt ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

**Adran 57 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.**

144. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer darpariaethau deilliadol, darpariaethau atodol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed mewn cysylltiad â darpariaethau'r Ddeddf hon. Caiff y rheoliadau hynny ddiwygio deddfiadau eraill a datgymhwyso adran 269 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (trwyddedu safleoedd gwersylla) a Rhan 1 o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 (trwyddedu safleoedd carafannau) o ran Cymru os yw'r Senedd yn cytuno i estyn y cynllun trwyddedu yn y ddeddfwriaeth hon i'r math cyfatebol o lety.

**Adran 58 – Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf**

145. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith Rhannau 3 i 5 o'r Ddeddf, sy'n ymwneud â rheoleiddio llety ymwelwyr. Rhaid cwblhau'r adolygiad heb fod yn hwyrach na 4 blynedd ar ôl i'r Rhannau hynny ddod i rym yn llawn. O gyfuno'r ddyletswydd yn yr adran hon ag adran 61, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r adolygiad gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2034, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cychwyn yr adran hon o dan adran 61(3).

146. Rhaid gosod yr adroddiad ar yr adolygiad o dan yr adran hon gerbron y Senedd, ac mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori wrth gynnal yr adolygiad.

### Adran 59 – Rheoliadau o dan y Ddeddf hon

147. Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o bwerau a dyletswyddau i wneud rheoliadau. Mae'r pwerau a'r dyletswyddau hynny yn arferadwy gan Weinidogion Cymru drwy offeryn statudol Cymreig. Caniateir defnyddio'r pwerau a'r dyletswyddau hynny i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol, ac i wneud darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaethau arbed, gan gynnwys darpariaeth sy'n diwygio unrhyw ddeddfiad. Mae'r adran hon hefyd yn rhestru adrannau y mae rhaid i unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru odanynt fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd (gweler adran 37C o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019).

### Adran 60 – Dehongli a mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio

148. Mae'r adran hon yn darparu diffiniadau ac yn esbonio ystyron termau a ddefnyddir yn y Ddeddf.

### Adran 61 – Dod i rym

149. Mae'r adran hon yn esbonio pryd a sut y caiff gwahanol ddarpariaethau'r Ddeddf ddod i rym. Daw Pennod 2 o Ran 5, heblaw adran 56 (canllawiau), i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol. Daw'r Ddeddf i rym yn gyffredinol drwy orchymyn (a wneir gan offeryn statudol Cymreig), ond os na chânt eu dwyn i rym ymlaen llaw, bydd adrannau [16, 24, 25(3) i (5), 26, 28, 35 a 51] yn dod i rym ar 5 Mawrth 2029, a bydd gweddill darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym ar 4 Mawrth 2030. Caiff y gorchmynion wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaeth yn y Ddeddf i rym, a darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol ac at ddibenion gwahanol. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys pŵer i ohirio'r ail ddyddiad am hyd at 2 flynedd.

### Adran 62 – Enw byr

150. Mae'r adran hon yn nodi enw byr y Ddeddf, y gellir ei ddefnyddio wrth enwi'r Ddeddf ac wrth gyfeirio ati. Caniateir defnyddio naill ai enw Cymraeg neu enw Saesneg y Ddeddf, gan gynnwys fel cyfeiriad mewn deddfiadau eraill.

### Atodlen 1 - Diwygio Deddf Datblygu Twristiaeth 1969

151. Mae'r Atodlen hon yn gwneud y newidiadau i Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 a ddisgrifir yn adran 4 uchod er mwyn datgymhwyso'r adrannau hynny o'r Ddeddf o ran Cymru.

### Atodlen 2 - Diwygiadau sy'n ymwneud â'r Gofrestr o Ddarparwyr Llety Ymwelwyr

152. Mae'r Atodlen hon yn gwneud newidiadau i Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 ("Deddf 2025") a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

153. Mae'r newidiadau i Ddeddf 2025 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC ddyroddi rhif cofrestru ar gyfer pob DLlY ac mewn cysylltiad â phob mangre y mae'r DLlY

wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hi. Rhaid i ACC gyhoeddi'r rhifau cofrestru hyn.

154. Er enghraifft, mae cwmni'n cofrestru fel DLlY sy'n rhedeg tri bwthyn mewn tair mangre wahanol: rhaid i ACC roi rhif cofrestru i'r DLlY yn ogystal â rhif cofrestru penodol ar gyfer pob un o'r tair mangre. Mae hyn yn golygu bod modd gwirio a yw mangre benodol wedi ei chofrestru (ac nid y DLlY yn unig).

155. Mae adran 14 o Ddeddf 2025, fel y'i diwygir, yn darparu hawl i berson wneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr. Mae adran newydd 14A yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un nad yw'n DLlY trwyddedig ac nad yw wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr, wneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr cyn yr 31ain diwrnod nad yw wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr. Mewn geiriau eraill, os yw'n parhau i fod yn anweithredol am 30 o ddiwrnodau, rhaid iddo wneud cais i gael ei ddileu cyn yr 31ain diwrnod. Os yw rhywun yn peidio â bod yn DLlY trwyddedig, ac nad yw'n darparu, neu'n cynnig darparu, llety, neu nad yw'n adennill ei drwydded, o fewn 31 o ddiwrnodau, rhaid iddo hefyd wneud cais i gael ei ddileu. Nid yw diwrnodau pan ddyfernir ar gais neu pan apelir yn erbyn penderfyniad sy'n ymwneud â'r drwydded yn cyfrif tuag at y cyfnodau hyn.

156. Nid yw adran 14A yn gymwys i DLlYau trwyddedig. O ganlyniad, mae'r newidiadau i Ddeddf 2025 yn galluogi DLlYau trwyddedig i aros yn y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr o dan Ran 2, hyd yn oed pan nad ydynt yn weithredol (oherwydd y byddai'n ofynnol iddynt fel arall, o dan Ddeddf 2025, wneud cais i gael eu dileu o'r gofrestr)

157. Fodd bynnag, bydd y gofrestr yn cofnodi a yw DLlY trwyddedig, o ran llety ymwelwyr y mae wedi ei gofrestru mewn perthynas ag ef, yn ei ddarparu neu'n cynnig ei ddarparu, ar hyn o bryd ai peidio. Er enghraifft:

| Mangre | Cofrestredig | Trwyddedig | Statws yn y gofrestr |
|---|---|---|---|
| Bwthyn 1 | Ydy | Ydy | Yn darparu neu'n cynnig darparu ar hyn o bryd |
| Bwthyn 2 | Ydy | Ydy | Ddim yn darparu neu'n cynnig darparu ar hyn o bryd |
| Llety gwely a brecwast | Ydy | Nac ydy (nid oes angen trwydded) | Yn darparu neu'n cynnig darparu ar hyn o bryd |

158. Ochr yn ochr â'r manylion ynghylch y DLlY a'r mangreoedd y mae rhaid i'r gofrestr eu cynnwys, pa un a yw'r cofrestriad yn ymwneud â llety ymwelwyr rheoleiddiedig ai peidio, rhaid i gofnod DLlY trwyddedig yn y gofrestr hefyd gynnwys manylion pellach ynghylch y llety rheoleiddiedig yn y fangre y mae'r DLlY wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hi, yn benodol:

- faint o lety ymwelwyr rheoleiddiedig sydd yn y fangre, ac
- uchafswm nifer y bobl y gellir eu lletya ym mhob llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre.

***Enghraifft – Mangre 1 (sy'n cynnwys dau fflat hunangynhwysol, ar wahân, a ddefnyddir fel llety hunanddarpar)***

*159.* Faint o lety ymwelwyr rheoleiddiedig sydd yn y fangre: 2
Uchafswm nifer y bobl y gellir eu lletya ym mhob llety Ymwelwyr rheoleiddiedig:
Uned 1 (Fflat ar y llawr gwaelod): 4 person
Uned 2 (Fflat ar y llawr cyntaf): 2 berson

160. Mae'r diwygiadau i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn gwneud diwygiadau canlyniadol a mân ddiwygiadau, sy'n ymwneud yn bennaf ag ehangu swyddogaethau ACC o dan Ran 4 o'r Ddeddf.

## COFNOD O DRAFODAETHAU SENEDD CYMRU

161. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cam o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir dod o hyd i'r Cofnod o Drafodion a gwybodaeth bellach am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd yn:
**Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026**

| **Cam** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 03 Tachwedd 2025 |
| Cyfnod 1 Dadl | 13 Ionawr 2026 |
| Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu ystyried gwelliannau | 05 Chwefror 2026 |
| Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn ystyried gwelliannau | 10 Mawrth 2026 |
| Cam 4 Cymeradwywyd gan y Senedd | 17 Mawrth 2026 |
| Cydsyniad Brenhinol | 27 Ebrill 2026 |

# Atodiad 2

## Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Ddeddf o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd | Datganiad yr Aelod | Tudalen 4 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi'r Ddeddf | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalennau 5-16 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Ddeddf ei mabwysiadu | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 41-55 |

| **Rheol sefydlog** | | **Adran** | **tudalennau/ paragraffau** |
|---|---|---|---|
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Ddeddf a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Ddeddf, ac<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 17-25 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalen 24 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Ddeddf, neu ran o'r Ddeddf, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalen 17 |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Ddeddf ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Ddeddf | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Tudalennau 94-121 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Ddeddf yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Ddeddf yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Ddeddf;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 41-45<br><br>a Thudalennau 56-79 |
| 26.6(ix) | Nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Ddeddf na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 43<br><br>a<br><br>Thudalennau 82-88 |
| 26.6(x) | Os yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath: | Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalennau 26-40 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | (a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br><br>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | | |
| 26.6(xi) | Os yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn berthnasol i'r Ddeddf hon | Amherthnasol |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Ddeddf ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 87-88 |

| **Rheol sefydlog** | | **Adran** | **tudalennau/ paragraffau** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Ddeddf yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Ddeddf a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Atodiad 3 – Tabl Tarddiadau | Tudalennau 127-128 |
| 26.6C | Pan fo'r Ddeddf yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Ddeddf, ac yn nodi’n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Ddeddf. | Atodiad 4 – Atodlen o Ddigwyddiadau | Tudalennau 129-185 |

# Atodiad 3

# Tabl Tarddiadau

### Tabl Tarddiadau

Bwriedir i'r tabl isod ddarparu gwybodaeth ynghylch tarddiad y darpariaethau yn Neddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru). Nid yw'r tabl yn rhoi arweiniad diffiniol neu gynhwysfawr, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Ddeddf a'r Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf. Er bod gofal wedi ei gymryd i sicrhau bod y ddogfen mor gywir ag y bo'n rhesymol ymarferol, nid yw'n honni bod yn awdurdodol, ac ni ddylid dibynnu arni fel pe bai'n awdurdodol.

### Allwedd i'r byrfoddau

| | |
|---|---|
| Deddf 1969 | Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 (1969 p. 51) |
| Deddf 1992 | Deddf Twristiaeth (Hybu Tramor) (Cymru) 1992 (1992 p. 26) |

| **Adran / Paragraff** | **Cyfeiriad cyfatebol mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes** | **Newid sylweddol** |
|---|---|---|
| Adran 1 | Newydd | |
| Adrannau 2 – 4 ac Atodlen 1 | Adrannau 2 a 4A o Ddeddf 1969 ac adran 1 o Ddeddf 1992. | Mae adran 2 yn ailddatgan swyddogaethau datblygu twristiaeth presennol, gan ddiweddaru cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.<br><br>Mae'r pŵer i wella seilwaith i ymwelwyr â Chymru wedi'i nodi'n benodol am y tro cyntaf. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod y swyddogaethau datblygu twristiaeth i'w harfer gan roi sylw dyladwy i bwysigrwydd lliniaru effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ymwelwyr a chynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2). |
| Adrannau 5-62 ac Atodlen 2 | Newydd | |

# Atodiad 4: Atodlen o ddiwygiadau

### Y DIWYGIADAU SYDD I GAEL EU GWNEUD GAN DDEDDF DATBLYGU TWRISTIAETH A RHEOLEIDDIO LLETY YMWELWYR (CYMRU)

Yn unol â Rheol Sefydlog 16.6C, bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut y byddai'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth ganlynol, fel yr oeddent yn gymwys o ran Cymru ar 01 Hydref 2025, yn edrych fel y'u diwygid gan Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (pe bai'n cael ei chychwyn fel y'i pasiwyd ar 17 Mawrth 2026).

- Deddf Datblygu Twristiaeth 1969
- Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025
- Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025)

Ceir llinell drwy'r testun sydd i gael ei ddileu gan Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru), e.e. ~~mae testun sydd wedi ei hepgor yn edrych fel hyn~~.

Mae testun sydd i'w ychwanegu gan Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) wedi ei danlinellu, e.e. mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn.

Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Ddeddf yn y golofn dde ar bob tudalen.

Cynhwysir nifer o ddarpariaethau cysylltiedig, er nad ydynt yn cael eu diwygio, er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

**Rhybudd**

Mae'r testun hwn wedi ei lunio gan swyddogion grŵp yr Economi, Ynn a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrech wedi ei gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) yn unig y mae'r testun wedi ei lunio. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

## Development of Tourism Act 1969

**1 Establishment of British Tourist Authority, English Tourist Board [and [VisitScotland]]**

*Paragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) For the purposes of this Act there shall be established [three] bodies to be known respectively as the British Tourist Authority, the English Tourist Board [and [VisitScotland]].

(2) The British Tourist Authority shall consist of—

(a) a chairman and not more than five other members appointed by the Board of Trade; and
(b) the chairman of the English Tourist Board, the chairman of [VisitScotland] and [a person appointed by the ~~National Assembly for Wales~~ <u>Welsh Ministers</u>].

(3) The English Tourist Board shall consist of a chairman and not more than six other members appointed by the Board of [Trade and] [VisitScotland] shall consist of a chairman and not more than [eleven] other members appointed by the Secretary of State for Scotland. . ..

(4) . . .

(5) Schedule 1 to this Act shall have effect in relation to each of the bodies established by this section.

(6) In this Act "Tourist Board" means any of the bodies established by this section, and "the relevant Minister" means, in relation to the British Tourist Authority and the English Tourist Board, the Board of [Trade and] in relation to [VisitScotland], the Secretary of State for Scotland . . ..

**2 General functions and powers.**

*Paragraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) It shall be the function of the British Tourist Authority—

(a) to encourage people to visit Great Britain and people living in Great Britain to take their holidays there; and

(b) to encourage the provision and improvement of tourist amenities and facilities in Great Britain;

and the English Tourist Board, ~~[VisitScotland] and the [National Assembly for Wales]~~ <u>and VisitScotland</u> shall have the like functions as respects England, ~~Scotland and Wales~~ <u>and Scotland</u> respectively.

(2) In addition to the specific powers conferred on it by or under the subsequent provisions of this Act but subject to subsections (3)[, ~~(4) and (4A)~~ <u>and (4)</u>] of this section, each Tourist Board ~~[and the National Assembly for Wales]~~ shall have power to do anything for the purpose of discharging the functions conferred on it by this section or which is incidental or conducive to the discharge of those functions and in particular (but without prejudice to the generality of the foregoing provisions) for that purpose—

(a) to promote or undertake publicity in any form;

(b) to provide advisory and information services;

(c) to promote or undertake research;

(d) to establish committees to advise them in the performance of their functions;

(e) to contribute to or reimburse expenditure incurred by any other person or organisation in carrying on any activity which the Board [~~or the National Assembly for Wales~~] has power to carry on under paragraph (a), (b) or (c) of this subsection.

(3) Only the British Tourist Authority shall have power by virtue of subsection (2) of this section to carry on any activities outside the United Kingdom for the purpose of encouraging people to visit Great Britain or any part of it but this subsection shall not prevent the other Tourist Boards [~~or the National Assembly for Wales~~] engaging in such activities on behalf of the Authority.

(4) None of the Tourist Boards shall have power, except as provided by sections 3 and 4 of this Act, to give financial assistance for the carrying out of or itself to carry out, any project for providing or improving tourist amenities and facilities in Great Britain.

~~[(4A) The National Assembly for Wales shall also have no such power under this Act, except as provided by sections 3 and 4A.]~~

(5) In discharging their functions under this section the English Tourist Board, ~~[VisitScotland] and the [National Assembly for Wales]~~ and VisitScotland shall have regard to the desirability of fostering and, in appropriate cases, co-operating with organisations discharging functions corresponding to those of [those bodies] ~~[or the National Assembly for Wales]~~ in relation to particular areas within the countries for which [those bodies] ~~[or the National Assembly for Wales]~~ are respectively responsible; and, without prejudice to the foregoing provisions of this section, each of those [bodies] ~~[and the National Assembly for Wales]~~ shall have power to provide such organisations with financial or other assistance.

(6) In discharging its functions under this section each Tourist Board ~~[and the National Assembly for Wales]~~ shall have regard to the desirability of undertaking appropriate consultation with the other Tourist Boards [and, as appropriate, ~~the National Assembly for Wales~~ the Welsh Ministers] and with persons and organisations, including those mentioned in the last foregoing subsection, who have knowledge of, or are interested in, any matters affecting the discharge of those functions.

(7) A Tourist Board may charge for its services and receive contributions towards its expenses in carrying out any of its functions.

~~[(7A) The National Assembly for Wales may charge for its services and receive contributions towards its expenses in carrying out any of its functions under this Act as read with the Tourism (Overseas Promotion) (Wales) Act 1992.]~~

(8) A Tourist Board shall not borrow money except with the consent of the relevant Minister and the Treasury.

~~[(8A) The National Assembly for Wales may borrow money for the purposes of exercising its functions under this Act as read with the Tourism (Overseas Promotion) (Wales) Act 1992.]~~

(9) In this Part of this Act "tourist amenities and facilities" means, in relation to any country, amenities and facilities for visitors to that country and for other people travelling within it on business or pleasure.

(10) See Part 2 of the Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation (Wales) Act 2026 for the corresponding functions of the Welsh Ministers in relation to promoting the development of tourism in Wales.

**3 General schemes of assistance for tourist projects.**

*Paragraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) The British Tourist Authority may, after consultation with the English Tourist Board, [VisitScotland] and the [~~National Assembly for Wales~~ Welsh Ministers], prepare schemes providing for the giving of financial assistance by those Boards [and the ~~National Assembly for Wales~~ Welsh Ministers] for the carrying out of projects of such classes as may be specified in the schemes, being projects which in the opinion of the Authority will provide or improve tourist amenities and facilities in Great Britain.

(2) Any scheme prepared under subsection (1) of this section shall be submitted to the Board of Trade who may, subject to subsection (6) of this section, by order confirm it with or without modification; and if a scheme is so confirmed it shall thereupon have effect.

(3) A scheme under this section may provide for financial assistance to be given by way of grant or loan or by any combination of those methods.

(4) In making a grant or loan under any scheme made by virtue of this section a Tourist Board [and the ~~National Assembly for Wales~~ Welsh Ministers] may, subject to the provisions of the scheme and to any directions under section 19 of this Act, impose such terms and conditions as it thinks fit, including conditions for the repayment of a grant in specified circumstances; and Schedule 2 to this Act shall have effect for securing compliance with conditions subject to which any such grant is made.

(5) A scheme which has effect under this section may be varied or revoked by a subsequent scheme prepared, submitted and confirmed in like manner or, subject to

subsection (6) of this section, by an order made by the Board of Trade after consultation with the British Tourist Authority, the English Tourist Board, [VisitScotland] and the [~~National Assembly for Wales~~ Welsh Ministers].

(6) Any power of the Board of Trade to make orders under this section shall be exercisable by statutory instrument and any order under subsection (2) of this section shall set out the scheme which the order confirms; and no order shall be made under this section except with the consent of the Treasury and unless a draft of it has been laid before Parliament and approved by a resolution of each House.

**~~[4A Execution of particular tourist projects: Wales]~~**

*Paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

~~[(1) The National Assembly for Wales shall have power—~~

~~(a) to give financial assistance for the carrying out of any project which in its opinion will provide or improve tourist amenities and facilities in Wales;~~

~~(b) to carry out any such project as aforesaid.~~

~~(2) Financial assistance under subsection (1) of this section may be given by way of grant or loan or, if the project is being or is to be carried out by a company incorporated in Great Britain, by subscribing for or otherwise acquiring shares or stock in the company or by any combination of those methods.~~

~~(3) In making a grant or loan under subsection (1)(a) of this section the National Assembly for Wales may impose such terms and conditions as it thinks fit, including conditions for the repayment of a grant in specified circumstances; and Schedule 2 to this Act shall have effect for securing compliance with conditions subject to which any such grant is made.~~

~~(4) The National Assembly for Wales shall not dispose of any shares or stock acquired by it by virtue of this section except after consultation with the company in which the shares or stock are held.]~~

**5 Miscellaneous duties and powers.**

*Paragraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety*

(1) It shall be the duty of the British Tourist Authority to advise any Minister or public body on such matters

relating to tourism in Great Britain as a whole as the Minister or body may refer to it or as the Authority may think fit; and the English Tourist Board, ~~[VisitScotland] and the [National Assembly for Wales]~~ and VisitScotland shall have the like duty as respects matters relating to tourism in England, ~~Scotland and Wales~~ and Scotland respectively.

*Ymwelwyr (Cymru)*

(2) In the last foregoing subsection "public body" includes any local authority or statutory undertaker, and any trustees, commissioners, board or other persons, who, as a public body and not for their own profit, act under any enactment for the improvement of any place or the production or supply of any commodity or service.

(3) The British Tourist Authority shall have power to carry on, at the request of any corresponding body established under the law of Northern Ireland, any of the Channel Islands or the Isle of Man and on such terms as may be agreed upon between the Authority and that body, activities outside the United Kingdom and those Islands for encouraging people to visit Northern Ireland or those Islands.

(4) . . .

**SCHEDULE 2 Enforcement of Conditions of Grant**

*Paragraff 7 o Atodlen 1 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

**1 Power to call for information**

(1) A Tourist Board may by notice require any person who has received a grant from the Board under this Act, and any person acting on his behalf, to furnish to the Board such information, or to produce for examination on behalf of the Board such books, records or other documents, as may be specified in the notice for the purpose of enabling the Board to determine whether any condition subject to which the grant was made is satisfied or is being complied with or whether the grant has become repayable in whole or in part in accordance with any such condition.

[(1A) Sub-paragraph (1) applies in relation to the ~~National Assembly for Wales~~ Welsh Ministers and any person who has received a grant under a scheme prepared in accordance with section 3 from ~~the Assembly~~ them (and any person acting on that person's behalf) as it applies in relation to a Tourist Board and the corresponding persons.]

(2) A notice under this paragraph may require the information to which it relates to be furnished within such time as may be specified in the notice, and may require the documents to which it relates to be produced at such time and place as may be so specified:
Provided that the time specified in such a notice for furnishing any information or producing any document shall not be earlier than the end of the period of twenty-eight days beginning with the service of the notice.

(3) A notice under this paragraph may be served—

- (a) by delivering it to the person on whom it is to be served;
- (b) by leaving it at the usual or last known place of abode of that person;
- (c) by sending it in a prepaid registered letter, or by the recorded delivery service, addressed to that person at his usual or last known place of abode; or
- (d) in the case or an incorporated company or body, by delivering it to the secretary or clerk of the company or body at their registered or principal office, or sending it in a prepaid registered letter, or by the recorded delivery service, addressed to the secretary or clerk of the company or body at that office.

(4) Any person who without reasonable excuse fails to comply with a notice under this paragraph shall be guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding [level 5 on the standard scale].

**2 Power to enter and inspect premises**

(1) Any person duly authorised in that behalf by a Tourist Board [or the ~~National Assembly for Wales~~ Welsh Ministers] may, on production (if so required) of written evidence of his authority, at all reasonable times enter and inspect any premises in relation to which a grant has been made by the Board ~~[or (as the case may be) the Assembly]~~ under this Act or (as the case may be) the Welsh Ministers under section 3 for the purpose of determining whether any condition subject to which the grant was made is satisfied or is being complied with or whether the grant has become repayable in whole or in part in accordance with any such condition.

(2) Any person who wilfully obstructs any person in the exercise of a right of entry conferred by this paragraph shall be guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding [level 3 on the standard scale].

**3 Failure to comply with condition requiring notification of event on which grant becomes repayable**

(1) Any person who without reasonable excuse fails to comply with any condition subject to which a grant was made to him under this Act requiring him to inform a Tourist Board ~~[or the National Assembly for Wales]~~ of any event whereby the grant becomes repayable in whole or in part shall be guilty of an offence and liable to a fine which, if imposed on summary conviction, shall not exceed [level 5 on the standard scale].

<u>(1A) Sub-paragraph (1) applies in relation to the Welsh Ministers and any person who has received a grant under a scheme prepared in accordance with section 3 from them as it applies in relation to a Tourist Board and the corresponding person.</u>

(2) . . .

(3) Summary proceedings in Scotland for an offence under this paragraph shall not be commenced after the expiration of three years from the commission of the offence, but subject to the foregoing limitation and notwithstanding anything in [section 136 of the Criminal Procedure (Scotland) Act 1995], such proceedings may be commenced at any time within twelve months after the date on which evidence sufficient in the opinion of the Lord Advocate to justify the proceedings comes to his knowledge; and [subsection (3) of the said section 136] shall apply for the purposes of this sub-paragraph as it applies for the purposes of that section.

(4) For the purposes of sub-paragraphs . . . (3) of this paragraph, a certificate of . . . the Lord Advocate . . . , as to the date on which such evidence as aforesaid came to his knowledge shall be conclusive evidence of that fact.

# Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025

## 1 Trosolwg o'r Ddeddf hon

*Adran 4(1) o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(A1) Mae'r Ddeddf hon yn rhan o god Cyfraith Cymru sy'n ymwneud â thwristiaeth.

(1) Mae'r Rhan hon o'r Ddeddf yn cynnwys (yn ogystal â'r trosolwg hwn) ddiffiniad o "llety ymwelwyr" a "darparwr llety ymwelwyr".

(2) Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyllid Cymru gadw cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.

(3) Mae Rhan 3 o'r Ddeddf hon yn rhoi'r pŵer i brif gynghorau gyflwyno yn eu hardaloedd ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr ac yn rhoi swyddogaethau i Awdurdod Cyllid Cymru sy'n ymwneud â chasglu a rheoli'r ardoll.

(4) Mae Rhan 4 o'r Ddeddf hon—

(a) yn gwneud darpariaeth ynghylch canllawiau ar y Ddeddf hon a ddyroddir gan Weinidogion Cymru,

(b) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ymestyn y Ddeddf hon fel ei bod yn gymwys mewn perthynas â docfeydd ac angorfeydd ar gyfer cychod,

(c) yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygiadau o weithrediad ac effaith y Ddeddf hon gan Weinidogion Cymru, a

(d) yn cynnwys darpariaeth gyffredinol.

## 3 Darparwr llety ymwelwyr

*Paragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a*

*Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Mae person yn ddarparwr llety ymwelwyr ("DLlY") os yw'r person hwnnw—

(a) yng nghwrs masnach neu fusnes,

(b) yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru, ac

(c) yn feddiannydd ar y fangre lle y darperir y llety ymwelwyr.

(3) Mae person yn darparu llety ymwelwyr os yw'r person hwnnw yn ymrwymo i gontract y mae gan un neu ragor o bobl hawlogaeth i breswylio yn y llety am un neu ragor o nosweithiau odano neu o ganlyniad iddo.

(4) Yn is-adran (3), nid yw "contract" yn cynnwys contract gwasanaeth, contract prentisiaeth na chontract am wasanaethau y mae person sydd â hawlogaeth i breswylio yn y llety ymwelwyr yn darparu gwasanaeth odano i'r DLlY.

(5) Yn y Ddeddf hon—

(a) mae "yn cynnig darparu", mewn perthynas â llety ymwelwyr, yn cynnwys hysbysebu neu ei farchnata fel arall, neu wneud unrhyw berson yn ymwybodol fel arall fod y llety ar gael ar gyfer arosiadau;

(b) mae cyfeiriadau at "darparwr llety ymwelwyr" (neu "DLlY") yn cynnwys, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, berson sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf hon, ni waeth a yw'r person hwnnw yn dod o fewn is-adran (2) ar unrhyw adeg benodol (ac ni waeth a oes datganiad yng nghofnod y person yn y gofrestr o dan baragraff 2A(b) o Atodlen 1 nad yw'r person yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr).

**4 Cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr**

*Paragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ("y gofrestr").

(2) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yng nghofnod darparwr llety ymwelwyr yn y gofrestr.

(3) Caiff y gofrestr gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae ACC yn ystyried ei bod yn briodol.

(4) Rhaid i ACC gyhoeddi, mewn unrhyw fodd y mae ACC yn ystyried ei fod yn briodol,

(a) yr wybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr yn rhinwedd <u>is-adran (2A) ac</u> Atodlen 1;

<u>(b) y rhif cofrestru a bennir o dan y Rhan hon ar gyfer pob DLlY;</u>

<u>(c) y rhif cofrestru a bennir o dan y Rhan hon mewn cysylltiad â phob mangre.</u>

(5) Ond ni chaiff ACC gyhoeddi (ni waeth a yw'r wybodaeth o dan sylw wedi ei chynnwys yn y cofnod ar gyfer darparwr llety ymwelwyr sy'n unigolyn)—

(a) enw unigolyn, oni bai—

(i) bod yr unigolyn yn cydsynio i'w enw gael ei gyhoeddi, neu

(ii) bod enw cyntaf a chyfenw'r unigolyn yn rhan o enw busnes y darparwr llety ymwelwyr ("DLlY");

(b) cyfeiriad unig breswylfa neu brif breswylfa unigolyn, oni bai—

(i) bod yr unigolyn yn cydsynio i'w gyfeiriad gael ei gyhoeddi, neu

(ii) bod y cyfeiriad yn gyfeiriad mangre ~~lle y mae'r DLIY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr~~ y mae'r DLIY wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hi.

(6) Caiff ACC gyhoeddi, mewn unrhyw fodd y mae ACC yn ystyried ei fod yn briodol, wybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr yn rhinwedd is-adran (3); ond ni chaiff ACC gyhoeddi gwybodaeth o dan yr is-adran hon os gwaherddir ACC rhag cyhoeddi'r wybodaeth honno drwy unrhyw ddeddfiad neu unrhyw reol gyfreithiol.

(7) Yn y Rhan hon—

(a) ystyr "cofrestredig" yw cofrestredig yn y gofrestr, ~~a~~

(aa) ystyr "DLIY trwyddedig" yw DLIY sydd yn meddu ar drwydded llety ymwelwyr o fewn ystyr Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00) (gweler adran 14 o'r Ddeddf honno), a

(b) mae cyfeiriad at fangre lle y mae person neu DLIY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr yn gyfeiriad at fangre—

(i) yng Nghymru,

(ii) lle y mae'r person neu'r DLIY, yng nghwrs masnach neu fusnes, yn darparu neu'n cynnig darparu llety ymwelwyr, a

(iii) y mae'r person neu'r DLIY yn ei feddiannu.

**6 Ceisiadau i fod yn gofrestredig**

*Paragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf*

*Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Caiff person wneud cais i fod yn gofrestredig cyn i'r person ddechrau, yng nghwrs masnach neu fusnes, ddarparu, neu gynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru y mae'r person yn ei meddiannu (ond gweler adrannau ~~14~~<u>14A</u> i 16 (dileu person o'r gofrestr pan nad yw'n darparu etc. llety ymwelwyr)).

(2) Rhaid i gais i fod yn gofrestredig—

(a) bod ar unrhyw ffurf, a chael ei wneud mewn unrhyw fodd, a bennir gan ACC,

(b) cynnwys yr wybodaeth y mae'n ofynnol, o dan Atodlen 1, ei chynnwys yn y gofrestr, ac

(c) cynnwys unrhyw wybodaeth arall, a chynnwys gydag ef unrhyw ddogfennau, a bennir gan ACC.

(3) Rhaid i ACC (oni bai bod y person eisoes yn gofrestredig)—

(a) cofrestru person sy'n gwneud cais sy'n cydymffurfio ag is-adran (2), a

(b) dyroddi hysbysiad cofrestru i'r person hwnnw sy'n <u>pennu—</u>

<u>(i) rhif cofrestru ar gyfer y DLlY, a</u>

<u>(ii) rhif cofrestru mewn cysylltiad â phob mangre lle y mae'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr.</u>

(4) Os yw ACC yn penderfynu peidio â chofrestru person sydd wedi gwneud cais o dan is-adran (1), rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r person hwnnw—

(a) yn pennu'r rheswm pam, a

(b) yn nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

(5) Nid yw person yn agored i gosb o dan adran 7 mewn perthynas â mangre lle y mae'r person yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr yn ystod y cyfnod—

(a) sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r person yn gwneud cais i fod yn gofrestredig mewn cysylltiad â'r fangre honno, a

(b) sy'n dod i ben â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad i'r person hwnnw o dan is-adran (3)(b) neu (4).

**8 Pŵer i gofrestru personau pan na fo cais wedi ei wneud i ACC**

*Paragraff 5 o Atodlen 2 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Caiff ACC gofrestru person nad yw'n gofrestredig ac nad yw wedi gwneud cais i fod yn gofrestredig os yw ACC, ar y diwrnod y mae ACC yn cofrestru'r person, yn ystyried bod y person—

(a) yn DLIY, neu

(b) wedi bod yn DLIY ar unrhyw adeg yn y 14 o ddiwrnodau blaenorol.

(2) Cyn y caiff ACC gofrestru person o dan is-adran (1), rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r person hwnnw—

(a) yn nodi'r wybodaeth a fydd yn cael ei chynnwys yng nghofnod y person hwnnw yn y gofrestr,

(b) yn pennu unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i gofnod y person hwnnw nad yw gan ACC, neu y mae ACC yn ystyried ei bod yn anghywir, neu y gall fod yn anghywir,

(c) yn rhoi gwybod i'r person y bydd ACC yn cofrestru'r person ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad oni bai—

(i) bod y person, cyn y dyddiad hwnnw, yn gwneud cais i fod yn gofrestredig yn unol ag adran 6, neu

(ii) bod ACC wedi ei fodloni nad yw'n ofynnol i'r person gofrestru, a

(d) yn nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

(3) Rhaid i'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad o dan is-adran (2)(c) fod o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad.

<u>(3A) Os yw ACC yn cofrestru person o dan is-adran (1), rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r person sy'n pennu—</u>

<u>(a) rhif cofrestru ar gyfer y person, a</u>

<u>(b) rhif cofrestru mewn cysylltiad â phob mangre lle y mae'r person yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr.</u>

(4) Mae person sydd wedi ei gofrestru o dan yr adran hon i'w drin, at ddibenion adran 7, fel pe na bai'r person hwnnw yn gofrestredig; ond nid yw'r is-adran hon yn gymwys o'r adeg y mae'r person—

(a) yn rhoi hysbysiad i ACC—

(i) sy'n darparu unrhyw wybodaeth sy'n angenrheidiol i wneud cofnod y person yn gyflawn ac yn gywir, neu

(ii) os nad oes angen unrhyw wybodaeth o'r fath, sy'n cadarnhau bod y cofnod yn gyflawn ac yn gywir, neu

(b) yn gwneud cais i ACC i gael ei ddileu o'r gofrestr

**9 Dyletswydd i hysbysu ACC am newidiadau ac anghywirdebau**

*Paragraff 6 o Atodlen 2 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Rhaid i DLlY roi hysbysiad i ACC am unrhyw—

(a) newid mewn amgylchiadau sy'n peri i gofnod y DLlY yn y gofrestr fod yn anghywir, neu

(b) anghywirdeb yng nghofnod DLlY yn y gofrestr,

cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r newid mewn amgylchiadau yn digwydd neu â'r diwrnod pan ddaeth y DLlY i wybod gyntaf, neu pan ddylai fod wedi gwybod, am yr anghywirdeb.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (1)—

(a) bod ar unrhyw ffurf, a chael ei roi mewn unrhyw fodd, a bennir gan ACC,

(b) cynnwys yr wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi ACC i gywiro'r gofrestr (gan gynnwys, pan fo'r DLlY yn dymuno bod yn gofrestredig mewn cysylltiad â mangre wahanol neu ychwanegol neu mewn perthynas â llety ymwelwyr gwahanol neu ychwanegol, yr wybodaeth sy'n ymwneud â'r fangre neu'r llety y mae'n ofynnol ei chynnwys yn y gofrestr o dan Atodlen 1), ac

(c) cynnwys unrhyw wybodaeth arall, a chynnwys gydag ef unrhyw ddogfennau, a bennir gan ACC.

(3) Rhaid i ACC, os yw'r hysbysiad yn cydymffurfio ag is-adran (2)—

(a) cywiro'r gofrestr, a

(b) dyroddi hysbysiad i'r DLlY, ~~yn pennu'r cywiriadau a wnaed i gofnod y DLlY~~

(i) yn pennu'r cywiriadau a wnaed i gofnod y DLIY, a

(ii) pan fo'r cywiriad yn golygu ychwanegu mangre lle y mae'r DLIY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr at gofnod y DLIY yn y gofrestru, yn pennu rhif cofrestru mewn cysylltiad â'r fangre honno, oni bai bod ACC eisoes wedi gwneud y cywiriadau o dan adran 11.

(4) Os yw ACC yn penderfynu peidio â gwneud newid i’r gofrestr ar ôl cael hysbysiad gan DLIY o dan is-adran (1), rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r DLIY hwnnw—

(a) yn pennu'r rheswm pam, a

(b) yn nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio

**11 Pŵer i newid y gofrestr pan na fo hysbysiad wedi ei roi i ACC**

*Paragraff7 o Atodlen 2 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Caiff ACC newid cofnod DLIY yn y gofrestr pan na fo hysbysiad wedi ei roi gan y DLIY o dan adran 9 os yw ACC o'r farn bod y cofnod yn anghywir.

(2) Cyn y caiff ACC newid cofnod DLIY o dan is-adran (1), rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r DLIY hwnnw—

(a) yn pennu'r wybodaeth y mae ACC yn ystyried ei bod yn anghywir

(b) yn nodi a yw ACC yn bwriadu—

(i) hepgor yr wybodaeth honno, neu

(ii) gwneud newidiadau eraill i'r cofnod, ac yn yr achos hwnnw, rhaid i ACC bennu pa

newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud,

(c) yn rhoi gwybod i'r DLIY y bydd ACC yn newid y gofrestr ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad oni bai—

(i) bod y DLIY, cyn y dyddiad hwnnw, yn rhoi'r hysbysiad sy'n ofynnol o dan adran 9(1)(a) neu (b), neu

(ii) bod ACC wedi ei fodloni nad oes angen newid y gofrestr, a

(d) yn nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

(3) Rhaid i'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad o dan is-adran (2)(c) fod o leiaf 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad.

<u>(3A) Pan fo ACC yn gwneud newid o dan is-adran (1) sy'n golygu ychwanegu mangre lle y mae'r DLIY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr at gofnod y DLIY yn y gofrestr, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r DLIY, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y newid, yn pennu rhif cofrestru mewn cysylltiad â'r fangre honno.</u>

(4) Pan fo cofnod DLIY yn cael ei newid o dan yr adran hon, mae'r DLIY yn parhau i fod yn agored i gosbau o dan adran 10; ond mae'r DLIY i'w drin at ddibenion yr adran honno fel pe bai wedi rhoi'r hysbysiad sy'n ofynnol gan adran 9(1)(a) neu (b) o'r adeg <u>y mae'r DLIY—</u>

<u>(a) yn rhoi hysbysiad i ACC—</u>

(i) os yw'r cofnod yn anghywir, sy'n darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i wneud cofnod y DLIY yn gywir, neu

(ii) sy'n cadarnhau bod y cofnod yn gywir,

(b) yn gwneud cais i ACC i gael ei ddileu o'r gofrestr.

~~DLIY yn rhoi hysbysiad i ACC—~~

~~(a) os yw'r cofnod yn anghywir, sy'n darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i wneud cofnod y DLIY yn gywir, neu~~

(~~b) sy'n cadarnhau bod y cofnod yn gywir.~~

**14 Dileu person o'r gofrestr ar gais i ACC**

*Paragraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Caiff person sydd â chofnod yn y gofrestr wneud cais i ACC i gael ei ddileu o'r gofrestr (ond gweler adran 14A am amgylchiadau pryd y mae rhaid i berson wneud cais i ACC i gael ei ddileu o'r gofrestr).

~~(1) Rhaid i berson wneud cais i ACC i gael ei ddileu o'r gofrestr cyn yr 31ain diwrnod olynol nad yw'r person hwnnw wedi darparu, neu wedi cynnig darparu llety, ymwelwyr mewn unrhyw fangre.~~

(2) Rhaid i gais o dan is-adran (1)—

(a) bod ar unrhyw ffurf, a chael ei wneud mewn unrhyw fodd, a bennir gan ACC, a

(b) cynnwys unrhyw wybodaeth a bennir gan ACC.

(3) Rhaid i ACC, os yw person yn gwneud cais o dan yr adran hon sy'n cydymffurfio ag is-adran (2), rhaid i ACC—

(a) dileu'r person o'r gofrestr, a

(b) dyroddi hysbysiad i'r person sy'n cadarnhau'r dyddiad y caiff ei ddileu o'r gofrestr.

(4) Os yw ACC yn penderfynu peidio â dileu o’r gofrestr berson sydd wedi gwneud cais o dan is-adran (1), rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r person hwnnw—

(a) yn pennu'r rheswm pam, a

(b) yn nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

~~(5) At ddibenion yr adran hon ac adran 15, nid yw person wedi darparu na chynnig darparu llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre os nad yw'r person hwnnw, yng nghwrs masnach neu fusnes, wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru y mae'r person yn ei meddiannau.~~

**<u>14A Cais mandadol i berson gael ei ddileu o'r gofrestr</u>**

<u>(1) Rhaid i berson—</u>

<u>(a) nad yw’n DLIY trwyddedig, a</u>

<u>(b) nad yw’n dod o fewn is-adran (2),</u>

<u>cyn yr 31ain diwrnod yn olynol nad yw’r person hwnnw wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre, wneud cais o dan adran 14 i gael ei ddileu o’r gofrestr.</u>

<u>(2) Os—</u>

<u>(a) yw person yn peidio â bod yn DLIY trwyddedig, a</u>

(b) yn ystod y cyfnod o 31 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y peidiodd y person â bod yn DLIY trwyddedig, nad yw person—

(i) yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre;

(ii) yn dod yn DLIY trwyddedig,

rhaid i'r person, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, wneud cais o dan adran 14 i gael ei ddileu o'r gofrestr.

(3) At ddibenion yr adran hon—

(a) rhaid diystyru unrhyw ddiwrnod yn ystod—

(i) y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae person yn gwneud cais am drwydded llety ymwelwyr o dan Ran 3 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00) ("Deddf 2026"), ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y dyfernir ar y cais;

(ii) y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae penderfyniad sy'n ymwneud â rhoi neu ddirymu trwydded llety ymwelwyr yn dod yn ddarostyngedig i apêl o dan adran 29 o Ddeddf 2026, ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y dyfernir yn derfynol ynghylch yr apêl neu y tynnir yr apêl yn ôl;

(b) mae'r diwrnodau yn union cyn ac ar ôl cyfnod a grybwyllir ym mharagraff (a) i'w trin fel pe baent yn ddiwrnodau olynol.

(4) At ddibenion y Rhan hon, nid yw person wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre os nad yw'r person hwnnw, yng nghwrs masnach neu fusnes, wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru y mae'r person yn ei feddiannu.

.

**15 Cosbau pan fo person yn methu â gwneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr**

*Paragraff 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Mae person sy'n methu â chydymffurfio ag adran ~~14(1)~~14A(1) neu (2) yn agored i gosb o £100.

(2) Os ~~yw'r person~~ nad yw'r person yn DLIY trwyddedig ac os yw'r person—

(a) yn methu â gwneud cais i ACC i gael ei ddileu o'r gofrestr erbyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad cosb sy'n ymwneud â'r gosb o dan is-adran (1) ("y cyfnod cosbi cychwynnol"), a

(b) yn ystod y cyfnod hwnnw, heb ddarparu, neu heb gynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre,

mae'r person hwnnw yn agored i gosb, i'w chyfrifo o dan is-adran (3).

(3) Y gosb y mae person yn agored iddi o dan is-adran (2) yw—

(a) £10 am bob diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod cosbi cychwynnol, hyd at a chan gynnwys y 30ain diwrnod, y mae'r methiant yn parhau ac nad yw'r person yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre, a

(b) £1000 am yr 31ain diwrnod y mae'r methiant yn parhau ac nad yw'r person yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre.

(4) Wrth gyfrifo'r cyfnod cosbi cychwynnol, rhaid diystyru unrhyw ddiwrnod pan fo penderfyniad sy'n ymwneud â'r gosb o dan is-adran (1) yn destun—

(a) adolygiad nad yw hysbysiad am ei gasgliadau wedi ei ddyroddi hyd yma, neu

(b) apêl nad yw wedi ei dyfarnu'n derfynol neu wedi ei thynnu'n ôl hyd yma.

(5) At ddibenion is-adrannau (2) a (3), rhaid diystyru unrhyw ddiwrnod yn ystod—

(a) y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae person yn gwneud cais am drwydded llety ymwelwyr o dan Ran 3 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 ("Deddf 2026"), ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y dyfernir ar y cais;

(b) y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae penderfyniad sy'n ymwneud â rhoi neu ddirymu trwydded llety ymwelwyr yn dod yn ddarostyngedig i apêl o dan adran 29 o Ddeddf 2026, ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y dyfernir yn derfynol ynghylch yr apêl neu y tynnir yr apêl yn ôl.

**16 Pŵer i ddileu person o'r gofrestr pan nad oes cais wedi ei wneud**

*Paragraff 11 o Atodlen 2 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Caiff ACC ddileu person o'r gofrestr pan na fo'r person hwnnw wedi gwneud cais i gael ei ddileu os yw ACC yn ystyried ei bod yn ofynnol i'r person, o dan adran ~~14(1)~~14A, wneud cais o'r fath.

(2) Cyn y caiff ACC ddileu person o'r gofrestr o dan is-adran (1), rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r person hwnnw—

(a) yn pennu'r rhesymau pam y mae ACC yn ystyried ei bod yn ofynnol i'r person wneud cais i gael ei ddileu.

(b) yn rhoi gwybod i'r person y bydd ACC yn dileu'r person o'r gofrestr ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad oni bai—

(i) bod y person, cyn y dyddiad hwnnw, yn gwneud cais i gael ei ddileu sy'n cydymffurfio ag adran 14(2), neu

(ii) bod ACC wedi ei fodloni nad yw'n ofynnol i'r person wneud cais i gael ei ddileu, ac

(c) yn nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

(3) Rhaid i'r dyddiad a bennir o dan is-adran (2)(b) fod o leiaf 30 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad.

(4) Mae person sy'n cael ei ddileu o'r gofrestr o dan yr adran hon yn parhau i fod yn agored i gosbau o dan adran 15; ond mae'r person i'w drin at ddibenion yr adran honno fel pe bai wedi gwneud cais i gael ei ddileu o'r adeg y mae'r person—

(a) yn rhoi hysbysiad i ACC sy'n nodi'r dyddiad y mae'r person yn ei ystyried fel y dyddiad ~~y peidiodd y person â bod yn DLIY~~ <u>y darparodd y person lety ymwelwyr ddiwethaf, neu (os yw'n hwyrach) y cynigiodd y person ddarparu llety ymwelwyr ddiwethaf</u>, neu

(b) gwneud cais i fod yn gofrestredig.

**21 Gwahardd cosbi ddwywaith**

Nid yw person yn agored i gosb o dan y Rhan hon mewn cysylltiad ag unrhyw beth os yw'r person<u>—</u>

*Paragraff 12 o Atodlen 2 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio*

*Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(a) wedi cael euogfarn am drosedd mewn perthynas â hynny, neu

(b) mewn perthynas â hynny, yn talu'r swm a bennir mewn hysbysiad cosb a roddir i'r person o dan adran 55 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00) (ac na thynnir yr hysbysiad yn ôl wedi hynny).

**26 Cofrestru: pwerau i wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol**

*Paragraff 16 o Atodlen 2 i'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch y gofrestr a gofynion cofrestru, gan gynnwys (ymysg pethau eraill) ddarpariaeth—

(a) ynghylch gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y gofrestr neu na chaniateir ei chynnwys yn y gofrestr;

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth, neu'n gwahardd cyhoeddi gwybodaeth, sydd—

(i) wedi ei chynnwys yn y gofrestr, a

(ii) o fath a bennir yn y rheoliadau;

(c) sy'n esemptio person rhag y gofyniad i roi hysbysiad o dan adran 9(1) mewn perthynas â gwybodaeth o fath a bennir yn y rheoliadau;

(d) ynghylch cosbau o dan y Rhan hon, gan gynnwys darpariaeth—

(i) sy'n newid swm cosb;

(ii) sy'n newid sut y caiff cosb ei chyfrifo;

(iii) ynghylch y weithdrefn ar gyfer asesu cosbau;

(e) o ran penderfyniadau gan ACC sy'n ddarostyngedig i adolygiad neu apêl neu nad ydynt yn ddarostyngedig i adolygiad neu apêl.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio—

(a) y Ddeddf hon;

(b) Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6),

<u>(c) Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00),</u>

ac mae cyfeiriadau yn yr adran hon at "a bennir yn y rheoliadau" yn cynnwys cyfeiriad at "a bennir mewn diwygiad a wnaed gan y rheoliadau".

**38 Ystyr "cyfnod cyfrifyddu": ffurflenni blynyddol**

*Paragraff 14 o Atodlen 2 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â DLIY sy'n penderfynu o dan adran 37 ddychwelyd ffurflen flynyddol mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol.

(2) Y cyfnod cyfrifyddu yw'r flwyddyn ariannol, yn ddarostyngedig i is-adran (3).

(3) Pan fo'r DLIY yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy, mae cyfnod cyfrifyddu cyntaf y DLIY—

(a) yn dechrau ar y dyddiad y mae'r DLIY yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy, a

(b) yn dod i ben â diwedd y flwyddyn ariannol y dechreuodd y cyfnod cyfrifyddu ynddi.

(4) At ddibenion yr adran hon ac adran 39, mae DLIY yn cychwyn gweithrediadau ardolladwy—

(a) ar y dyddiad y mae'r DLIY yn cynnig darparu llety ymwelwyr am y tro cyntaf neu (os yw'n gynharach) yn darparu llety

ymwelwyr am y tro cyntaf, mewn ardal lle y mae'r ardoll wedi ei chyflwyno (pa un a yw'r DLIY wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr yn yr ardal honno, neu yn rhywle arall, cyn y dyddiad hwnnw ai peidio), neu

(b) pan fo'r DLIY yn flaenorol wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn ardal lle y mae'r ardoll wedi cael ei chyflwyno ac yna wedi peidio â ~~gwneud hynny~~ bod yn DLIY, ar y dyddiad y mae'r DLIY yn ailgychwyn cynnig darparu, neu (os yw'n gynharach) yn ailgychwyn darparu, llety ymwelwyr mewn ardal lle y mae'r ardoll wedi cael ei chyflwyno.

**ATODLEN 1**

*Paragraff 15 o Atodlen 2 i'- Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

*(cyflwynwyd gan adran 4)*

YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS YN Y GOFRESTR O DDARPARWYR LLETY YMWELWYR

*Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gofrestr*

1 Rhaid i gofnod darparwr llety ymwelwyr yn y gofrestr gynnwys yr wybodaeth a ganlyn am y darparwr llety ymwelwyr (“DLlY”)—

(a) enw'r DLlY,

(b) unrhyw enw busnes a ddefnyddir gan y DLlY,

(c) cyfeiriad busnes y DLlY,

(d) datganiad ynghylch a yw'r DLlY yn unigolyn, yn bartneriaeth, yn gorff corfforedig, yn gorff anghorfforedig, neu'n fath arall o endid,

(e) os yw'r DLlY—

(i) yn gwmni sydd wedi ei gofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 (p. 46), ei rif cwmni, neu

(ii) yn endid tramor o fewn yr ystyr a roddir i “overseas entity” yn Rhan 1 o Ddeddf Troseddau Economaidd (Tryloywder a Gorfodi) 2022 (p. 10) sydd wedi ei gofrestru o dan y Rhan honno, ei rif adnabod endid tramor, ac

(f) datganiad ynghylch a yw'r DLlY yn elusen, ac os yw'r DLlY yn elusen sydd wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Elusennau 2011 (p. 25), ei rif elusen.

2 Rhaid i gofnod DLlY yn y gofrestr gynnwys yr wybodaeth a ganlyn o ran pob mangre ~~lle y mae'r~~

~~DLIY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr~~ <u>y mae'r DLIY wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hi</u>—

(a) enw—

(i) y fangre (os oes gan y fangre enw);

(ii) y llety ymwelwyr a ddarperir yn y fangre (os oes gan y llety enw),

(b) cyfeiriad (gan gynnwys sir neu fwrdeistref sirol) y fangre,

(c) y math o lety ymwelwyr ~~y mae'r DLIY yn ei ddarparu, neu'n cynnig ei ddarparu,~~ yn y fangre, a

(d) uchafswm nifer y bobl y gellir eu lletya yn y llety ymwelwyr ~~a ddarperir~~ yn y fangre.

<u>2A Rhaid i gofnod DLIY trwyddedig yn y gofrestr— (a) cynnwys yr wybodaeth a ganlyn am y llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre y mae'r DLIY wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hi— (i) faint o lety ymwelwyr rheoleiddiedig sydd yn y fangre; (ii) uchafswm nifer y bobl y gellir eu lletya ym mhob llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre; (b) cynnwys datganiad, sy'n ymwneud â phob mangre y mae'r DLIY wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hi (ni waeth a yw'r llety ymwelwyr yn y fangre yn llety ymwelwyr rheoleiddiedig), ynglŷn ag a yw'r DLIY am y tro yn darparu, neu'n cynnig darparu, y llety ymwelwyr y mae'r DLIY wedi ei gofrestru mewn perthynas ag ef ai peidio.</u>

3 Pan fo ACC wedi cofrestru person o dan adran 8, neu wedi gwneud unrhyw newidiadau i gofnod person o dan adran 11—

(a) rhaid i'r cofnod ddangos bod y person wedi ei gofrestru, neu fod y cofnod wedi ei newid, o dan yr adran o dan sylw, a

(b) yn achos newid a wnaed o dan adran 11, rhaid i'r cofnod ddangos pa wybodaeth sydd o dan sylw,

ond mae is-baragraffau (a) a (b) yn peidio â bod yn gymwys i gofnod os yw'r person yn darparu i ACC yr wybodaeth sy'n angenrheidiol i fodloni ACC bod y cofnod yn gyflawn ac yn gywir.

***Amgylchiadau pan nad oes angen cynnwys gwybodaeth yn y gofrestr***

4 (1) Nid yw gofyniad ym mharagraff 1 neu 2 i gynnwys gwybodaeth o ddisgrifiad penodol mewn cofnod yn y gofrestr yn gymwys—

(a) os nad oes gan ACC yr wybodaeth o dan sylw, neu

(b) os yw ACC yn ystyried bod yr wybodaeth o dan sylw yn anghywir neu'n debygol o fod yn anghywir.

(2) Pan fo ACC yn cynnwys gwybodaeth o fath a ddisgrifir yn is-baragraff (b) mewn cofnod, caiff ACC ddangos yn y cofnod fod ACC yn ystyried bod yr wybodaeth yn anghywir neu (yn ôl y digwydd) yn debygol o fod yn anghywir.

*Partneriaethau a chyrff anghorfforedig*

5 Pan fo DLIY yn bartneriaeth neu'n gorff anghorfforedig—

(a) mae'r cyfeiriad ym mharagraff 1(a) at enw'r DLIY yn gyfeiriad at enw—

(i) pob aelod o'r bartneriaeth;

(ii) pob aelod rheoli o'r corff anghorfforedig, a

(b)rhaid i'r gofrestr (yn ychwanegol at yr wybodaeth a restrir ym mharagraff 1) gynnwys cyfeiriad—

(i)pob aelod o'r bartneriaeth;

(ii)pob aelod rheoli o'r corff anghorfforedig.

*Dehongli*

6 At ddibenion yr Atodlen hon—

(a) cyfeiriad busnes partneriaeth yw cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig neu ei phrif swyddfa, a chyfeiriad busnes corff corfforedig neu gorff anghorfforedig yw cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig neu ei brif swyddfa;

(b) ystyr "elusen" yw elusen sydd wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Elusennau 2011 (p. 25) neu elusen esempt (o fewn yr ystyr a roddir i "exempt charity" yn y Ddeddf honno);
(c) ystyr "llety ymwelwyr rheoleiddiedig" yw llety ymwelwyr sy'n dod o fewn adran 5(1)(a) o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00) (llety hunanddarpar sy'n hunangynhwysol, ac sydd mewn adeilad, neu mewn cartref symudol, llestr neu gerbyd arall).

**Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016**

**12 Prif swyddogaethau**

*Paragraff 16(2) o Atodlen 2 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Swyddogaeth gyffredinol ACC yw casglu a rheoli trethi datganoledig.

(2) Mae gan ACC y swyddogaethau penodol a ganlyn—

(a) darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â threthi datganoledig i Weinidogion Cymru;

(b) darparu gwybodaeth a chymorth yn ymwneud â threthi a gesglir gan ACC i drethdalwyr, eu hasiantiaid a phersonau eraill;

(c) datrys cwynion ac anghydfodau yn ymwneud â threthi datganoledig;

(d) hybu cydymffurfedd â'r gyfraith sy'n ymwneud â threthi datganoledig ac amddiffyn rhag efadu trethi ac osgoi trethi mewn perthynas â threthi datganoledig.

(e) darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â'r ardoll ymwelwyr i brif gynghorau.

(2A) Mae gan ACC hefyd swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00) (cofrestr o lety ~~ymwelwyr)~~ ddarparwyr llety ymwelwyr) a Rhan 4 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00) (cyfeiriadur o fangreoedd llety ymwelwyr).

(3) Rhaid i ACC ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth, unrhyw gyngor neu unrhyw gymorth yn ymwneud â'i

swyddogaethau y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd ar unrhyw ffurf y bydd Gweinidogion Cymru yn ei phennu.

(4) Yn ychwanegol at unrhyw bwerau eraill sydd ganddo, caiff ACC wneud unrhyw beth sydd, yn ei farn ef—

(a) yn angenrheidiol neu'n hwylus mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau, neu

(b) yn atodol i arfer y swyddogaethau hynny neu'n ffafriol i hynny.

**18 Datgelu a ganiateir**

*Adran 36(6) o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Mae'r adran hon yn caniatáu datgelu gwybodaeth warchodedig—

(za) os gwneir hynny at ddibenion swyddogaethau ACC, ac eithrio'r swyddogaethau a nodir yn adran 12(2)(a) ac (e), a (3),

(a) os gwneir hynny gyda chydsyniad pob person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef,

(b) os gwneir hynny er mwyn cael gwasanaethau mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC,

(c) os gwneir hynny at ddibenion ymchwiliad troseddol neu achos troseddol neu at ddibenion atal troseddu neu ganfod trosedd,

(d) os gwneir hynny i gorff sydd â chyfrifoldeb am reoleiddio proffesiwn mewn cysylltiad â chamymddwyn ar ran

aelod o'r proffesiwn sy'n ymwneud ag un o swyddogaethau ACC,

(e) os gwneir hynny at ddibenion achos sifil,

(f) os gwneir hynny yn unol â gorchymyn llys neu dribiwnlys,

(g) os gwneir hynny yn unol â deddfiad sy'n gwneud ei datgelu yn ofynnol neu'n caniatáu hynny, neu

(h) os gwneir hynny i ACC neu i berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo ar gyfer ei defnyddio yn unol ag adran 16,

(i) os gwneir hynny i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC neu mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, ~~neu~~

(j) os gwneir hynny i Gyllid yr Alban mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC neu mewn cysylltiad â chasglu a rheoli treth ddatganoledig o fewn yr ystyr a roddir i “devolved tax” yn Neddf yr Alban 1998 (p. 46).

(k) os yw’r datgeliad yn datgelu gwybodaeth a ddaeth i law mewn cysylltiad â swyddogaethau ACC o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00), a gwneir y datgeliad—

(i) i brif gyngor mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau'r prif gyngor, neu

(ii) i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â’u swyddogaethau o

dan ~~adran 2 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 (c. 51)~~ Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00), neu

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (1) drwy reoliadau.

**172 Penderfyniadau apeliadwy**

*Paragraff 16(3) o Atodlen 2 i Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Caiff person y mae penderfyniad apeliadwy yn gymwys iddo—

(a) gofyn am adolygiad o'r penderfyniad (yn ddarostyngedig i is-adran (4)), a

(b) apelio yn erbyn y penderfyniad,

yn unol â'r darpariaethau a ganlyn yn y Rhan hon.

(2) Mae'r penderfyniadau a ganlyn gan ACC yn benderfyniadau apeliadwy—

(a) penderfyniad sy'n effeithio ar ba un a yw treth ddatganoledig i'w chodi ar berson;

(b) penderfyniad sy'n effeithio ar y swm o dreth ddatganoledig sydd i'w chodi ar berson;

(c) penderfyniad sy'n effeithio ar y diwrnod erbyn pryd y mae'n rhaid talu swm o dreth ddatganoledig;

(d) penderfyniad ynglŷn â chosb sy'n ymwneud â threth ddatganoledig;

(da) penderfyniad sy'n ymwneud â phwynt cosb am fethu â dychwelyd

ffurflen ardoll ymwelwyr (o fewn ystyr Rhan 5);

(db) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad trethdalwr, neu i gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath, pan na chymeradwyodd y tribiwnlys ddyroddi'r hysbysiad;

(e) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath;

(f) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad o dan baragraff 14 o Atodlen 16 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (adennill rhyddhad grŵp: hysbysiad yn gwneud taliad yn ofynnol gan un arall o gwmnïau'r grŵp neu gyfarwyddwr â rheolaeth);

(g) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad o dan baragraff 9 o Atodlen 17 i'r Ddeddf honno (adennill rhyddhad atgyfansoddi neu ryddhad caffael: hysbysiad yn gwneud taliad yn ofynnol gan un arall o gwmnïau'r grŵp neu gyfarwyddwr â rheolaeth);

(h) penderfyniad sy'n ymwneud â'r dull sydd i'w ddefnyddio gan weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig i bennu pwysau deunydd at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi;

(i) penderfyniad sy'n ymwneud â chofrestru person at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi;

(j) penderfyniad sy'n ymwneud â dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi;

(k) penderfyniad sy'n ymwneud â dynodi grŵp o gyrff corfforaethol at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi;

(l) penderfyniad sy'n ymwneud â chredyd treth mewn cysylltiad â threth gwarediadau tirlenwi.

(m) penderfyniad sy'n ymwneud â chofrestru person o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00) ~~(gweler adran 5 o'r Ddeddf honno)~~;

(n) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad o dan adran 12 yn y Rhan honno o'r Ddeddf honno neu i gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath;

(o) penderfyniad sy'n ymwneud â chosb o dan y Rhan honno o'r Ddeddf honno.

(2A) Yn is-adran (2), mae i “gweithredwr”, “safle tirlenwi awdurdodedig”, “cofrestru” a “man nad yw at ddibenion gwaredu” yr un ystyr ag a roddir iddynt yn DTGT.

(3) Ond nid yw'r penderfyniadau a ganlyn yn benderfyniadau apeliadwy—

(a) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad ymholiad o dan adran 43 neu 74;

(b) penderfyniad i ddyroddi—

(i) hysbysiad trethdalwr pan gymeradwyodd y tribiwnlys ddyroddi'r hysbysiad, neu

(ii) hysbysiad trydydd parti y mae adran 90(3) yn gymwys iddo;

(c) penderfyniad i gynnwys gofyniad penodol mewn—

(i) hysbysiad trethdalwr pan gymeradwyodd y tribiwnlys ddyroddi'r hysbysiad, neu

(ii) hysbysiad trydydd parti y mae adran 90(3) yn gymwys iddo.

(4) Pan fo'r tribiwnlys wedi cymeradwyo dyroddi hysbysiad gwybodaeth, ni chaiff person ofyn am adolygiad o benderfyniad ACC i ddyroddi'r hysbysiad.

(5) Pan ganiateir gofyn am adolygiad, neu wneud apêl, mewn cysylltiad â phenderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu gynnwys gofyniad mewn hysbysiad o'r fath, caniateir gofyn amdano neu ei gwneud ar y seiliau a ganlyn yn unig—

(a) ei bod yn afresymol ei gwneud yn ofynnol i'r person y dyroddwyd yr hysbysiad iddo gydymffurfio â'r hysbysiad neu'r gofyniad;

(b) bod darpariaeth yn adrannau 97 i 102 yn rhwystro'r hysbysiad rhag ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu'r wybodaeth neu gyflwyno'r ddogfen;

(c) yn achos hysbysiad adnabod a ddyroddir o dan adran 92 neu hysbysiad cyswllt dyledwr a ddyroddir o dan adran 93, nad yw amod 4 o'r adran honno wedi ei fodloni.

(6) Yn achos penderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu hysbysiad o dan adran 12A o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 neu gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath, y person y mae'r penderfyniad yn gymwys iddo at ddibenion is-adran (1) yw'r person y dyroddwyd yr hysbysiad iddo.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y canlynol drwy reoliadau—

(a) addasu'r adran hon er mwyn—

(i) ychwanegu penderfyniad at is-adran (2) neu (3);

(ii) amrywio'r disgrifiad o benderfyniad yn y naill neu'r llall o'r is-adrannau hynny.;

(iii) tynnu ymaith benderfyniad o'r naill neu'r llall o'r is-adrannau hynny;

(b) diwygio'r Rhan hon er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch ar ba seiliau y caniateir gofyn am adolygiad, neu wneud apêl, mewn cysylltiad â phenderfyniad apeliadwy.

**187B Cymhwyso i'r Goron at ddibenion yr ardoll ymwelwyr, y ~~a'r~~ gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr a'r cyfeiriadur o lety ymwelwyr**

*Paragraff 16(4) o Atodlen 2 i'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

(1) Mae'r Ddeddf hon, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â swyddogaethau ACC o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5) a Rhan 4 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00), ac mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr, yn rhwymo'r Goron.

(2) Nid yw'r Ddeddf hon, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â swyddogaethau ACC o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 a Rhan 4 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026, ac mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr, yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd, ond

mae'n gymwys i bersonau sy’n gwasanaethu’r Goron fel y mae'n gymwys i bersonau eraill.

(3) Yn is-adrannau (1) a (2), mae cyfeiriadau at “y Ddeddf hon” yn cynnwys cyfeiriad at ddeddfiad a wneir o dan y Ddeddf hon.

**Rhan 2**

*Atodlen 2(19(2)) i'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

**AWDURDOD CYLLID CYMRU**

*Sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru a'i statws*

*Swyddogaethau*

**12 Prif swyddogaethau**

(1) Swyddogaeth gyffredinol ACC yw casglu a rheoli trethi datganoledig.

(2) Mae gan ACC y swyddogaethau penodol canlynol—

(a) rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru mewn perthynas â threthi datganoledig;

(b) darparu gwybodaeth a chymorth sy'n ymwneud â threthi a gesglir gan ACC i drethdalwyr, eu hasiantiaid a phersonau eraill;

(c) datrys cwynion ac anghydfodau sy'n ymwneud â threthi datganoledig;

(d) hyrwyddo cydymffurfedd â'r gyfraith sy'n ymwneud â threthi datganoledig a diogelu rhag efadu trethi ac osgoi trethi mewn perthynas â threthi datganoledig.

(e) rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr i brif gynghorau.

(2A) Mae gan ACC swyddogaethau hefyd o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (cofrestr o lety ~~ymwelwyr)~~ ddarparwyr llety) a [Rhan X o] Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00) (cyfeiriadur o lety ymwelwyr).

(3) Rhaid i ACC roi i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth, cyngor neu gymorth sy'n ymwneud â'i swyddogaethau y gall Gweinidogion Cymru o bryd i'w gilydd ofyn amdano (amdani) ar unrhyw ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru.

(4) Yn ogystal ag unrhyw bwerau eraill sydd ganddo, caiff ACC wneud unrhyw beth sydd, ym marn ACC—

(a) yn angenrheidiol neu'n hwylus mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau, neu

(b) yn ffafriol i arfer y swyddogaethau hynny neu'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau hynny.

*Gwybodaeth*

*Atodlen 2(19(3)) i'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ac adran 39(5) o'r Bil hwnnw*

**18 Datgelu a ganiateir**

(1) Mae'r adran hon yn caniatáu datgelu gwybodaeth warchodedig—

(za) os gwneir hynny at ddibenion swyddogaethau ACC, ac eithrio'r swyddogaethau a nodir yn adran 12(2)(a) ac (e), a (3),

(a) os gwneir hynny gyda chydsyniad pob person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef,

(b) os gwneir hynny er mwyn cael gwasanaethau mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC,

(c) os gwneir hynny at ddibenion ymchwiliad troseddol neu achos troseddol neu at ddibenion atal neu ganfod trosedd,

(d) os gwneir hynny i gorff sydd â chyfrifoldeb am reoleiddio proffesiwn mewn cysylltiad â chamymddwyn ar ran aelod o'r proffesiwn sy'n ymwneud ag un o swyddogaethau ACC,

(e) os gwneir hynny at ddibenion achos sifil,

(f) os gwneir hynny yn unol â gorchymyn llys neu dribiwnlys,

(g) os gwneir hynny yn unol â deddfiad sy'n gwneud ei datgelu yn ofynnol neu'n caniatáu hynny, neu

(h) os gwneir hynny i ACC neu i berson y mae ACC wedi dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau iddo ar gyfer ei defnyddio yn unol ag adran 16.

(i) **[**os gwneir hynny i Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC neu mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, ~~neu~~

(j) os gwneir hynny i Revenue Scotland mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC neu mewn cysylltiad â chasglu a rheoli treth ddatganoledig o fewn ystyr Deddf yr Alban 1998 (c. 46).

(k) os datgelir gwybodaeth a gafwyd mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau ACC o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00), ac fe'i datgelir—

(i) i brif gyngor mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau'r prif gyngor, neu

(ii) ~~i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag un o'u swyddogaethau o dan adran 2 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 (c. 51)~~ <u>Rhan X o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00), neu</u>

(l) <u>os gwneir hynny i Weinidogion Cymru at ddiben unrhyw un neu ragor o'u</u>

swyddogaethau o dan Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (1).

**RHAN 8**

**ADOLYGIADAU AC APELAU**

**PENNOD 1**

RHAGARWEINIOL

*Atodlen 2(19(4)) i'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

*Penderfyniadau apeliadwy*

**172 Penderfyniadau apeliadwy**

(1) Caiff person y mae penderfyniad apeliadwy yn gymwys iddo—
  (a) gofyn am adolygiad o'r penderfyniad (yn ddarostyngedig i is-adran (4)), a
  (b) apelio yn erbyn y penderfyniad, yn unol â'r darpariaethau a ganlyn yn y Rhan hon.

(2) Mae'r penderfyniadau a ganlyn gan ACC yn benderfyniadau apeliadwy—
  (a) penderfyniad sy'n effeithio ar ba un a yw treth ddatganoledig i'w chodi ar berson;
  (b) penderfyniad sy'n effeithio ar y swm o dreth ddatganoledig sydd i'w chodi ar berson;
  (c) penderfyniad sy'n effeithio ar y diwrnod erbyn pryd y mae'n rhaid talu swm o dreth ddatganoledig;
  (d) penderfyniad ynglŷn â chosb sy'n ymwneud â threth ddatganoledig;
  (da) penderfyniad sy'n ymwneud â phwynt cosb am fethu â chyflwyno ffurflen ardoll ymwelwyr (o fewn ystyr Rhan 5);

(db) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad trethdalwr, neu gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath, pan na chymeradwyodd y tribiwnlys ddyroddi'r hysbysiad

(e) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath.

(f) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad o dan baragraff 14 o Atodlen 16 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (adennill rhyddhad grŵp: hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmni grŵp neu gyfarwyddwr â rheolaeth arall dalu);

(g) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad o dan baragraff 9 o Atodlen 17 i'r Ddeddf honno (adennill rhyddhad atgyfansoddi neu ryddhad caffael: hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmni grŵp neu gyfarwyddwr â rheolaeth arall dalu);]

(h) penderfyniad sy'n ymwneud â'r dull sydd i'w ddefnyddio gan weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig i nodi pwysau deunydd at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi;

(i) penderfyniad sy'n ymwneud â chofrestru person at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi;

(j) penderfyniad sy'n ymwneud â dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi;;

(k) penderfyniad sy'n ymwneud â dynodi grŵp o gyrff corfforedig at ddibenion treth gwarediadau tirlenwi;

(l) penderfyniad sy'n ymwneud â chredyd treth mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi.

(m) penderfyniad sy'n ymwneud â chofrestru person o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00) ~~(gweler adran 5 o'r Ddeddf honno)~~;

(n) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad o dan adran 12 yn y Rhan honno o'r Ddeddf honno neu gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath;
(o) penderfyniad sy'n ymwneud â chosb o dan y Rhan honno o'r Ddeddf honno.

(2A) Yn is-adran (2), mae i “gweithredwr”, “safle tirlenwi awdurdodedig”, “cofrestru” a “man nad yw at ddibenion gwaredu” yr un ystyron ag a roddir iddynt yn y Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi.

(3) Ond nid yw'r penderfyniadau a ganlyn yn benderfyniadau apeliadwy—
(a) penderfyniad i ddyroddi hysbysiad ymholiad o dan adran 43 neu 74;
(b) penderfyniad i ddyroddi—
(i) hysbysiad trethdalwr pan gymeradwyodd y tribiwnlys ddyroddi'r hysbysiad, neu
(ii) hysbysiad trydydd parti y mae adran 90(3) yn gymwys iddo;
(c)
(i) hysbysiad trethdalwr pan gymeradwyodd y tribiwnlys ddyroddi'r hysbysiad, neu
(ii) hysbysiad trydydd parti y mae adran 90(3) yn gymwys iddo.

(4) Pan fo'r tribiwnlys wedi cymeradwyo dyroddi hysbysiad gwybodaeth, ni chaiff person ofyn am adolygiad o benderfyniad ACC i ddyroddi'r hysbysiad.

(5) Pan ganiateir gofyn am adolygiad, neu wneud apêl, mewn cysylltiad â phenderfyniad i ddyroddi hysbysiad gwybodaeth neu gynnwys gofyniad mewn hysbysiad o'r fath, caniateir gofyn amdano neu ei gwneud ar y seiliau a ganlyn yn unig—
(a) ei bod yn afresymol ei gwneud yn ofynnol i'r person y dyroddwyd yr hysbysiad iddo gydymffurfio â'r hysbysiad neu'r gofyniad;

(b) bod darpariaeth yn adrannau 97 i 102 yn rhwystro'r hysbysiad rhag ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu'r wybodaeth neu gyflwyno'r ddogfen;

(c) yn achos hysbysiad adnabod a ddyroddir o dan adran 92 neu hysbysiad cyswllt dyledwr a ddyroddir o dan adran 93, nad yw amod 4 o'r adran honno wedi ei fodloni.

(6) Yn achos penderfyniad i ddyroddi ~~hysbysiad gwybodaeth~~ <u>neu hysbysiad o dan adran 12A o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc.</u> (Cymru) 2025 neu gynnwys gofyniad penodol mewn hysbysiad o'r fath, y person y mae'r penderfyniad yn gymwys iddo at ddibenion is-adran (1) yw'r person y dyroddwyd yr hysbysiad iddo.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y canlynol drwy reoliadau—

(a) addasu'r adran hon er mwyn—

(i) ychwanegu penderfyniad at is-adran (2) neu (3);

(ii) amrywio'r disgrifiad o benderfyniad yn y naill neu'r llall o'r is-adrannau hynny.;

(iii) tynnu ymaith benderfyniad o'r naill neu'r llall o'r is-adrannau hynny;

(b) diwygio'r Rhan hon er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch pa seiliau y caniateir gofyn am adolygiad, neu wneud apêl, mewn cysylltiad â phenderfyniad apeliadwy.

## RHAN 10

*Atodlen 2(19(5)) i'r Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)*

## DARPARIAETHAU TERFYNOL

### 187A Cymhwyso i'r Goron at ddibenion Treth Trafodiadau Tir

(1) I'r graddau y mae'r darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf hon yn gymwys i dreth trafodiadau tir, maent yn rhwymo'r Goron—
  (a) Rhan 3;
  (b) Rhan 4 (ac eithrio Pennod 6);
  (c) Rhan 6 (ac eithrio adrannau 157A, 160 ac 161(2)(b));
  (d) Rhan 7 (ac eithrio adrannau 168, 169 a 170);
  (e) Rhan 8 (ac eithrio adrannau 172(1)(d) ac (e), (3)(b) ac (c), (4), (5) a (6), 182 a 183);
  (f) adrannau 190 a 191.

(2) Ond nid yw Rhan 4 yn gymwys i'w Mawrhydi fel unigolyn preifat (o fewn ystyr adran 38(3) o Ddeddf Achosion yn Erbyn y Goron 1947 (c. 44)).

**187B Cymhwyso i'r Goron at ddibenion yr ardoll ymwelwyr, y ~~a'r~~ gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr a'r cyfeiriadur o lety ymwelwyr**

Mae'r Ddeddf hon, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â swyddogaethau ACC o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00) a Rhan X o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00), ac mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr, yn rhwymo'r Goron.

Nid yw'r Ddeddf hon, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â swyddogaethau ACC o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 00) a Rhan X o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00), ac mewn perthynas â'r ardoll ymwelwyr, yn gwneud y Goron yn atebol yn droseddol, ond mae'n gymwys i bersonau yng

ngwasanaeth y Goron fel y mae'n gymwys i bersonau eraill.

**(1)** Yn is-adrannau (1) a (2), mae cyfeiriadau at “y Ddeddf hon” yn cynnwys cyfeiriad at ddeddfiad a wneir o dan y Ddeddf hon.